# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 29/09/2015

Cynnwys Contents

[1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
[1. Questions to the First Minister](#)

[Cwestiwn Brys: Adroddiadau ar Benderfyniadau'r Cabinet](#)
[Urgent Question: Cabinet Decision Reports](#)

[2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)
[2. Business Statement and Announcement](#)

[3. Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) o dan Reol Sefydlog 26.44](#)
[3. Stage 3 Standing Order 26.44 Debate on the Local Government (Wales) Bill](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn Da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30

## 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## 1. Questions to the First Minister

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The first item this afternoon is questions to the First Minister. Question 1 is Russell George.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog yw'r eitem gyntaf y prynhawn yma. Daw cwestiwn 1 gan Russell George.

### Y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion

### The School Modernisation Programme

13:30

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am raglen moderneiddio ysgolion Llywodraeth Cymru? OAQ(4)2466(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's school modernisation programme? OAQ(4)2466(FM)*

13:30

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Our £1.4 billion investment programme is benefiting over 150 schools in 22 local authorities across Wales. In the second year of a five-year programme, final approval has already been given for work to go ahead on 79 business cases, including, as the Member will know, Ysgol Dafydd Llwyd, and that represents 53 per cent of the overall programme target.

Mae mwy na 150 o ysgolion mewn 22 o awdurdodau lleol ledled Cymru yn elwa ar ein rhaglen fuddsoddi £1.4 biliwn. Yn yr ail flwyddyn o raglen bum mlynedd, rhoddwyd cymeradwyaeth derfynol eisoes i waith fynd rhagddo ar 79 o achosion busnes, gan gynnwys, fel y bydd yr Aelod yn gwybod, Ysgol Dafydd Llwyd, ac mae hynny'n cynrychioli 53 y cant o darged cyffredinol y rhaglen.

13:30 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister, and that's very welcome as well. The Welsh Government has repeatedly confirmed that its school modernisation programme is more than just a building programme; it's about creating the right environment for students regardless of their background and where they live. Do you therefore agree that, in implementing school modernisation, all local authorities must do more than just consider the financial viability of secondary school provision when coming to a decision on proposals to close any school and that every child should have the opportunity to be educated in a local school in the language of their choice?

Diolch, Brif Weinidog, ac mae hynny i'w groesawu yn fawr hefyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau dro ar ôl tro bod ei rhaglen moderneiddio ysgolion yn fwy na rhaglen adeiladu yn unig; mae'n ymwneud â chreu'r amgylchedd cywir ar gyfer myfyrwyr waeth beth fo'u cefndir na ble maen nhw'n byw. A ydych chi'n cytuno felly, wrth foderneiddio ysgolion, bod yn rhaid i bob awdurdod lleol wneud mwy na dim ond ystyried hyfywedd ariannol y ddarpariaeth ysgolion uwchradd wrth wneud penderfyniad ar gynigion i gau unrhyw ysgol ac y dylai pob plentyn gael y cyfle i gael ei addysgu mewn ysgol leol trwy gyfrwng yr iaith o'i ddewis?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, it's up to local authorities, of course, to take a decision as to how they organise education in their areas. It's the quality of the education provision that is one of the major factors, of course, that they should consider. But, of course, local authorities in Wales know they are able to access funds to build new schools in a way that isn't available to them in England.

Wel, cyfrifoldeb awdurdodau lleol, wrth gwrs, yw gwneud penderfyniad ynghylch sut maen nhw'n trefnu addysg yn eu hardaloedd. Mae ansawdd y ddarpariaeth addysg yn un o'r prif ffactorau, wrth gwrs, y dylen nhw eu hystyried. Ond, wrth gwrs, mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn gwybod y gallant gael gafael ar arian i adeiladu ysgolion newydd mewn ffordd nad yw ar gael iddynt yn Lloegr.

13:31 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to highlight the new schools built and planned in Swansea East under the twenty-first century schools programme, including the recently built Burlais and the proposed replacement for Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las. Is this one of the schemes at risk from the Welsh Conservatives' proposed cuts?

Hoffwn dynnu sylw at yr ysgolion newydd a adeiladwyd ac a gynlluniwyd yn Nwyrain Abertawe o dan raglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, gan gynnwys Burlais a adeiladwyd yn ddiweddar a'r adeilad newydd arfaethedig ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las. A yw hwn yn un o'r cynlluniau sydd dan fygythiad yn sgil toriadau arfaethedig Ceidwadwyr Cymru?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It would seem to be. I mean, they want to cut education spending by 12 per cent, even by their own admission in their own paper, which they produced. It was 20 per cent, of course, before the Assembly election, as their own leader, Nick Bourne, said freely on 'Wales Today' live, in fact, in an interview. But, I am pleased to see that Swansea's programme will see an investment of over £51 million in the area, with the Welsh Government contributing £25.6 million, because we know that we are moving ahead in ensuring that pupils in Wales have the right schools that they need for the future. We have seen a schools building programme that has not been witnessed in Wales for many, many decades and, certainly, wasn't witnessed in the 1980s and 1990s.

Mae hi'n ymddangos felly. Hynny yw, maen nhw eisiau torri gwariant ar addysg 12 y cant, ac maen nhw'n cyfaddef hynny yn eu papur eu hunain, a luniwyd ganddyn nhw. 20 y cant oedd y ffigur, wrth gwrs, cyn etholiad y Cynulliad, fel y dywedodd eu harweinydd eu hunain, Nick Bourne wrth bawb, ar 'Wales Today' yn fyw, a dweud y gwir, mewn cyfweliad. Ond, rwy'n falch o weld y bydd rhaglen Abertawe yn arwain at fuddsoddiad o fwy na £51 miliwn yn yr ardal, gyda Llywodraeth Cymru yn cyfrannu £25. 6 miliwn, oherwydd gwyddom ein bod yn symud ymlaen o ran sicrhau bod disgyblion yng Nghymru yn cael yr ysgolion cywir sydd eu hangen arnynt ar gyfer y dyfodol. Rydym ni wedi gweld rhaglen adeiladu ysgolion na welwyd yng Nghymru ers degawdau lawer iawn ac na welwyd yn y 1980au a'r 1990au, yn sicr.

13:32 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wel, un o'r cynlluniau sydd newydd gael ei gymeradwyo ac sy'n symud i ymgynghoriad statudol yw cynllun Seaside, fel mae'n cael ei alw, yn Llanelli. Gan fod hwn yn dechrau, fel rydych chi newydd ei ddweud, ar raglen o bum mlynedd, a fedrwch chi roi sicrwydd y byddwch chi fel Llywodraeth yn parhau gyda'r un buddsoddiad am y pum mlynedd ac na fydd gofyniad pellach i awdurdodau lleol dalu mwy i mewn i'r gronfa hon?

Well, one of the plans that has just been approved and is moving to statutory consultation is the Seaside scheme, as it's described, in Llanelli. As this is the start of a five-year programme, as you've just said, can you give an assurance that you, as a Government, will continue with the same investment over the five years and that there won't be a further requirement for local authorities to pay more into this fund?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Nid dyna beth yw'r nod, wrth gwrs. Rydym ni'n moyn sicrhau bod y cynlluniau, pan maen nhw'n dod o'n blaenau ni fel Llywodraeth, yn gynlluniau sy'n gynaliadwy. Wrth gwrs, mae yna gyfraniad oddi wrth awdurdodau lleol a chyfraniad hefyd, wrth gwrs, oddi wrth Lywodraeth Cymru. Rydym ni wedi dangos ei bod yn bosibl adeiladu ysgolion newydd sbon ar hyd a lled Cymru wrth ddefnyddio'r ffordd hon o weithio.

That isn't the aim, of course. We want to ensure, when the schemes are submitted to the Government, that they are sustainable. There is a contribution from local authorities and from Welsh Government. We have demonstrated, of course, that it's possible to build brand-new schools throughout the whole of Wales by using this method of working.

13:33 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, as you are aware, under the twenty-first century schools programme, to which you have referred, there has been a move in recent times towards more generic builds to help to deliver full value for the Welsh pound. However, there is some evidence that, in local authorities in Wales, there is the potential for this to lead to a compromise in standards, with a more utilitarian style of building being commissioned. In this context, First Minister, do you agree with me that while there must be, obviously, an emphasis on value for money it should not see a removal of a commitment to excellence in the design for school buildings and that they should reflect appropriately the area and community in which they're built and also involve full consultation with schools and the wider community?

Brif Weinidog, fel y gwyddoch, o dan raglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, yr ydych chi wedi cyfeirio ati, bu symudiad yn ddiweddar tuag at adeiladau mwy cyffredinol i helpu i sicrhau gwerth llawn am y bunt Gymreig. Fodd bynnag, ceir rhywfaint o dystiolaeth, mewn awdurdodau lleol yng Nghymru, bod potensial i hyn arwain at gyfaddawdu o ran safonau, gydag arddull mwy defnyddiol na deniadol o adeiladu yn cael ei gomisiynu. Yn y cyd-destun hwn, Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno â mi, er bod yn rhaid cael, yn amlwg, pwyslais ar werth am arian, na ddylai hynny olygu cael gwared ar ymrwymiad i ragoriaeth o ran dylunio adeiladau ysgolion ac y dylent adlewyrchu yn briodol yr ardal a'r gymuned y maen nhw'n cael eu hadeiladu ynddi, a hefyd cynnwys ymgynghoriad llawn â'r ysgolion a'r gymuned ehangach?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, they should. It's important that school buildings are sustainable, that they use as little energy as possible. I've seen good examples of that across Wales. It's what we expect, of course. We expect them to reach a high level of BREEAM approval when they're built. I've been to many schools built across Wales and the buildings are far superior in every single instance to the buildings that they replaced. We have seen schools that are not just fit for purpose, they are good places to learn, they're excellent places in which to teach as well, and, in the cases that I have seen, they are additions to the local community in terms of their architecture and their contribution to the community.

Dylent, mi ddylent. Mae'n bwysig bod adeiladau ysgolion yn gynaliadwy, eu bod yn defnyddio cyn lleied o ynni â phosibl. Rwyf wedi gweld enghreifftiau da o hynny ledled Cymru. Dyna yr ydym ni'n ei ddisgwyl, wrth gwrs. Rydym ni'n disgwyl iddyn nhw gyrraedd lefel uchel o gymeradwyaeth BREEAM pan fyddant yn cael eu hadeiladu. Rwyf wedi bod mewn llawer o ysgolion a adeiladwyd ledled Cymru ac mae'r adeiladau yn llawer gwell ym mhob un achos na'r adeiladau a ddisodlwyd ganddynt. Rydym ni wedi gweld ysgolion sydd nid yn unig yn addas i'w diben, maen nhw'n lleoedd da i ddysgu, maen nhw'n lleoedd gwych i addysgu ynddynt hefyd, ac, yn yr achosion yr wyf i wedi eu gweld, maen nhw'n ychwanegiadau i'r gymuned leol o ran eu pensaernïaeth a'u cyfraniad i'r gymuned.

13:34 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, through this programme, the twenty-first century schools programme, a new £50 million-secondary school has been built in Aberdare, in addition to new primary schools for Abercynon, Cwmbach and Ynysboeth in my constituency. I also understand that Rhondda Cynon Taf Council is now looking to the programme to deliver new school buildings to serve the communities of Cwmaman and Hirwaun. Will the Welsh Government continue to work with local authorities in this innovative way to deliver educational buildings that are aspirational and fit for purpose?

Brif Weinidog, drwy'r rhaglen hon, rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, adeiladwyd ysgol uwchradd £50 miliwn newydd yn Aberdâr, yn ogystal ag ysgolion cynradd newydd ar gyfer Abercynon, Cwmbach ac Ynysboeth yn fy etholaeth i. Rwyf hefyd yn deall bod Cyngor Rhondda Cynon Taf am i'r rhaglen ddarparu adeiladau ysgol newydd i wasanaethu cymunedau Cwmaman a Hirwaun. A wnaiff Llywodraeth Cymru barhau i weithio gydag awdurdodau lleol yn y ffordd arloesol hon i ddarparu adeiladau addysgol sy'n uchelgeisiol ac yn addas i'w diben?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Absolutely. I congratulate RCT on their foresight and the way that they have worked with us in order to improve school buildings. I was in a comprehensive school in the 1980s, and, as somebody who went to a comprehensive school, I remember at the time that the idea, in the 1980s, of a new comprehensive school being built was fantastical. There was no money at all to build new schools. There was no money to maintain schools, let alone build them. That was the legacy of the Tory years; now we build schools in Wales.

Yn sicr. Rwy'n llongyfarch RhCT ar ei weledigaeth a'r ffordd y mae wedi gweithio gyda ni er mwyn gwella adeiladau ysgolion. Roeddwn i mewn ysgol gyfun yn y 1980au, ac, fel rhywun a aeth i ysgol gyfun, rwy’n cofio ar y pryd bod y syniad, yn y 1980au, o ysgol gyfun newydd yn cael ei hadeiladu yn un rhyfeddol. Nid oedd unrhyw arian o gwbl i adeiladu ysgolion newydd. Nid oedd unrhyw arian i gynnal a chadw ysgolion, heb sôn am eu hadeiladu. Dyna oedd etifeddiaeth blynyddoedd y Torïaid; rydym ni’n adeiladu ysgolion yng Nghymru nawr.

Senedd.tv Fideo Video

13:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Question 2, Janet Haworth.

Cwestiwn 2, Janet Haworth.

Senedd.tv Fideo Video

13:35 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Thank you, Deputy Presiding Officer.

Diolch, Ddirprwy Lywydd.

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

No, I’m the Presiding Officer; I’m not the deputy.

Na, fi yw'r Llywydd; nid y dirprwy ydw i.

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Sorry.

Mae'n ddrwg gennyf.

Senedd.tv Fideo Video

## Recriwtio Meddygon Teulu

## General Practitioner Recruitment

13:36 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

*2. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y meddygon teulu a gaiff eu recriwtio yng Nghymru? OAQ(4)2464(FM)*

*2. Will the First Minister outline what plans the Welsh Government has to increase GP recruitment in Wales? OAQ(4)2464(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We have more GPs than ever in Wales and we are working with NHS Wales and other partners on a range of actions to support and develop the primary care workforce in Wales, including the recruitment of GPs. Those actions are set out in the document ‘A Planned Primary Care Workforce for Wales’, which was launched on 17 July.

Mae gennym fwy o feddygon teulu nag erioed yng Nghymru ac rydym ni’n gweithio gyda GIG Cymru a phartneriaid eraill ar amrywiaeth o gamau gweithredu i gefnogi a datblygu'r gweithlu gofal sylfaenol yng Nghymru, gan gynnwys recriwtio meddygon teulu. Nodir y camau hynny yn y ddogfen ‘Gweithlu gofal sylfaenol wedi’i gynllunio i Gymru', a lansiwyd ar 17 Gorffennaf.

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Thank you, First Minister. It is clear that we are failing to adequately recruit GPs here in Wales, especially in rural areas, where long-established practices are closing down. There are at least two practices in my region in north Wales, including the Pendyffryn surgery in Prestatyn, that are due to close next year as a result of retirements and a failure to attract GPs to buy into the practices. What guarantees can you provide to ensure that every patient will continue to have access to a general practitioner in their locality?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Mae'n amlwg ein bod yn methu â recriwtio digon o feddygon teulu yma yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, lle mae meddygfeydd hir-sefydledig yn cau. Mae o leiaf dwy feddygfa yn fy rhanbarth i yn y gogledd, gan gynnwys meddygfa Pendyffryn ym Mhrestatyn, y disgwylir iddyn nhw gau y flwyddyn nesaf o ganlyniad i ymddeoliadau a methiant i ddenu meddygon teulu i brynu i mewn i'r meddygfeydd. Pa sicrwydd allwch chi ei roi i sicrhau parhâd y sefyllfa bod meddyg teulu ar gael i bob claf yn ei ardal leol?

Senedd.tv Fideo Video

13:37

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The health board, in the case of Pendyffryn, is working closely with the practice to ensure that patients get the local services that they need, and the health board is considering a range of models, which includes a new partnership, merging with another practice, or bringing the practice into health board management, which we know has worked successfully in the past. But, what I can say is that we don't expect the service to diminish in any way. We have to be more innovative in terms of attracting GPs. GPs are less likely now to want to buy into a practice anyway. For many of them, they wish to be salaried, they want to be able to move around; they don't want to be tied to one place. For some, of course, the contractor model will be the model that they wish to use. What's important is that the public get the service that they need, and the practice at Pendyffryn, in fairness to Pendyffryn, and the local health board, are working hard to ensure that remains the case.

Mae'r bwrdd iechyd, yn achos Pendyffryn, yn gweithio'n agos gyda'r feddygfa i sicrhau bod cleifion yn cael y gwasanaethau lleol sydd eu hangen arnynt, ac mae'r bwrdd iechyd yn ystyried amrywiaeth o fodelau, sy'n cynnwys partneriaeth newydd, uno â meddygfa arall, neu ddod â'r feddygfa dan reolaeth y bwrdd iechyd, ac rydym yn gwybod bod hynny wedi gweithio'n llwyddiannus yn y gorffennol. Ond, yr hyn y gallaf ei ddweud yw nad ydym yn disgwyl i'r gwasanaeth ddirywio mewn unrhyw ffordd. Mae'n rhaid i ni fod yn fwy arloesol o ran denu meddygon teulu. Mae meddygon teulu yn llai tebygol erbyn hyn o fod eisiau prynu i mewn i feddygfa beth bynnag. I lawer ohonynt, maen nhw eisiau bod yn gyflogedig, maen nhw eisiau gallu symud o gwmpas; nid ydyn nhw eisiau cael eu clymu i un lle. I rai, wrth gwrs, y model contractwr fydd y model y byddant yn dymuno ei ddefnyddio. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y cyhoedd yn cael y gwasanaeth sydd ei angen arno, ac mae'r feddygfa ym Mhendyffryn, er tegwch i Bendyffryn, a'r bwrdd iechyd lleol, yn gweithio'n galed i sicrhau y bydd hynny'n dal i fod yn wir.

13:37

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to stress the importance of primary care, even if the Conservatives want to increase expenditure on hospitals at the expense of primary care and social services. Does the First Minister agree with me that one solution to the shortage of GPs is to increase the number of salaried GPs?

Hoffwn bwysleisio pwysigrwydd gofal sylfaenol, hyd yn oed os yw'r Ceidwadwyr eisiau cynyddu gwariant ar ysbytai ar draul gofal sylfaenol a gwasanaethau cymdeithasol. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno â mi mai un ateb i'r prinder meddygon teulu yw cynyddu nifer y meddygon teulu cyflogedig?

13:38

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It's part of it, yes, because, as I say, the old model of buying into a practice is less attractive now than it was in the past. There are a number of reasons. Money upfront is one reason. Another reason is that, increasingly, doctors want to be more mobile; they don't want to be in one place for the rest of their working lives and they want to be able to move around. What's important is that the chance is there to operate under the traditional way of working, if I can put it that way, but that there are opportunities to become salaried GPs, so that those GPs are able then to contribute to the community but also feel that their method of employment is appropriate to them.

Mae'n rhan ohono, ydy, oherwydd, fel y dywedais, mae'r hen fodel o brynu i mewn i feddygfa yn llai deniadol nawr nag yr oedd yn y gorffennol. Mae nifer o resymau am hynny. Mae gorfod rhoi arian ymlaen llaw yn un rheswm. Rheswm arall yw bod meddygon yn gynyddol awyddus i fod yn fwy symudol; nid ydyn nhw eisiau bod mewn un lle am weddill eu bywydau gwaith ac maen nhw eisiau gallu symud o gwmpas. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y cyfle yno i weithredu o dan y ffordd draddodiadol o weithio, os caf ei roi felly, ond bod cyfleoedd i fod yn feddygon teulu cyflogedig, fel bod y meddygon teulu hynny yn gallu cyfrannu at y gymuned wedyn, ond hefyd yn teimlo bod eu dull o gyflogaeth yn briodol iddyn nhw.

13:38

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, fel r?m ni wedi clywed, mae problem benodol i recriwtio meddygon teulu yng nghefn gwlad. Yn Awstralia ac yn yr Unol Daleithiau, lle mae hyn hefyd yn gallu bod yn broblem, mae nhw wedi gosod cwota ar ysgolion meddygol i dderbyn myfyrwyr i'r ysgolion meddygol o ardaloedd cefn gwlad, oherwydd mae'r rheini yn fwy tebygol wedyn i ddychwelyd i weithio i gefn gwlad. Pam nad yw'ch Llywodraeth chi yn fodlon edrych ar enghreifftiau radical fel hyn, sy'n gweithio mewn mannau eraill, fel y gallwn ni sicrhau, mewn 10 mlynedd, fod gyda ni gyflenwad o feddygon teulu yn para i ddod mewn i'r NHS yng nghefn gwlad Cymru?

First Minister, as we've heard, there is a specific problem in recruiting GPs in rural areas. In Australia and the United States, where this can also be a problem, they have set quotas on the schools of medicine to accept students to those universities from rural areas because they are more likely to return to those rural areas to work. Why hasn't your Government been willing to look at radical solutions such as this, which do work elsewhere, so that we can ensure that, in 10 years' time, we have a sufficient supply of GPs coming into our NHS in rural Wales?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Onid yw hynny'n creu perygl y byddai'r safon yn cwympo? Os ydych yn dweud y dylai un gr?p o bobl gael rhyw fath o ffordd arbennig mewn i ysgol feddygol, mae hynny'n meddwl nad yw rhai eraill, sydd wedi gwneud yn well o ran lefel A, yn cael y cyfle. Dyna beth yw'r perygl, ondife? Y ffordd i wneud hyn yw sicrhau bod ffyrdd gwahanol o weithio fel meddyg teuluol ar gael mewn sawl rhan o Gymru, nid dim ond mynd i un model, sef model y contractwr. Nid yw hwnnw'n fodel mor eang â beth oedd yn wir o'r blaen. Beth sy'n bwysig yw sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bobl i weithio yng nghefn gwlad, ac rydym yn gwybod, wrth wneud hynny, wrth gwrs, y gallwn ni barhau i sicrhau bod nifer y meddygon teulu yn dal i godi.

Doesn't that create a risk of a drop in standards? If you say that entry into a school of medicine for some people would be allowed in one way, then others who actually do better academically wouldn't get an opportunity. That is the risk, is it not? The way of doing it is to ensure that there are alternative ways of working as GPs in different parts of Wales, not by having just one model, which is the contractor model and which is rather restrictive. What is important is that we ensure that there are opportunities for people to work in rural areas, and we know, of course, that, in doing so, we can continue to ensure that the number of GPs increases.

13:40 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Brif Weinidog, mae yna ryw 18,000 o bobl yn ardal Prestatyn yn pryderu am y sefyllfa, yn amlwg. Rwy'n derbyn y ffaith eich bod yn dweud bod y bwrdd iechyd, erbyn hyn, yn gorfod ceisio achub y sefyllfa. Ond, mae yna nifer cynyddol o ddoctoriaid ifainc, erbyn hyn, yn mynd i weithio dramor. A ydych chi wedi cael trafodaeth am gynyddu y nifer sydd yn cael eu hyfforddi yng Nghymru, os oes yna nifer ohonyn nhw yn mynd dramor ar ôl hynny? Hefyd, a oes yna unrhyw ffordd y gall Llywodraeth Cymru, neu'r gwasanaeth iechyd, glymu y doctoriaid yma am nifer o flynyddoedd ar ôl i ni wario cymaint o arian yn eu hyfforddi nhw yn y lle cyntaf?

First Minister, there are some 18,000 people in the Prestatyn area who are concerned about the situation. I accept the fact that you say that the health board now has to rescue the situation, as it were. However, there is an increasing number of young doctors now going to work abroad Have you had any discussion in terms of increasing the numbers that are trained in Wales, if many do then go abroad? Also, is there any way in which the Welsh Government or the health service in Wales can actually tie these doctors for a number of years once we have invested so much money in their training in the first place?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Y broblem yw, wrth gwrs, y neges y byddai rhai ohonyn nhw yn ei chlywed yw, 'Peidiwch dod i Gymru i hyfforddi, ewch i Loegr, lle does dim modd eich clymu chi'. Dyna beth yw'r broblem. Rydym yn gwybod, os ydych chi'n hyfforddi mwy o ddoctoriaid, nad yw hynny'n meddwl y bydd yna fwy o ddoctoriaid ar gael yng Nghymru. Beth sy'n bwysig yw bod pobl yn gweld bod Cymru yn le da i weithio ynddo. Rydym wedi gweld hynny, achos mae mwy o feddygon teulu wedi dod i weithio yng Nghymru—mwy na 10 mlynedd yn ôl, fel y dywedais i, mwy nag o'r blaen. Dyna'r ffordd i sicrhau bod pobl eisiau gweithio yng Nghymru. Bydd meddygon yn dal i fynd dramor, achos mae yna gyfle iddyn nhw i wneud hynny. Beth sy'n bwysig yw bod y rheini sy'n mynd yn dod nôl ac yn dod â'u profiad gyda nhw, a bod y rhai sydd yma yng Nghymru yn ystyried Cymru fel lle da i weithio yno. Dyna beth, i fi, yw'r flaenoriaeth—sicrhau bod Cymru a'i gwasanaeth iechyd yn cael eu hystyried yn rhywle da dros ben i ddatblygu gyrfa.

The problem, of course, is that the message will be, 'Don't come to Wales to be trained, go to England, because you won't be bound there'. That's the problem. We are aware that training more doctors doesn't necessarily mean that there will be more doctors in Wales. What's important is that people see Wales as an attractive place to work. We know that more GPs have come to work in Wales—more than 10 years ago, as I said, and more than previously. That's the way to ensure that people will want to work in Wales. GPs will continue to go abroad because there is an opportunity for them to do that, but what's important is that those who do go abroad then return and bring their experiences with them, and that those who are here in Wales consider Wales a good place to work. That, for me, is the priority—to ensure that Wales is considered to be somewhere where the national health service offers a good opportunity for career development.

13:41 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The announcement of the intention to serve notice on the existing GP contract in Prestatyn has been a very difficult one, I know, for the GP practice there. I have no doubt that it's not just the rural communities that are suffering from GP recruitment difficulties, but, of course, this is an example of an urban community that is also suffering as well. Can I just ask you though, First Minister, to what extent do you feel that the reputation of the Welsh National Health Service—and, particularly, the Betsi Cadwaladr University Local Health Board—may have contributed to these difficulties in recruitment in north Wales? Because I think it's no coincidence that the areas of north Wales where there do appear to be more difficulties in recruitment, do appear to be places like Wrexham, Glan Conwy and, now, Prestatyn, where these challenges are beginning to manifest. Do you see a correlation between the problems in north Wales, and at the Betsi Cadwaladr board, and the reputation of that board in what has happened here?

Mae cyhoeddi'r bwriad i roi rhybudd o derfynu'r contract meddygon teulu presennol ym Mhrestatyn wedi bod yn un anodd iawn, rwy'n gwybod, i'r feddygfa deulu yno. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth nad dim ond y cymunedau gwledig sy'n dioddef anawsterau recriwtio meddygon teulu, ond, wrth gwrs, mae hon yn enghraifft o gymuned drefol sy'n dioddef hefyd. A gaf i ofyn i chi, fodd bynnag, Brif Weinidog, i ba raddau ydych chi'n teimlo y gallai enw gwael Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru—a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn benodol—fod wedi cyfrannu at yr anawsterau recriwtio hyn yn y gogledd? Oherwydd nid wyf yn credu ei fod yn gyd-ddigwyddiad ei bod yn ymddangos mai lleoedd fel Wrecsam, Glan Conwy a Phrestatyn erbyn hyn yw'r ardaloedd yn y gogledd lle mae'n ymddangos bod mwy o anawsterau recriwtio, lle mae'r heriau hyn yn dechrau dod i'r amlwg. A ydych chi'n gweld cydberthynas rhwng y problemau yn y gogledd, ac ym mwrdd Betsi Cadwaladr, ac enw gwael y bwrdd hwnnw o ran yr hyn sydd wedi digwydd yma?

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No, I see no evidence of that at all. If I were a junior doctor, I'd be looking at the NHS in England, given the potential strike that may be called there—the first in 40 years—under his party and what they propose. The Pendyffryn practice, in fairness, is working with the local health board. If it is the case that the practice is brought into health board management, then so be it. That will allow the service to continue, as far as local people are concerned, and will help, of course, to deliver the board's long-term strategic model. I very much welcome the fact that the British Medical Association, through its general practitioners committee, has worked very closely with us as a Government, in order to develop the GP workforce in Wales.

Nac ydw, nid wyf yn gweld unrhyw dystiolaeth o hynny o gwbl. Pe byddwn i'n feddyg iau, byddwn i'n edrych ar y GIG yn Lloegr, o ystyried y streic bosibl a allai gael ei galw yno—y gyntaf mewn 40 mlynedd—o dan ei blaid ef a'r hyn y maen nhw'n ei gynnig. Mae meddygfa Pendyffryn, er tegwch, yn gweithio gyda'r bwrdd iechyd lleol. Os mai'r sefyllfa fydd bod y feddygfa yn dod o dan reolaeth y bwrdd iechyd, dyna ni. Bydd hynny'n caniatáu i'r gwasanaeth barhau, cyn belled ag y mae pobl leol yn y cwestiwn, a bydd yn helpu, wrth gwrs, i ddarparu model strategol hirdymor y bwrdd. Rwy'n croesawu'n fawr y ffaith fod Cymdeithas Feddygol Prydain, trwy ei phwyllgor meddygon teulu, wedi gweithio'n agos iawn gyda ni fel Llywodraeth, er mwyn datblygu'r gweithlu meddygon teulu yng Nghymru.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We now move to questions from the party leaders, and first this afternoon, the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr, ac arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies, sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:43 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much, Presiding Officer. Good afternoon, First Minister. It's good to see in the public gallery a good crowd of people watching First Minister's questions—the biggest crowd I've seen for quite some time. Regrettably, if you look at the agenda today, there are only three items of business on that agenda, so we can hardly promise the gallery an action-packed afternoon. Last Tuesday, we finished at 5 o'clock. The first Tuesday, after an eight-week recess, your Government only tabled enough business to take us until 4.50 p.m. Tuesdays are Government business days. You've got an array of Ministers there; if ever anyone wanted to see whether your Government has run out of steam and ideas, they only need to look at the agenda and the proposals that your Government are bringing before this Assembly.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Prynhawn da, Brif Weinidog. Mae'n dda gweld yn yr oriel gyhoeddus torf dda o bobl yn gwylio cwestiynau i'r Prif Weinidog—y dorf fwyaf yr wyf wedi ei gweld ers cryn amser. Yn anffodus, os edrychwch chi ar yr agenda heddiw, dim ond tair eitem o fusnes sydd ar yr agenda honno, felly prin y gallwn ni addo prynhawn prysur i'r oriel y prynhawn yma. Ddydd Mawrth diwethaf, daethom i ben am 5 o'r gloch. Y dydd Mawrth cyntaf, ar ôl toriad o wyth wythnos, cyflwynodd eich Llywodraeth ddim ond digon o fusnes i fynd â ni at 4:50 yn y pnawn. Dydd Mawrth yw diwrnod busnes y Llywodraeth. Mae gennych chi lu o Weinidogion yn y fan yna; pe byddai unrhyw un rywbryd eisiau gweld a yw eich Llywodraeth wedi rhedeg allan o stêm a syniadau, y cwbl y mae angen iddyn nhw ei wneud yw edrych ar yr agenda a'r cynigion y mae eich Llywodraeth eu cyflwyno gerbron y Cynulliad hwn.

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I thank the leader of the opposition for referring to mainly my constituents, actually, who are up in the public gallery. I'm sure that they will welcome being mentioned by him—perhaps less impressed with his performance, but there we are; it's a matter for them to judge, of course.

Wel, diolchaf i arweinydd yr wrthblaid am gyfeirio at fy etholwyr i yn bennaf, a dweud y gwir, sydd i fyny yn yr oriel gyhoeddus. Rwy'n siŵr y byddant yn falch ei fod wedi sôn amdanynt—ond efallai y bydd ei berfformiad yn creu llai o argraff, ond dyna ni; mater iddyn nhw yw barnu, wrth gwrs.

We have a Bill before the Assembly this afternoon, which will take at least three hours, a Bill that will add, once again, to the Welsh statute book. And he knows full well that Bills take some time to be scrutinised. Where are his ideas for Wales's future? He's an empty vessel. At the end of the day, if he's trying to look for an idea, he rings Downing Street to get ideas. He has no ideas of his own at all. There was a press conference for his party held this morning, all about local government mergers, and his spokesperson was asked, 'Well, how many authorities do you think there should be in Wales?'—'Don't know' was the answer. 'Don't know'. Well, it's about time the people of Wales had answers from him and his party.

Mae gennym Fil gerbron y Cynulliad y prynhawn yma, a fydd yn cymryd o leiaf tair awr, Bil, a fydd yn ychwanegu, unwaith eto, at lyfr statud Cymru. Ac mae'n gwybod yn iawn ei bod yn cymryd cryn amser i graffu ar Filiau. Ble mae ei syniadau ef ar gyfer dyfodol Cymru? Mae'r llestr yn wag. Yn y pen draw, os yw'n ceisio chwilio am syniad, mae'n ffonio Stryd Downing i gael syniadau. Nid oes ganddo unrhyw syniadau ei hun o gwbl. Roedd cynhadledd i'r wasg ar gyfer ei blaid a gynhaliwyd y bore yma, yn ymwneud ag uno llywodraeth leol, a gofynnwyd i'w lefarydd, 'Wel, faint o awdurdodau ydych chi'n credu ddylai fod yng Nghymru?'—'Ddim yn gwybod' oedd yr ateb. 'Ddim yn gwybod'. Wel, mae'n hen bryd i bobl Cymru gael atebion ganddo fe a'i blaid.

13:45 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm really pleased that they are your constituents. I'm sure they'll all have a view on your actions around the Princess of Wales Hospital and the times we've debated that in this Chamber, First Minister, which I'm sure they want answers for.

Rwy'n hynod o falch mai eich etholwyr chi ydyn nhw. Rwy'n siŵr y bydd gan bob un ohonynt farn ar eich gweithredoedd o ran Ysbyty Tywysoges Cymru a'r nifer o weithiau yr ydym ni wedi trafod hynny yn y Siambr hon, Brif Weinidog, yr wyf yn siŵr yr hoffent gael atebion ynghylch hynny.

But I take your point on local Government. We have the Local Government (Wales) Bill coming through this afternoon—a Bill that you will not be able to implement because you haven't got the numbers. But we have brought forward a policy position today that would allow a referendum for local people to determine whether the merger was in their interests and in their community interests. The answer's in the question: it's local government, so surely local people should have a view, and be able to express that view, via a referendum. If you actually agree with that, will you support the amendment today so that, actually, you can make progress on local government reorganisation?

Ond rwy'n derbyn eich pwynt ar Lywodraeth leol. Mae gennym ni Fil Llywodraeth Leol (Cymru) yn dod drwyddo y prynhawn yma—Bil na fyddwch chi'n gallu ei roi ar waith gan nad yw'r niferoedd gennych chi. Ond rydym ni wedi cyflwyno safbwynt polisi heddiw a fyddai'n caniatáu refferendwm i bobl leol benderfynu a yw'r uno er eu lles nhw ac er lles eu cymuned. Mae'r ateb yn y cwestiwn: llywodraeth leol yw hi, felly does bosib na ddylai pobl leol gael barn, a chael mynegi'r farn honno, drwy refferendwm. Os ydych chi mewn gwirionedd yn cytuno â hynny, a wnewch chi gefnogi'r gwelliant heddiw fel, mewn gwirionedd, y gallwch wneud cynnydd ar ad-drefnu llywodraeth leol?

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

First of all, I'm sure people will notice his gratuitous swipe at the Princess of Wales Hospital, completely out of context with the question that he originally asked. Yes, I know it's painful for you on those benches, but you'll have to listen just for once, okay? As far as local government is concerned, what kind of policy is that? 'We've got no idea, so we'll have a referendum and have piecemeal reform across Wales'. It's about time you had ideas. It's about time you thought of your own ideas, separate from those of your party in England.

Yn gyntaf oll, rwy'n siŵr y bydd pobl yn sylwi ar ei feirniadaeth ddiangen o Ysbyty Tywysoges Cymru, yn gyfan gwbl allan o gyd-destun y cwestiwn a ofynnodd yn wreiddiol. Rwy'n gwybod ei bod yn boenus i chi ar y meinciau yna, ond bydd yn rhaid i chi wrando am unwaith, iawn? Cyn belled ag y mae llywodraeth leol yn y cwestiwn, pa fath o bolisi yw hwnna? 'Does gennym ni ddim syniad, felly fe gawn ni refferendwm a diwygio tameidiog ar draws Cymru'. Mae'n hen bryd i chi gael syniadau. Mae'n hen bryd i chi feddwl am eich syniadau eich hun, ar wahân i rai eich plaid yn Lloegr.

Let me tell him one thing. He talks of local government. He wants to cut local government spending by 12.5 per cent. There it is: that's his own document; 12.5 per cent. Let me tell him: that will send council tax up by 38 per cent in Wales. A 38 per cent council tax increase just to maintain services where they are. At the end of the day, what his party wants is for people to pay more for services that are worse because of funding cuts from his party.

Gadewch i mi ddweud un peth wrtho. Mae'n sôn am lywodraeth leol. Mae ef eisiau torri gwariant llywodraeth leol 12.5 y cant. Dyna ni: ei ddogfen ei hun yw honno; 12.5 y cant. Gadewch i mi ddweud wrtho: bydd hynny'n codi'r dreth gyngor 38 y cant yng Nghymru. Cynnydd o 38 y cant i'r dreth gyngor dim ond er mwyn cadw gwasanaethau lle maen nhw. Yn y pen draw, yr hyn y mae ei blaid ef ei eisiau yw i bobl dalu mwy am wasanaethau sy'n waeth oherwydd toriadau cyllid gan ei blaid.

13:46 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As usual, the First Minister brings out documents that bear no relation to the election we're facing in May. We have called for a council tax freeze time and again, and I have no hesitation in commending the ability of any Government to listen to local communities. It is a shame that you have not agreed to endorse the amendment that is before the Assembly this afternoon, which would empower local communities to endorse, or not, whether their councils should merge.

Yn ôl yr arfer, mae'r Prif Weinidog yn codi dogfennau sydd ddim yn berthnasol o gwbl i'r etholiad yr ydym ni'n ei hwynebu ym mis Mai. Rydym ni wedi galw am rewi'r dreth gyngor dro ar ôl tro, ac nid wyf yn petruso rhag canmol gallu unrhyw Lywodraeth i wrando ar gymunedau lleol. Mae'n drueni nad ydych chi wedi cytuno i gefnogi'r gwelliant sydd gerbron y Cynulliad y prynhawn yma, a fyddai'n grymuso cymunedau lleol i gymeradwyo, neu beidio, pa un a ddylai eu cynghorau uno.

On the weekend you talked about delivery, and you said that you'd delivered on your programme for government when you were talking to the comrades in Brighton. Well, what about—you say about your constituents; one in seven will be on a waiting list, an NHS waiting list in Wales that has doubled under your tenure as First Minister. When are the waiting times going to come down here in Wales, and when are we actually going to see real progress on cancer waits, or on referral to treatment times? We have, as I said, one in seven people on a waiting list, and it has doubled under your leadership, First Minister.

Soniasoch am gyflawni dros y penwythnos, a dywedasoch eich bod wedi cyflawni o ran eich rhaglen lywodraethu pan roeddech chi'n siarad â'r cymrodyr yn Brighton. Wel, beth am—rydych chi'n sôn am eich etholwyr; bydd un o bob saith ar restr aros, rhestr aros y GIG yng Nghymru sydd wedi dyblu yn ystod eich cyfnod fel Prif Weinidog. Pa bryd mae'r amseroedd aros yn mynd i fyrhau yma yng Nghymru, a phryd ydym ni'n mynd i weld cynnydd gwirioneddol o ran amseroedd aros canser, neu amseroedd atgyfeiriad am driniaeth? Mae gennym ni, fel y dywedais, un o bob saith o bobl ar restr aros, ac mae wedi dyblu dan eich arweinyddiaeth chi, Brif Weinidog.

13:47

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

The figure that he refers to includes people who've just been referred by their GP—that day, quite often. People of course aren't going to see a specialist within a day. But let me tell him, cancer waiting times in Wales are better than in England. For the first time, over 70 per cent of people diagnosed with cancer are now surviving for at least one year. We know that cancer waits are dropping. We know that 89 per cent of respondents, according to the Welsh cancer patient experience survey, rate their care as good or excellent, and we know that there's been a 44 per cent reduction in diagnostic waits over 8 weeks. That's what we offer. Let me tell you what he offers: a 12.5 per cent cut in local government spending; a 12 per cent cut in education spending; a 30 per cent cut in spending on job creation and transport; a 25 per cent cut in environment, sustainability and housing; a 15 per cent for farming and rural affairs; and a 20 per cent cut for heritage spending. This is what his party would do to us. This document his party published. He has the nerve to say 'It's nothing to do with us, it's nothing to do with the election'. This is the evidence of what his party would do to Wales if they ever got their hands anywhere near the levers of power.

Mae'r ffigur y mae'n cyfeirio ato yn cynnwys pobl sydd newydd gael eu hatgyfeirio gan eu meddyg teulu—y diwrnod hwnnw, yn aml iawn. Nid yw pobl yn mynd i weld arbenigwr o fewn diwrnod, wrth gwrs. Ond gadewch i mi ddweud wrtho, mae amseroedd aros canser yng Nghymru yn well nag yn Lloegr. Am y tro cyntaf, mae dros 70 y cant o bobl sy'n cael diagnosis o ganser yn goroesi am o leiaf blwyddyn erbyn hyn. Rydym ni'n gwybod bod amseroedd aros canser yn byrhau. Rydym ni'n gwybod bod 89 y cant o ymatebwyr, yn ôl arolwg profiad cleifion canser Cymru, o'r farn bod eu gofal yn dda neu'n ardderchog, a gwyddom y bu gostyngiad o 44 y cant i amseroedd aros diagnostig dros 8 wythnos. Dyna'r hyn yr ydym ni'n ei gynnig. Gadewch i mi ddweud wrthych chi'r hyn y mae ef yn ei gynnig: toriad o 12.5 y cant i wariant llywodraeth leol; toriad o 12 y cant i wariant ar addysg; toriad o 30 y cant i wariant ar greu swyddi a thrafnidiaeth; toriad o 25 y cant i'r amgylchedd, cynaliadwyedd a thai; a 15 y cant i ffermio a materion gwledig; a thoriad o 20 y cant i wariant treftadaeth. Dyna fyddai ei blaid ef yn ei wneud i ni. Dyna'r ddogfen a gyhoeddwyd gan ei blaid. Mae ganddo'r wyneb i ddweud 'Nid yw'n ddim i wneud â ni, nid yw'n ddim i wneud â'r etholiad'. Dyma'r dystiolaeth o'r hyn y byddai ei blaid yn ei wneud i Gymru pe byddent fyth yn cael eu dwylo yn agos at yr awenau.

13:49

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:49

## Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, since 2010, average wages have fallen in Wales by more than £2,000 per year. For many people, outgoings have increased, and so people's buying power is significantly lower than what it was. Is it not right, therefore, that the public sector sets an example in tackling income inequality so that the earnings of those at the top of organisations are not so much more than those at the bottom of the scale?

Brif Weinidog, ers 2010, mae cyflogau yng Nghymru wedi gostwng mwy na £2,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. I lawer o bobl, mae gwariant wedi cynyddu, ac felly mae pŵer prynu pobl yn sylweddol is na'r hyn yr oedd. Onid yw'n iawn, felly, bod y sector cyhoeddus yn gosod esiampl wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb incwm fel bod enillion y rhai sydd ar frig sefydliadau ddim llawer yn fwy na'r rhai ar waelod y raddfa?

13:49

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I think that's absolutely true as far as the public sector's concerned, yes, because we've seen some ridiculous examples of salary rates, in local government particularly. Pembrokeshire council—£190,000 plus a Porsche to their chief executive. That's an extreme example, but, unfortunately, not so extreme that it stands out that much. I think it is absolutely right that we should look, in the public sector, to keep on extending the living wage and to make sure that people are not paid excessive amounts for working in the public sector.

Rwy'n credu bod hynny'n hollol wir cyn belled ag y mae'r sector cyhoeddus yn y cwestiwn, ydw, gan ein bod wedi gweld rhai enghreifftiau gwirion o gyfraddau cyflog, mewn llywodraeth leol yn arbennig. Cyngor Sir Benfro—£190,000 a Porsche i'w brif weithredwr. Mae honno'n enghraifft eithafol, ond, yn anffodus, nid yw mor eithafol fel ei fod yn sefyll allan cymaint â hynny. Rwy'n credu ei bod yn gwbl gywir y dylem ni edrych, yn y sector cyhoeddus, ar barhau i ymestyn y cyflog byw a gwneud yn siŵr nad yw pobl yn cael eu talu'n ormodol am weithio yn y sector cyhoeddus.

13:50 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Just last week, First Minister, your party, running the City of Cardiff Council, blocked a salary cap of £100,000 per year, which is, I am sure you would agree, hardly a poverty wage. In the case of Cardiff city council, an authority ranked the worst in the country for service delivery, we have the chief executive earning almost £30,000 a year more than the British state Prime Minister. Will you explain to this Assembly, to the people of this country and to your constituents in the public gallery why you support policies that exacerbate this income inequality?

Dim ond yr wythnos diwethaf, Brif Weinidog, rhwystrodd eich plaid chi, sy'n rhedeg Cyngor Dinas Caerdydd, uchafswm cyflog o £100,000 y flwyddyn, sydd, rwy'n siŵr y byddech chi'n cytuno, ddim yn gyflog tlodi. Yn achos cyngor dinas Caerdydd, awdurdod a ddyfarnwyd fel bod y gwaethaf yn y wlad o ran darparu gwasanaethau, mae gennym ni'r prif weithredwr yn ennill bron i £30,000 y flwyddyn yn fwy na Phrif Weinidog gwladwriaeth Prydain. A wnewch chi egluro i'r Cynulliad hwn, i bobl y wlad hon ac i'ch etholwyr yn yr oriel gyhoeddus pam yr ydych chi'n cefnogi polisïau sy'n gwaethygu'r anghydraddoldeb incwm hwn?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It's a matter for Cardiff council. I deplore huge salaries in the public sector. I also encourage local authorities to pay the living wage to their employees. I wonder whether she could confirm to me that that's not the case with Plaid-run councils.

Mater i gyngor Caerdydd yw hwn. Rwyf yn flin iawn am gyflogau enfawr yn y sector cyhoeddus. Rwyf hefyd yn annog awdurdodau lleol i dalu'r cyflog byw i'w gweithwyr. Tybed a allai hi gadarnhau i mi nad yw hynny'n wir gyda chynghorau a redir gan Blaid Cymru.

13:51 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We support the paying of the living wage as well, and a transition towards that, but you've had plenty of opportunities to address this issue of top-officer pay. Plaid Cymru attempted to amend local government legislation to address excessive pay at the top of councils and you refused to accept those amendments, so you have refused to address this question. It is clear that the First Minister is, yet again, illustrating the usual pattern of Labour saying one thing publicly and doing the opposite when in power. Despite that inexplicable decision made by Labour in Cardiff on senior officers' pay, at least the decision was made publicly for all to see your party's true colours. If you can't explain your party's actions in Cardiff, perhaps you can explain to us why you've taken the decision to stop publishing Cabinet decisions. This, in Plaid Cymru's view, is a backwards step that flies in the face of any notion of a new kind of honest and straight-talking politics, does it not?

Rydym ninnau'n cefnogi talu'r cyflog byw hefyd, a phontio tuag at hynny, ond rydych chi wedi cael digonedd o gyfleoedd i fynd i'r afael â'r mater hwn o dâl y swyddogion uchaf. Ceisiodd Plaid Cymru ddiwygio deddfwriaeth llywodraeth leol i fynd i'r afael â chyflog gormodol ar frig cynghorau ac fe wnaethoch wrthod derbyn y gwelliannau hynny, felly rydych chi wedi gwrthod rhoi sylw i'r cwestiwn hwn. Mae'n amlwg bod y Prif Weinidog, unwaith eto, yn dangos patrwm arferol y blaid Lafur sef dweud un peth yn gyhoeddus a gwneud pethau i'r gwrthwyneb pan eu bod mewn grym. Er gwaethaf y penderfyniad annealladwy a wnaethpwyd gan y Blaid Lafur yng Nghaerdydd ar gyflogau uwch-swyddogion, cafodd y penderfyniad ei wneud yn gyhoeddus o leiaf, i bawb weld y gwir am eich plaid. Os na allwch chi esbonio gweithredoedd eich plaid yng Nghaerdydd, efallai y gallwch chi esbonio i ni pam yr ydych chi wedi gwneud y penderfyniad i roi'r gorau i gyhoeddi penderfyniadau y Cabinet. Mae hyn, ym marn Plaid Cymru, yn gam yn ôl sy'n mynd yn groes i unrhyw syniad o fath newydd o wleidyddiaeth onest a di-flewyn ar dafod, onid ydyw?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We haven't taken a decision to stop publishing Cabinet decisions; I've no idea what she's talking about. In terms of what she said about—[Interruption.] I have no idea what the leader of Plaid Cymru is talking about. Cabinet minutes and decisions will continue to be published as they always have been; I don't know where on earth she gets that idea from. Secondly, I come back to the point she made earlier: I want to see our local authorities paying a living wage to those who work for them. She has accepted, more or less, that the local authorities that her party runs do not all do that. When they do start paying a living wage to their employees, then she can lecture us as a party.

Nid ydym ni wedi gwneud penderfyniad i roi'r gorau i gyhoeddi penderfyniadau y Cabinet; does gen i ddim syniad am beth mae hi'n sôn. O ran yr hyn a ddywedodd am—[Torri ar draws.] Does gen i ddim syniad am beth mae arweinydd Plaid Cymru yn sôn. Bydd cofnodion a phenderfyniadau'r Cabinet yn parhau i gael eu cyhoeddi fel y cawsant erioed; nid wyf yn gwybod o ble ar y ddaear y mae hi'n cael y syniad yna. Yn ail, rwy'n dod yn ôl at y pwynt a wnaeth hi yn gynharach: rwyf eisiau gweld ein hawdurdodau lleol yn talu cyflog byw i'r rhai sy'n gweithio iddyn nhw. Mae hi wedi derbyn, fwy neu lai, nad yw'r awdurdodau lleol y mae ei phlaid yn eu rhedeg i gyd yn gwneud hynny. Pan fyddant yn dechrau talu cyflog byw i'w gweithwyr, yna gall hi bregethu wrthym ni fel plaid.

13:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:53 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

First Minister, I am delighted that it has now dawned on you that in order for Wales to prosper, your Government needs to be fearlessly pro-business. The manufacturers' organisation EEF shows that manufacturers in Wales are languishing at the bottom of the business confidence league. What can those manufacturers expect to see from your Government now that you've discovered this truth?

Brif Weinidog, rwyf wrth fy modd eich bod wedi sylweddoli o'r diwedd bod angen i'ch Llywodraeth fod o blaid busnes mewn modd di-ofn er mwyn i Gymru ffynnu. Mae'r sefydliad gweithgynhyrchwyr EEF yn dangos bod cynhyrchwyr yng Nghymru yn gorwedd ar waelod y gynghrair hyder busnes. Beth all y gweithgynhyrchwyr hynny ddisgwyl ei weld gan eich Llywodraeth gan eich bod chi wedi darganfod y gwirionedd hwn erbyn hyn?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That is, I have to say, an incredible spinning of reality. She will see, over the past four years, what has happened in the Welsh economy. She will see unemployment going down, she will see economic inactivity going down, she will see employment rates going up, she will see investors coming to Wales—investors like Pinewood coming to Wales—she will see us working with sectors such as life sciences to bring investment into Wales and she will see that Wales—particularly, as one example, in creative industries—is leading Europe in terms of the investment and jobs being created. We have always been a pro-business Government; we have always had a pro-business Minister with an excellent reputation amongst the business community.

Mae hynna, mae'n rhaid i mi ddweud, yn gwyrdroi'r gwirionedd mewn modd anhygoel. Bydd hi'n gweld, dros y pedair blynedd diwethaf, yr hyn sydd wedi digwydd yn economi Cymru. Bydd hi'n gweld diweithdra yn gostwng, bydd hi'n gweld anweithgarwch economaidd yn gostwng, bydd hi'n gweld cyfraddau cyflogaeth yn codi, bydd hi'n gweld buddsoddwyr yn dod i Gymru—buddsoddwyr fel Pinewood yn dod i Gymru—bydd hi'n ein gweld ni'n gweithio gyda sectorau fel gwyddorau bywyd i ddod â buddsoddiad i Gymru a bydd hi'n gweld bod Cymru—yn benodol, fel un enghraifft, mewn diwydiannau creadigol—yn arwain Ewrop o ran y buddsoddiad a'r swyddi sy'n cael eu creu. Rydym ni wedi bod yn Llywodraeth sydd o blaid busnes erioed; rydym ni wedi cael Gweinidog sydd o blaid busnes erioed, sydd ag enw ardderchog ymhlith y gymuned fusnes.

13:54 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the EEF would not seek to misrepresent the views of manufacturers in Wales. Unfortunately, it is true to say that they feel that they do not have confidence to move forward, but Wales does have a proud history of manufacturing and, in communities up and down this country, in firms large and small, they are exporting Welsh-made products around the world. One way we can help those businesses to expand and to employ more people is to look at aspects of the business rates system. Do you agree with me and my party that the abolition of business rates on plant and machinery would not only help secure and protect jobs in Wales but, actually, would boost manufacturing confidence and help them employ more people?

Brif Weinidog, ni fyddai'r EEF yn ceisio camliwio barn gweithgynhyrchwyr yng Nghymru. Yn anffodus, mae'n wir dweud eu bod yn teimlo nad oes ganddynt hyder i symud ymlaen, ond mae gan Gymru hanes balch o weithgynhyrchu a, mewn cymunedau ar hyd a lled y wlad hon, mewn cwmnïau mawr a bach, maen nhw'n allforio cynhyrchion a wnaed yng Nghymru o gwmpas y byd. Un ffordd y gallwn ni helpu'r busnesau hynny i ehangu a chyflogi mwy o bobl yw ystyried agweddau ar y system ardrethi busnes. A ydych chi'n cytuno â mi a fy mhlaid y byddai diddymu ardrethi busnes ar offer a pheiriannau nid yn unig yn helpu i sicrhau a diogelu swyddi yng Nghymru ond, mewn gwirionedd, yn rhoi hwb i hyder gweithgynhyrchu ac yn helpu cwmnïau i gyflogi mwy o bobl?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

What about businesses that export services? What about businesses, for example, that manufacture software? They don't use plant and machinery, as such. It doesn't help them at all. I did note with interest what the Liberal Democrats had proposed, but we believe the approach we've taken in terms of small business rate relief, and the way we've extended that year by year, has been more effective in helping small businesses. We also provide them with support to export, not just through what happens in Wales, but through the offices that we have abroad and, of course, the way in which they work with UKTI. We've seen, of course, many Welsh businesses become successful in terms of exporting and being able to be part of the supply chain of the larger job announcements that we've had coming into Wales as well.

Beth am fusnesau sy'n allforio gwasanaethau? Beth am fusnesau, er enghraifft, sy'n gweithgynhyrchu meddalwedd? Nid ydyn nhw'n defnyddio offer a pheiriannau, fel y cyfryw. Nid yw'n eu helpu nhw o gwbl. Fe wnes i nodi â diddordeb yr hyn a gynigiwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol, ond rydym ni'n credu bod y dull yr ydym ni wedi ei fabwysiadu o ran rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, a'r ffordd yr ydym ni wedi ymestyn hynny o flwyddyn i flwyddyn, wedi bod yn fwy effeithiol o ran helpu busnesau bach. Rydym ni hefyd yn rhoi cymorth iddyn nhw allforio, nid yn unig drwy'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru, ond drwy'r swyddfeydd sydd gennym ni dramor ac, wrth gwrs, y ffordd maen nhw'n gweithio gyda Masnach a Buddsoddi y DU. Rydym ni wedi gweld, wrth gwrs, llawer o fusnesau o Gymru yn llwyddo o ran allforio ac yn gallu bod yn rhan o'r gadwyn gyflenwi o gyhoeddiadau swyddi mwy yr ydym ni wedi eu gweld yn dod i mewn i Gymru hefyd.

13:55 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm surprised, First Minister, you haven't taken this opportunity to support a policy—not just a policy being promoted by my party, but a policy that was being promoted by members of your own business rate advisory group, who saw the benefit of what this could deliver for the manufacturing industry in Wales. Perhaps you'd like to go back again and have a look at the merits of this policy.

Rwy'n synnu, Brif Weinidog, nad ydych chi wedi manteisio ar y cyfle hwn i gefnogi polisi—nid polisi sy'n cael ei hyrwyddo gan fy mhlaid i yn unig, ond polisi a oedd yn cael ei hyrwyddo gan aelodau o'ch grŵp cynghori ar ardrethi busnes eich hun, a welodd fanteision yr hyn y gallai hyn yn ei gyflawni ar gyfer y diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru. Efallai yr hoffech chi fynd yn ôl eto ac edrych ar rinweddau'r polisi hwn.

Now, one of the other ways in which we could help protect jobs across Wales is supporting the tourism sector. Over 128,000 people in Wales rely on the tourism industry for their employment. Now, we have the highest rate of VAT levied on tourism in the whole of the EU, despite regulations that would allow it to be cut to as little as 5 per cent. My party has demonstrated our clear support for such a reduction; will you commit your party to supporting this policy and do what you can to lobby the Westminster Government to take advantage of this EU derogation and allow us to support our tourism industry, not just here in Wales, but across the UK?

Nawr, un o'r ffyrdd eraill y gallwn ni helpu i ddiogelu swyddi ledled Cymru yw cefnogi'r sector twristiaeth. Mae dros 128,000 o bobl yng Nghymru yn dibynnu ar y diwydiant twristiaeth ar gyfer eu cyflogaeth. Nawr, mae gennym ni'r gyfradd uchaf o TAW a godir ar dwristiaeth yn yr UE gyfan, er gwaethaf rheoliadau a fyddai'n caniatáu iddo gael ei dorri i gyn lleied â 5 y cant. Mae fy mhlaid i wedi dangos ein cefnogaeth eglur i ostyngiad o'r fath; a wnewch chi ymrwymo eich plaid i gefnogi'r polisi hwn a gwneud yr hyn a allwch i lobïo Llywodraeth San Steffan i fanteisio ar randdirymiad yr UE hwn a chaniatáu i ni gefnogi ein diwydiant twristiaeth, nid yn unig yma yng Nghymru, ond ledled y DU?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I have sympathy for the argument, but I have to ask: what was she doing before May? Her party was in Government in Westminster, and yet apparently that's forgotten about now. The opportunity was there for the Lib Dems to make that argument when they were in Government in London. She knows that VAT isn't devolved. I may have sympathy for her position, but nothing was said before May, when she had the opportunity to influence the UK Government. Tourism is important. We know that we've seen an increase in visitors coming into Wales. We have spent, of course, money on promoting Wales and promoting Visit Wales—money that the Conservative Party said was propaganda. Money that's used to promote Wales around the world and bring visitors into Wales is Government propaganda. It shows you the lack of ambition and sheer laziness on that side of the Chamber.

Wel, rwy'n cydymdeimlo â'r ddadl, ond mae'n rhaid i mi ofyn: beth oedd hi'n ei wneud cyn mis Mai? Roedd ei phlaid hi mewn Llywodraeth yn San Steffan, ac eto mae'n ymddangos bod hynny wedi mynd yn angof erbyn hyn. Roedd y cyfle yno i'r Democratiaid Rhyddfrydol gyflwyno'r ddadl honno pan oedden nhw mewn Llywodraeth yn Llundain. Mae hi'n gwybod nad yw TAW wedi ei ddatganoli. Efallai fod gen i gydymdeimlad â'i safbwynt, ond ni ddywedwyd dim cyn mis Mai, pan roedd ganddi gyfle i ddylanwadu ar Lywodraeth y DU. Mae twristiaeth yn bwysig. Rydym ni'n gwybod ein bod ni wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr sy'n dod i mewn i Gymru. Rydym ni wedi gwario arian, wrth gwrs, ar hyrwyddo Cymru a hyrwyddo Croeso Cymru—arian y dywedodd y Blaid Geidwadol oedd yn bropaganda. Mae arian a ddefnyddir i hyrwyddo Cymru ledled y byd a dod ag ymwelwyr i mewn i Gymru yn bropaganda Llywodraeth. Mae'n dangos y diffyg uchelgais a'r diogi pur ar yr ochr honno i'r Siambr.

13:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper, and question 3 is from Angela Burns.

Symudwn yn ôl at gwestiynau ar y papur nawr, a daw cwestiwn 3 gan Angela Burns.

### Llwyth Gwaith Athrawon

### Teachers' Workload

13:57 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lwyth gwaith athrawon? OAQ(4)2467(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on teachers' workload? OAQ(4)2467(FM)*

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. It's important that teachers in Wales are not overburdened. There are a number of statutory provisions in force that aim to ensure teachers have a suitable work/life balance and maintain their health and safety as far as is reasonably possible.

Gwnaf. Mae'n bwysig nad yw athrawon yng Nghymru yn cael eu gorlwytho. Mae nifer o ddarpariaethau statudol mewn grym sydd â'r nod o sicrhau bod gan athrawon gydbwysedd gwaith/bywyd addas a'u bod yn cynnal eu hiechyd a'u diogelwch cymaint ag sy'n rhesymol bosibl.

13:57 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much indeed. The burden of excessive workload is something that teachers and teaching unions raise repeatedly. I think we need to bear in mind that, in a significant number of schools, teachers are having to help their pupils wash, dress, be clothed properly and fed before they can start the working day, and yet of course, those actions, those elements of pastoral care are not taken into account, and are not factored into how those teachers may be judged in the performance of their duties. It also adds greater pressure to the length of their day. First Minister, I wonder what other support you might be able to bring to a school environment to help support not only those pupils, but those teachers who have to do much more than just teach.

Diolch yn fawr iawn. Mae baich llwyth gwaith gormodol yn rhywbeth y mae athrawon ac undebau athrawon yn ei godi dro ar ôl tro. Rwy'n credu bod angen i ni gofio, mewn nifer sylweddol o ysgolion, bod athrawon yn gorfod helpu eu disgyblion i ymolchi, i wisgo, i wisgo dillad priodol a'u bwydo cyn y gallant ddechrau ar y diwrnod gwaith, ac eto, wrth gwrs, ni chymerir y gweithredoedd hynny, yr elfennau hynny o ofal bugeiliol, i ystyriaeth, ac ni chânt eu hystyried o ran sut y gallai'r athrawon hynny gael eu dyfarnu wrth gyflawni eu dyletswyddau. Mae hefyd yn ychwanegu mwy o bwysau ar hyd eu diwrnod. Brif Weinidog, tybed pa gymorth arall y gallech chi ei gyflwyno i amgylchedd yr ysgol i helpu i gefnogi nid yn unig y disgyblion, ond yr athrawon hynny sy'n gorfod gwneud llawer mwy na dim ond dysgu.

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I have to say to the Member that my mother was a primary school teacher and what she has outlined was common practice in the 1970s and 1980s as well. It's not new. It wasn't recognised then, in the way that is the case now, perhaps. Can I say to her that one of the issues, of course, that we have to deal with is the fact that, when we talk about workload issues, pay and conditions aren't devolved, and that's half the story? We have to consider the devolution of teachers' pay and conditions so that we can deal with workload issues properly, work with the teaching unions properly, and deliver a really good, holistic package for teachers across Wales. That is something, certainly, that we will need to consider in the near future.

Mae'n rhaid i mi ddweud wrth yr Aelod bod fy mam yn athrawes ysgol gynradd ac roedd yr hyn y mae hi wedi ei amlinellu yn arfer cyffredin yn y 1970au a'r 1980au hefyd. Nid yw hyn yn newydd. Nid oedd yn cael ei gydnabod bryd hynny yn y ffordd sy'n digwydd nawr, efallai. A gaf i ddweud wrthi mai un o'r problemau, wrth gwrs, y mae'n rhaid i ni ymdrin â hi, pan fyddwn ni'n sôn am faterion llwyth gwaith, yw'r ffaith nad yw tâl ac amodau wedi'u datganoli, a dyna hanner y stori? Mae'n rhaid i ni ystyried datganoli tâl ac amodau athrawon fel y gallwn ni ymdrin â materion llwyth gwaith yn briodol, gweithio gyda'r undebau athrawon yn briodol, a darparu pecyn cyfannol, gwirioneddol dda, i athrawon ledled Cymru. Mae hynny'n rhywbeth, yn sicr, y bydd angen i ni ei ystyried yn y dyfodol agos.

13:59 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wrth gwrs, ni allwn edrych ar y baich sydd ar ysgwyddau athrawon oni bai ein bod ni'n cael y cyfan oll o ran datganoli amodau gwaith a chyflog athrawon. Roedd hwn wedi cael ei argymell gan gomisiwn Silk. Gofynnais i'ch Gweinidog am hwn tua wythnos yn ôl, a dywedodd ef fod trafodaethau felly, 'above my pay grade'. Rwy'n credu roedd e'n cyfeirio at eich 'pay grade' chi, Brif Weinidog. A fydd Deddf Cymru yn datganoli amodau gwaith athrawon i ni?

Of course, we can't look at the burden on teachers unless we get teachers' pay and conditions devolved entirely. This was recommended by the Silk commission. I asked you Minister about this issue around a week ago and he said that negotiations of that kind were above his pay grade. I think he was referring to your pay grade, First Minister. Will the Wales Act devolve teachers' pay and conditions?

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wel, rhywbeth, wrth gwrs, i Lywodraeth y Deyrnas Unedig yw hynny, ond fy marn i yw bod yr amser wedi dod i ystyried hynny, neu byddwn ni mewn sefyllfa, rwy'n credu, mewn pum mlynedd lle bydd telerau sy'n mynd ar hyd a lled Cymru a Lloegr, ond dim ond yng Nghymru y byddant yn berthnasol, achos bydd pethau wedi newid sut gymaint yn Lloegr. Felly, mae'r amser yn dod. Nid wyf yn bersonol wedi dadlau yn ddiweddar yn erbyn datganoli telerau a phae, ond wrth gwrs mae'n hollbwysig i sicrhau bod unrhyw setliad ariannol yn ddigonol er mwyn sicrhau bod yna ddim mwy o faich ar Lywodraeth Cymru yngl?n â gweinyddu'r system newydd. Felly, mae yna drafodaethau wedi cymryd lle, a fy marn i yw bod hwn nawr yn rhywbeth mae'n rhaid i ni ei ystyried yn fuan.

Well of course, this is a matter for the UK Government, but in my view, the time has come to consider that, or we'll be in a position five years hence where there will be terms and conditions throughout England and Wales, but they'll only be relevant in Wales, because things will have changed so much in England. So, the time is fast coming. I personally haven't argued against the devolution of terms and conditions, but of course it's vitally important that any financial settlement is adequate in order to ensure that there isn't additional burden on Welsh Government as regards the administration of a new system. So, discussions have taken place, and my opinion is that this is now something we will have to consider soon.

### Ariannu Llywodraeth Leol

### Funding Local Government

14:00 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I declare a relevant interest as a member of a local council?

A gaf i ddatgan buddiant perthnasol fel aelod o gyngor lleol?

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar ariannu llywodraeth leol? OAQ(4)2457(FM)[R]*

*4. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's policy on funding local government? OAQ(4)2457(FM)[R]*

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. Our policy is to distribute the majority of the available funding through the local government settlement using an agreed formula based on relative need.

Gwnaf. Ein polisi yw dosbarthu y rhan fwyaf o'r cyllid sydd ar gael drwy'r setliad llywodraeth leol gan ddefnyddio fformiwla y cytunwyd arni ar sail angen cymharol.

14:00 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister, and I very much support the non-hypothecation of funding to local government. You will know that your finance Minister made a statement last week in terms of giving additional money to the health service, which was very welcome. But, of course, the big issue is how the health service interacts with social services, and given that local government has had disproportionate cuts to its finances last year—disproportionate to the cut that you had as a Welsh Government—can we have some assurances that in future local government settlements, due regard will be given to the interaction between social services and health, so that we're able to actually get proper cohesion in terms of delivery, and make sure that social services are properly resourced and not undermine the money that you're putting into the health service?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog, ac yr wyf yn cefnogi peidio â neilltuo cyllid i lywodraeth leol yn fawr iawn. Byddwch yn gwybod bod eich Gweinidog Cyllid wedi gwneud datganiad yr wythnos diwethaf am roi arian ychwanegol i'r gwasanaeth iechyd, ac roedd hynny i'w groesawu'n fawr. Ond, wrth gwrs, y mater mawr yw sut y mae'r gwasanaeth iechyd yn rhyngweithio â gwasanaethau cymdeithasol, ac o gofio bod llywodraeth leol wedi cael toriadau anghymesur i'w chyllid y llynedd—anghymesur i'r toriad a fu i chi fel Llywodraeth Cymru— a allwn ni gael rhywfaint o sicrwydd, mewn setliadau llywodraeth leol yn y dyfodol, y bydd ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r rhyngweithio rhwng y gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, er mwyn i ni allu mewn gwirionedd gael cydlyniad priodol o ran cyflenwi, a gwneud yn siŵr bod gan y gwasanaethau cymdeithasol adnoddau priodol a pheidio â thanseilio'r arian yr ydych yn ei roi i mewn i'r gwasanaeth iechyd?

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Bear in mind, of course, that the average spend per head on health and social services in Wales is 8 per cent higher per head than it is in England. It's right to say that times are difficult for local government—of course, we all understand that—as they are for us. But, in the past four years local government has been protected. Yes, it was difficult last year and let's not pretend that things will be easy in the years to come. For example, although local government has seen its budget cut, it's certainly not been at the equivalent level of the budget cut that we have received from Westminster. So, for example, we've had budget cuts of around about 10 per cent, as he will know. Local government at the moment stands at a cut of 7.4 per cent; there's been a relative amount of protection there. We can't do it forever. We do understand that social services are important, and that's why we've always seen health and social services as being part of a package. Simply spending more on health but destroying social services' budget, as is happening in England, simply means that there is more pressure on hospitals, it simply means there's more pressure on local authorities and people are in hospital for longer than they need to be.

Cofiwch, wrth gwrs, fod y gwariant cyfartalog fesul pen ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru 8 y cant yn uwch fesul pen nag ydyw yn Lloegr. Mae'n iawn i ddweud bod hwn yn gyfnod anodd i lywodraeth leol—wrth gwrs, rydym i gyd yn deall hynny—fel y mae i ninnau. Ond, yn ystod y pedair blynedd diwethaf mae llywodraeth leol wedi cael ei diogelu. Oedd, roedd hi'n anodd y llynedd a gadewch i ni beidio ag esgus y bydd pethau'n hawdd yn y blynyddoedd i ddod. Er enghraifft, er bod y gyllideb llywodraeth leol wedi ei thorri, mae'n sicr nad yw hynny wedi bod ar lefel gyfatebol i'r toriad i'r gyllideb rydym ni wedi ei chael gan San Steffan. Felly, er enghraifft, rydym wedi cael toriadau yn y gyllideb o oddeutu 10 y cant, fel y mae ef yn gwybod. Mae llywodraeth leol ar hyn o bryd wedi cael toriad o 7.4 y cant; mae diogelwch cymharol wedi bod yno. Ni allwn wneud hynny am byth. Rydym yn deall bod y gwasanaethau cymdeithasol yn bwysig, a dyna pam rydym bob amser wedi ystyried y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol fel bod yn rhan o becyn. Yn syml, mae gwario mwy ar iechyd, ond dinistrio cyllideb y gwasanaethau cymdeithasol, fel sy'n digwydd yn Lloegr, yn golygu bod mwy o bwysau ar ysbytai, mae'n golygu bod mwy o bwysau ar awdurdodau lleol a phobl yn yr ysbyty am fwy o amser nag y mae angen iddynt fod.

14:02 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, Welsh Labour Governments have always looked to support our public services, but it's clear that the cuts from Westminster are biting hard into this endeavour. The UK Government's policies under David Cameron and George Osborne are to decimate our public services, and that's clearly evident from the attempts to have 40 per cent cuts in departments in Whitehall, which will mean record cuts coming again to Wales. When you finalise your budget for next year following the autumn—or, perhaps, actually, the winter statement, will you seek to ensure fair funding for local authorities to allow them to continue to provide our much-needed public services?

Brif Weinidog, mae Llywodraethau Llafur Cymru bob amser wedi ceisio cefnogi ein gwasanaethau cyhoeddus, ond mae'n amlwg bod y toriadau o San Steffan yn torri'n ddwfn i'r ymdrech hon. Bydd polisïau Llywodraeth y DU o dan David Cameron a George Osborne yn lleihau ein gwasanaethau cyhoeddus i'r eithaf, ac mae hynny'n amlwg o'r ymdrechion i gael toriadau o 40 y cant mewn adrannau yn Whitehall, a fydd yn golygu y bydd toriadau nas gwelwyd erioed o'r blaen yn dod i Gymru unwaith eto. Pan fyddwch yn cwblhau eich cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf ar ôl yr hydref—neu, o bosibl, mewn gwirionedd, datganiad y gaeaf, a fyddwch chi'n ceisio sicrhau cyllid teg i awdurdodau lleol i'w galluogi i barhau i ddarparu ein gwasanaethau cyhoeddus mawr eu hangen?

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Part of the problem we have here is that there's certainly a naked attempt by the UK Government to raise money in whatever way possible; we've seen what's happening in the courts. Our courts are being destroyed. To appear in front of the criminal courts now, there is a financial incentive to plead guilty often to an offence that someone hasn't committed. Our justice system is becoming to look less of a justice system and more like a racket, given what's been happening. That is something that we would never do if we had devolution of the justice system. I know it confuses Plaid Cymru at times that I will say something that is different to the Labour Party in London, but that's devolution. But, I'd have more respect for the Conservatives if at any one time in the past four years they'd ever said anything different from what they were told by David Cameron. We've had cuts of 10 per cent in our budget. Not only have the Conservatives not said anything about those cuts, but they've welcomed them. Surely, the time's come for a proper Welsh Conservative Party that has a proper Welsh view and stands up for Wales.

Rhan o'r broblem sydd gennym yn y fan yma yw bod ymgais noeth yn sicr gan Lywodraeth y DU i godi arian trwy ba bynnag ffordd bosibl; rydym wedi gweld beth sy'n digwydd yn y llysoedd. Mae ein llysoedd yn cael eu dinistrio. I ymddangos o flaen y llysoedd troseddol yn awr, mae cymhelliad ariannol i bledio'n euog yn aml i drosedd nad yw rhywun wedi ei chyflawni. Mae ein system gyfiawnder yn edrych yn llai fel system gyfiawnder ac yn fwy fel system dwyll, o ystyried yr hyn sydd wedi bod yn digwydd. Mae hynny'n rhywbeth na fyddem ni byth yn ei wneud pe byddai'r system gyfiawnder wedi'i datganoli. Rwy'n gwybod ei bod yn drysu Plaid Cymru ar adegau pan fyddaf yn dweud rhywbeth sy'n wahanol i'r Blaid Lafur yn Llundain, ond dyna yw datganoli. Ond, byddai gennyf fwy o barch tuag at y Ceidwadwyr pe byddent, ar unrhyw adeg yn ystod y pedair blynedd diwethaf, erioed wedi dweud unrhyw beth yn wahanol i'r hyn a ddywedwyd wrthynt gan David Cameron. Rydym wedi cael toriadau o 10 y cant yn ein cyllideb. Nid yw'r Ceidwadwyr wedi dweud unrhyw beth am y toriadau hynny, yn wir maent wedi eu croesawu nhw. Yn sicr, mae'r amser wedi dod i gael Plaid Geidwadol Gymreig go iawn sydd â barn Gymreig briodol ac sy'n fodlon sefyll dros Gymru.

Senedd.tv
Fideo Video

14:04 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

First Minister, it is the cuts to local government by your—by your Welsh Labour Government that has forced our councils across Wales to seek millions of pounds-worth of efficiency savings—closing public libraries, toilets and shortening contract hours for our lower paid staff. Yet, the taxpayers of Wales will rightly be concerned to learn that over £100 million has been spent on redundancy golden handshakes for council managers over the last three years, with some going through a revolving-door process, often reappearing—

Brif Weinidog, y toriadau i lywodraeth leol gan eich—gan eich Llywodraeth Lafur Cymru chi sydd wedi gorfodi ein cynghorau ledled Cymru i geisio sicrhau gwerth miliynau o bunnoedd o arbedion effeithlonrwydd—gan gau llyfrgelloedd cyhoeddus, toiledau a byrhau oriau contract ar gyfer ein staff ar gyflog is. Eto i gyd, bydd trethdalwyr Cymru yn iawn i bryderu o glywed bod dros £100 miliwn wedi ei wario ar becynau diswyddo mawr i reolwyr cynghorau dros y tair blynedd diwethaf, a rhai ohonynt yn mynd trwy broses drws troi, gan ailymddangos yn aml —

Senedd.tv
Fideo Video

14:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Are you coming to the question?

A ydych chi'n dod at y cwestiwn?

Senedd.tv
Fideo Video

14:04 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

[Continues.]—in another role or as external consultants. First Minister, in light of these horrendous figures, will you commit to a review of senior officer salaries and such high redundancy payments across local government?

[Yn parhau.] —mewn swydd arall neu fel ymgynghorwyr allanol. Brif Weinidog, o ystyried y ffigurau echrydus hyn, a wnewch chi ymrwymo i adolygiad o gyflogau uwch swyddogion a thaliadau diswyddo uchel o'r fath ledled llywodraeth leol?

Senedd.tv
Fideo Video

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, the independent remuneration panel is already doing that; that's the whole point of the panel. But, I have to say to the Member, she cannot escape responsibility for the funding cuts. Our budget has been cut by 10 per cent by her party, and what they're trying to pull is a trick of saying that, somehow, it's nothing to do with them. Well, let's look at the evidence. I was once a lawyer, let's look at the evidence. Yes, it is right to say that local government funding has been cut—of course it has, of course it has, because of the funding settlement that we've received—but, according to her own party, it hasn't been cut enough. If she'd stood up and said, 'First Minister, you haven't cut local government spending enough, because we would do 12.5 per cent', then perhaps she'd have more credibility. The reality is that if her party ever controlled the local government budget in Wales, not only would we see a 12.5 per cent cut, but we'd also see a 38 per cent increase in council tax.

Wel, mae panel annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol eisoes yn gwneud hynny; dyna yw holl bwynt y panel. Ond, mae'n rhaid i mi ddweud wrth yr Aelod, ni all hi ddianc rhag y cyfrifoldeb am y toriadau ariannol. Mae ein cyllideb wedi cael ei thorri 10 y cant gan ei phlaid hi, a'r tric y maent yn ceisio ei gyflawni yw dweud, rhywsut, nad yw ddim i wneud â nhw. Wel, gadewch i ni edrych ar y dystiolaeth. Roeddwn i'n gyfreithiwr unwaith, gadewch i ni edrych ar y dystiolaeth. Ydy, mae'n iawn i ddweud bod cyllid llywodraeth leol wedi cael ei dorri—wrth gwrs ei fod, wrth gwrs ei fod, oherwydd y setliad cyllid yr ydym ni wedi'i gael—ond, yn ôl ei phlaid ei hun, nid yw wedi ei dorri ddigon. Pe byddai hi wedi codi ar ei thraed a dweud, 'Brif Weinidog, nid ydych wedi torri digon ar wariant llywodraeth leol, oherwydd byddem ni'n torri 12.5 y cant', yna efallai y byddai ganddi hi fwy o hygrededd. Y gwir yw, pe byddai ei phlaid hi fyth yn rheoli'r gyllideb llywodraeth leol yng Nghymru, nid yn unig y byddem yn gweld toriad o 12.5 y cant, ond byddem hefyd yn gweld cynnydd o 38 y cant yn y dreth gyngor.

Senedd.tv Fideo Video

14:06 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Aled Roberts. Sorry, Alun Ffred Jones. Sorry, Aled Roberts.

Aled Roberts. Mae'n ddrwg gennyf, Alun Ffred Jones. Mae'n ddrwg gennyf, Aled Roberts.

Senedd.tv Fideo Video

14:06 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Diolch yn fawr. Wel, buaswn i'n cytuno efo chi ac yn ymuno â chi yn y condemniad o'r toriadau sydd yn dod lawr o Lundain, wrth gwrs, er ein bod ni'n gwybod bod cynlluniau Alistair Darling hefyd yn golygu y bydd yna doriadau sylweddol yn y gyllideb sydd yn dod lawr o Lundain. Ond, tra ein bod ni'n beio ein gilydd, a'r Toriaid yma'n eich beio chi, y ffaith amdani ydy bod llywodraeth leol yn wynebu efallai un o'r argyfyngau mwyaf ers degawdau. Y gwirionedd yng Ngwynedd ydy bod yna gyfarfod heddiw yn y Felinheli, lle mae'r cyngor yn ymgynghori â'r cyhoedd ar doriadau o £12 miliwn—toriadau i wasanaethau uniongyrchol. Nawr, r?ch chi'n wynebu hyn efo pob cyngor yng Nghymru, a dweud y gwir, felly y cwestiwn yw, ac mae'n rhaid eich bod chi wedi wynebu hyn eich hunain: pa wasanaethau y mae'r Llywodraeth yn teimlo y gellir arbed arnyn nhw neu y gellir cael gwared ohonyn nhw ym myd llywodraeth leol, er mwyn iddyn nhw allu byw o fewn yr arian sydd yn dod iddyn nhw?

Thank you. Well, I would agree with you and join with you in the condemnation of the cuts coming down from London, of course, although we know that Alistair Darling's proposals would also mean significant cuts in the budget coming here from London. But, while we're blaming each other, and the Conservatives here are blaming you, the fact is that local government is facing one of the greatest crises, perhaps, for decades. The truth in Gwynedd is that there's a meeting today in Felinheli, where the council is consulting with the public on cuts of £12 million—cuts to front-line services. Now, you're facing this with all councils in Wales, to tell the truth, so the question is, and you must have faced this yourselves: which services does the Government feel can be cut or scrapped in local government in order for them to live within their means?

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, mater yw hwn, wrth gwrs, i awdurdodau lleol. Bydd awdurdodau lleol yn ystyried yn gyntaf gwasanaethau statudol; rwy'n deall hynny. Rwy'n cofio pan oeddwn i'n gynghorydd ym Mhen-y-bont yn y 90au gweld 13 y cant yn cael ei dorri mas o gyllideb Pen-y-bont ym 1996 gan y Llywodraeth bryd hynny, a gweld treth y cyngor yn mynd lan 15 y cant dros Gymru, rhywbeth nad yw wedi digwydd ers hynny. Ond r?m ni'n erfyn, wrth gwrs, i awdurdodau lleol ystyried safio arian mewn rhannau o'u gwaith nad yw'n delio'n uniongyrchol â'r cyhoedd. Mae'n anodd iddyn nhw, fel y mae'n anodd i ni. Ond r?m ni i gyd yn yr un sefyllfa lle mae faint o arian sydd wedi dod o San Steffan wedi cael ei dorri, a'i dorri a'i dorri, ac mae yna waeth i ddod.

Well, this is a matter, of course, for local authorities. Local authorities will first consider the statutory services; I understand that. I remember when I was a councillor in Bridgend in the 90s, we saw 13 per cent being cut out of the Bridgend budget in 1996 by the Government of the day, and we saw the council tax increase by 15 per cent, which hasn't happened since then. We expect local authorities, of course, to consider making savings in parts of their services that don't directly affect the public. It is difficult for them, as it is for us. But we're all in the same boat where the funding from Westminster has been cut, cut and cut, and there's worse to come.

Senedd.tv Fideo Video

## Allyriadau Carbon

## Carbon Emissions

14:08

### Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

*5. Pa waith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i asesu'r gostyngiad mewn allyriadau carbon a fydd deillio o brosiect Metro De Cymru? OAQ(4)2470(FM)*

*5. What work has the Welsh Government done to assess the reduction in carbon emissions that will arise from the South Wales Metro project? OAQ(4)2470(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:08

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, of course, one of the priority outcomes for the metro is to reduce carbon-dioxide equivalent emissions, and by moving to modern and electric traction methods, carbon dioxide emissions, of course, will be reduced significantly.

Wel, wrth gwrs, un o'r canlyniadau sy'n flaenoriaeth ar gyfer y metro yw lleihau allyriadau sy'n cyfateb i garbon deuocsid, a thrwy symud i ddulliau tyniant modern a thrydan, bydd allyriadau carbon deuocsid, wrth gwrs, yn cael eu lleihau yn sylweddol.

Senedd.tv Fideo Video

14:08

### Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Obviously, the Volkswagen scandal, where the largest company in Germany has been deliberately cheating on the emissions testing, will, no doubt, put the spotlight on the quality of the air we're breathing, and nowhere more so than in Cardiff Central. What detailed analysis has the Government done on the air quality benefits from reduced vehicle carbon emissions of each phase of the metro, which will no doubt be a key determining factor as to how much money the EC could be providing, as it's one of its key provisions?

Yn amlwg, bydd sgandal Volkswagen, lle y mae'r cwmni mwyaf yn yr Almaen wedi bod yn twyllo yn fwriadol ar y profion allyriadau, yn ddiau, yn rhoi'r sylw ar ansawdd yr aer yr ydym yn ei anadlu, ac yn unman yn fwy felly nag yng Nghanol Caerdydd. Pa ddadansoddiad manwl y mae'r Llywodraeth wedi ei wneud ar y manteision i ansawdd yr aer o ganlyniad i leihau allyriadau carbon o gerbydau ym mhob cam o ddatblygiad y metro, a fydd yn ddiau yn ffactor penderfynu allweddol o ran faint o arian y gallai'r Comisiwn Ewropeaidd fod yn ei ddarparu, gan ei fod yn un o'i ddarpariaethau allweddol?

Senedd.tv Fideo Video

14:08

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well in the first year of operation, electrification is estimated to deliver a reduction in carbon emissions from the rail vehicles themselves of about 20 per cent. On top of that, we know of course from the Cardiff capital region metro study, that some 24 per cent of carbon dioxide emissions in Cardiff are generated by road transport. The more people we can shift off the roads and onto the trains and, of course, hybrid buses, then that 20 per cent figure from reduction in rail emissions will be added to, from the reductions in road emissions as well.

Wel yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu, amcangyfrifir y bydd trydaneiddio yn sicrhau gostyngiad mewn allyriadau carbon o'r cerbydau rheilffordd eu hunain o tua 20 y cant. Ar ben hynny, rydym yn gwybod, wrth gwrs, o astudiaeth metro prifddinas-ranbarth Caerdydd, fod tua 24 y cant o'r allyriadau carbon deuocsid yng Nghaerdydd yn cael eu creu gan drafnidiaeth ar y ffyrdd. Po fwyaf o bobl y gallwn eu symud oddi ar y ffyrdd ac ar y trenau ac, wrth gwrs, bysiau hybrid, yna bydd ychwanegiad at y ffigwr 20 y cant hwnnw o leihad mewn allyriadau rheilffordd, ac o'r gostyngiadau mewn allyriadau ffordd yn ogystal.

Senedd.tv Fideo Video

14:09

### William Graham Bywgraffiad Biography

To realise the maximum potential, as you said Minister, it's very necessary to co-ordinate both bus and rail transport. So, could I ask you: have you considered extending loans to those operators of buses who use alternative fuels to diesel and petrol?

I wireddu'r potensial mwyaf, fel y dywedasoch Weinidog, mae'n angenrheidiol iawn i gydlynu trafnidiaeth bysiau a rheilffyrdd. Felly, a gaf i ofyn i chi: a ydych chi wedi ystyried ymestyn benthyciadau i'r gweithredwyr bysiau hynny sy'n defnyddio tanwydd amgen yn hytrach na diesel a phetrol?

Senedd.tv Fideo Video

14:09

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

These are matters, of course, that have been primarily for the UK Government. Certainly, I've not been approached personally by operators regarding any such proposals, but, of course, we'd be happy to see what can be done in order to assist any kind of shift from traditional diesel engines to hybrid and, in time, hydrogen cell.

Mae'r rhain, wrth gwrs, wedi bod yn faterion ar gyfer Llywodraeth y DU yn bennaf. Yn sicr, nid oes unrhyw weithredwyr wedi cysylltu â mi yn bersonol ynghylch unrhyw gynigion o'r fath, ond, wrth gwrs, byddem yn hapus i weld beth y gellid ei wneud er mwyn cynorthwyo unrhyw fath o newid o beiriannau diesel traddodiadol i hybrid ac, ymhen amser , cell hydrogen.

Senedd.tv Fideo Video

14:10 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad] [Biography]

First Minister, we'll only achieve those cuts in emissions if we electrify all of the Valleys lines, but Penarth, the Maesteg and the Vale of Glamorgan lines appear to have disappeared from the national transport finance plan that was discussed last week. In fact, they don't even appear in the 2020 and beyond column. So, can you tell me, seeing as the Minister for Economy, Science and Transport didn't answer this question last week, what has happened to those lines and give an assurance to the passengers that those will be electrified, as was intended?

Brif Weinidog, byddwn ond yn cyflawni'r toriadau hynny mewn allyriadau os byddwn yn trydaneiddio holl reilffyrdd y Cymoedd, ond ymddengys bod rheilffyrdd Penarth, Maesteg a Bro Morgannwg wedi diflannu o'r cynllun cyllid trafnidiaeth cenedlaethol a drafodwyd yr wythnos diwethaf. Mewn gwirionedd, nid ydynt hyd yn oed yn ymddangos yng ngholofn 2020 a thu hwnt. Felly, a allwch chi ddweud wrthyf, o ystyried na wnaeth Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ateb y cwestiwn hwn yr wythnos diwethaf, beth sydd wedi digwydd i'r rheilffyrdd hynny a rhoi sicrwydd i'r teithwyr y bydd y rhain yn cael eu trydaneiddio, fel y bwriadwyd?

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:10 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, the intention is to look to electrify the system on a bit-by-bit basis. If we try and electrify every single line all at once, the amount of disruption is, as the Member can imagine, enormous. So, what we are looking at at the moment is how we can introduce electrification on a line-by-line basis, looking at lines to see where electrification is appropriate, which is at least most of the network, and looking to see where service delivery improvements can be looked at in other ways. But certainly the intention is to move ahead now with electrification. There is no question of any line being left behind in terms of the service and frequency that will be provided and the comfort that will be provided for passengers.

Wel, y bwriad yw ceisio trydaneiddio'r system bob yn dipyn. Os byddem yn ceisio trydaneiddio pob un rheilffordd i gyd ar unwaith, byddai'r tarfu, fel y gall yr Aelod ddychmygu, yn enfawr. Felly, yr hyn yr ydym yn ei ystyried ar hyn o bryd yw sut y gallwn gyflwyno trydaneiddio ar sail un rheilffordd ar y tro, gan edrych ar linellau i weld lle y mae trydaneiddio yn briodol, sydd o leiaf y rhan fwyaf o'r rhwydwaith, ac edrych i weld ble y gellir ystyried gwelliannau cyflenwi gwasanaeth mewn ffyrdd eraill. Ond yn sicr y bwriad yw symud ymlaen yn awr gyda thrydaneiddio. Nid oes unrhyw gwestiwn o unrhyw reilffordd yn cael ei gadael ar ôl o ran y gwasanaeth a pha mor aml y bydd yn cael ei ddarparu a'r cysur a ddarperir i deithwyr.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

## Perfformiad y GIG

## NHS Performance

14:11 **Elin Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

*6. Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella perfformiad y Gwasanaeth Iechyd Gwladol? OAQ(4)2468(FM)*

*6. What are the Welsh Government's priorities for improving NHS performance? OAQ(4)2468(FM)*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:11 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, i barhau â'r gwelliant mewn perfformiad r?m ni wedi'i weld ers datganoli ac wrth gwrs i barhau i sicrhau bod y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn canolbwyntio ar ansawdd ac ar brofiad y claf.

To continue the improvement in performance that we've seen since devolution and of course to continue to ensure that quality and patient experience are the focus of the NHS in Wales.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:11 **Elin Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

Brif Weinidog, mae ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn yr 'European Journal of Cancer' yn dangos bod y gyfradd 'survival', y gyfradd goroesi, o ganser yn y Deyrnas Gyfunol gyda'r gwaethaf yng ngorllewin Ewrop, a'r prif reswm am hynny yw perfformiad gwael o ran diagnosis cynnar. O fewn y Deyrnas Gyfunol, mae amrywiaeth perfformiad sylweddol ar hyn: 8 y cant o bobl yn aros dros chwe wythnos yn Lloegr am brawf colonosgopi, a 46 y cant o bobl yng Nghymru yn aros dros chwe wythnos. Ar rywbeth mor bwysig â phrofion canser, Brif Weinidog, pam, bedair blynedd a hanner i mewn i'ch Llywodraeth chi, y mae perfformiad eich Llywodraeth chi mor wael ar hyn?

First Minister, research recently published in the European Journal of Cancer shows that the survival rate for cancer in the UK is among the worst in western Europe, and the main reason for that is poor performance in terms of early diagnosis. Within the UK, there is great divergence in performance on this, with 8 per cent of people waiting over six weeks in England for a colonoscopy test and 46 per cent waiting over six weeks in Wales. On such an important issue as cancer diagnosis tests, why, four and a half years into your Government, is your Government's performance so poor in this area?

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Wel, mae nifer o bobl sydd wedi mynd o feddyg teuluol i arbenigwyr wedi cynyddu 12 y cant dros y flwyddyn ddiwethaf yn unig. Felly, mae nifer y bobl sydd yn mynd trwy'r system wedi cynyddu. Mae'n bwysig—rwy'n derbyn hyn—ein bod yn sicrhau ein bod yn dal i leihau nifer y bobl sydd yn aros gormod o amser am ddiagnosis, ac, wrth gwrs, mae hynny'n rhywbeth r?m ni'n canolbwyntio arno ar hyn o bryd. Ond fel y gwnes i sôn wythnos diwethaf, wrth gwrs mae'n bwysig bod pobl yn cael diagnosis mor gynnar â phosib, ond mae'n bwysig dros ben bod pobl yn gallu cael triniaeth mor gynnar â phosib hefyd.

Well, there are a number of people who have been referred from GPs to consultants, and that number has increased by 12 per cent over the past year alone. So, the number of people going through the system has increased. It is important—I accept this—that we continue to reduce the number of people waiting excessively for a diagnosis, and, of course, that is something we're focusing on at the moment. But as I mentioned last week, it's of course important that people get a diagnosis as soon as possible, but it's also important that people receive the treatment as soon as possible.

14:13 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I make a declaration of a relevant interest? My wife is a member of the healthcare profession in the NHS. First Minister, the workforce in the NHS is the strength of the NHS here in Wales. Following on from Elin Jones's point, about the diagnostics, it's the staff and the workforce that develop and deliver those services. It's important to address the increase of healthcare professionals within the NHS. Can you provide details of future workforce planning for the NHS in Wales so that we can tackle those issues?

A gaf i ddatgan buddiant perthnasol? Mae fy ngwraig yn aelod o'r proffesiwn gofal iechyd yn y GIG. Brif Weinidog, gweithlu'r GIG yw cryfder y GIG yma yng Nghymru. Yn dilyn ymlaen o bwynt Elin Jones, am y ddiagnosteg, y staff a'r gweithlu sy'n datblygu ac yn darparu'r gwasanaethau hynny. Mae'n bwysig i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y GIG. A allwch chi roi manylion am gynllunio gweithlu yn y dyfodol ar gyfer y GIG yng Nghymru er mwyn inni allu mynd i'r afael â'r materion hynny?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

We know that workforce planning is crucially important. We've done it, of course, with the primary care sector that I talked about earlier on. We also know, of course, that it's important to have the right facilities in place, which is why the investments already being taken in Velindre and beyond will be hugely important in order to ensure that access to diagnosis and treatment is hastened, again particularly in the south of Wales. We know, looking at our cancer waiting times, that those figures have been improving. Compared to England, we do better than England in that regard. Cancer survival rates are improving, but it's clear for all the UK that there is still work yet to be done in order to improve survival rates even further.

Rydym yn gwybod bod cynllunio'r gweithlu yn hanfodol bwysig. Rydym wedi gwneud hyn, wrth gwrs, gyda'r sector gofal sylfaenol y soniais amdano yn gynharach. Rydym hefyd yn gwybod, wrth gwrs, ei bod yn bwysig cael y cyfleusterau iawn ar waith, a dyna pam y bydd y buddsoddiadau sydd eisoes ar waith yn Felindre a thu hwnt yn hynod bwysig er mwyn sicrhau ein bod yn cyflymu'r mynediad at ddiagnosis a thriniaeth, unwaith eto yn ne Cymru yn arbennig. Rydym yn gwybod, wrth edrych ar ein hamseroedd aros canser, fod y ffigurau hynny wedi bod yn gwella. O'i gymharu â Lloegr, rydym yn gwneud yn well na Lloegr yn hynny o beth. Mae cyfraddau goroesi canser yn gwella, ond mae'n glir ar gyfer y DU gyfan bod gwaith eto i'w wneud er mwyn gwella cyfraddau goroesi hyd yn oed ymhellach.

14:14 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Brif Weinidog, mae eich Llywodraeth chi yn cadw dweud bod yn rhaid i'r gwasanaeth iechyd newid er mwyn gwella perfformiad. Caewyd yr uned gofal arbennig i fabanod yn ysbyty Llwynhelyg gan eich Gweinidog chi a throsglwyddwyd y gwasanaeth hwnnw i ysbyty Glangwili. Byddwch chi'n ymwybodol fod adroddiad dros dro Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant wedi dweud nad yw ward babanod yng Nglangwili yn addas i'r pwrpas. O dan yr amgylchiadau, a allwch chi esbonio i'm hetholwyr i pam fod eich Llywodraeth chi wedi cau'r uned gofal arbennig i fabanod yn ysbyty Llwynhelyg cyn bod gwasanaethau priodol a digonol ar gael yn ysbyty Glangwili?

First Minister, your Government keeps telling us that the health service has to change in order to improve performance. The special care baby unit in Withybush hospital was closed by your Minister, and that service was transferred to Glangwili hospital. You'll be aware that the Royal College of Paediatrics and Child Health has said that the maternity ward in Glangwili isn't fit for purpose. Under the circumstances, can you explain to my constituents why your Government closed that special care baby unit in Withybush hospital before appropriate and adequate services were available in Glangwili?

14:15

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, sbin mawr arall achos mae'r Aelod yn gwybod yn nêt bod yr adroddiad wedi dweud nad yw'n gwneud unrhyw synnwyr o gwbl i gadw'r system fel yr oedd hi. Mae ef yn dadlau yn erbyn y doctoriaid. Mae'n dadlau o blaid gwasanaeth sydd yn waeth i'w etholwyr ef—[Torri ar draws.] Nid oes eisiau coethi amdano; rwy'n gwybod nad yw arweinydd yr wrthblaid mor dda â hynny yn gofyn cwestiynau, ond mae'n ddigon da yn heclo. Y sefyllfa yw—

Well, this is a different spin because the Member knows full well that the report said that it didn't make any sense whatsoever to retain the system as it was—the status quo. He is now arguing against the doctors. He is arguing in favour of a service that is worse for his electors—[Interruption.] There's no need to rant about this; I know that the leader of the opposition isn't that good at asking questions, but is better at heckling. The position is—

Senedd.tv Fideo Video

14:15

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

[Inaudible]—be shot.

[Anghlywadwy] –ei saethu.

Senedd.tv Fideo Video

14:15

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Should be shot? There we are; I've heard that before.

Dylid ei saethu? Dyna ni; rwyf i wedi clywed hynny o'r blaen.

Senedd.tv Fideo Video

Y sefyllfa yw hwn, a hynny yw bod yn rhaid cael adeilad newydd. R?m ni'n gwybod hynny. Mae'r gwaith yn cael ei wneud a'r buddsoddiad yn cael ei wneud yn hynny, ond, fe ddywedodd yr adroddiad na fyddai'n gwneud unrhyw synnwyr clinigol i fynd yn ôl i'r hen system. R?m ni'n mynd i ddilyn beth y dywedodd y doctoriaid eu hunain, achos mae'n bwysig dros ben fod pobl sir Benfro'n cael y gwasanaeth y dylen nhw.

The situation is this, and that is, we have to have a new building. We know that. The work is being done and the investment is being made in that, but the report stated that it wouldn't make any clinical sense to return to the old system. We will follow what the doctors themselves said because it's extremely important that the people of Pembrokeshire receive the service they deserve.

14:16

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

First Minister, GPs in Crickhowell have expressed concern to me that women they are referring with a queried breast cancer are waiting in excess of 12 weeks before they see a consultant in the Aneurin Bevan trust. Would you agree with me that those 12 weeks must be the longest 12 weeks of those women's lives, and would you agree with the doctors who say, in some cases, that 12-week wait can change a woman's prognosis? Will you commit to looking into why women in south-east Powys are having to wait in excess of 12 weeks before they can see a consultant and can be told whether they have breast cancer or not?

Brif Weinidog, mae meddygon teulu yng Nghrucywel wedi mynegi pryder wrthyf bod menywod y maent yn eu hatgyfeirio gydag ymholiad canser y fron yn aros mwy na 12 wythnos cyn iddynt weld meddyg ymgynghorol yn ymddiriedolaeth Aneurin Bevan. A fyddech chi'n cytuno â mi mai'r 12 wythnos hynny yn ddiau fydd y 12 wythnos hiraf ym mywydau'r menywod hynny, ac a fyddech chi'n cytuno â'r meddygon sy'n dweud, mewn rhai achosion, y gall aros am 12 wythnos newid prognosis menyw? A wnewch chi ymrwymo i edrych i mewn i pam mae menywod yn ne-ddwyrain Powys yn gorfod aros mwy na 12 wythnos cyn y cânt weld ymgynghorydd a chael gwybod pa un a oes ganddynt ganser y fron ai peidio?

Senedd.tv Fideo Video

14:16

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The leader of the Liberal Democrats raises an important point that deserves a detailed answer and I will provide that in writing to her.

Mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn codi pwynt pwysig sy'n haeddu ateb manwl a byddaf yn darparu hwnnw yn ysgrifenedig iddi.

Senedd.tv Fideo Video

14:16

# Cwestiwn Brys: Adroddiadau ar Benderfyniadau'r Cabinet

# Urgent Question: Cabinet Decision Y Reports

Senedd.tv Fideo Video

## Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66. I call on Kirsty Williams to ask that urgent question —Kirsty Williams.

Yr wyf wedi derbyn cwestiwn brys o dan Reol Sefydlog 12.66. Galwaf ar Kirsty Williams i ofyn y cwestiwn brys hwnnw—Kirsty Williams.

14:17 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am benderfyniad Llywodraeth Cymru i roi'r gorau i gyhoeddi adroddiadau ar benderfyniadau'r Cabinet? EAQ(4)2480(FM)

Will the First Minister make a statement on the decision by the Welsh Government to cease the publication of Cabinet decision reports? EAQ(4)2480(FM)

14:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Cabinet decision reports have never existed. What we do, of course, is publish Cabinet papers and minutes, which will continue; there's no change there, along with evaluation reports written, all statements, press releases and responses to consultations, but decision reports regarding decisions that are taken in Cabinet, no decision has been taken on those because they don't exist.

Nid yw adroddiadau penderfyniadau'r Cabinet erioed wedi bodoli. Yr hyn yr ydym yn ei wneud, wrth gwrs, yw cyhoeddi papurau a chofnodion y Cabinet, a fydd yn parhau; does dim newid yn hynny o beth, ynghyd ag adroddiadau gwerthuso ysgrifenedig, pob datganiad, datganiadau i'r wasg ac ymatebion i ymgynghoriadau, ond o ran adroddiadau o benderfyniadau o ran penderfyniadau a wneir yn y Cabinet, nid oes penderfyniad wedi'i wneud am y rheini gan nad ydynt yn bodoli.

14:17 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the First Minister? Presiding Officer, I feel as if I must've fallen into an alternative universe, because if you look at the Welsh Government's own website, it says:

'Decision reports provide the facts and analysis on which Ministers have taken their decisions'.

It then goes on to say that a decision has been taken to stop publishing said reports as part of a streamlining process. Now, either they exist or, seemingly, now, in the world of the First Minister, they don't exist. Now, I don't know about a 'streamlining process', First Minister, but it seems to me like you are trying to streamline transparency. Surely, it is not too much to ask to have, and I quote your own website, the facts and analysis on which your Ministers have taken decisions in the public domain. The people of Wales deserve to know on what basis your Cabinet makes decisions. With that in mind, in the interests of open government, will you reconsider the decision that was published on your own Government website?

A gaf i ddiolch i'r Prif Weinidog? Lywydd, yr wyf yn teimlo fel pe bawn wedi syrthio i mewn i fydysawd arall, oherwydd os edrychwch ar wefan Llywodraeth Cymru ei hun, mae'n dweud:

'Mae adroddiadau am benderfyniadau yn rhoi'r ffeithiau a'r dadansoddiadau ffeithiol a oedd yn sail i benderfyniadau'r gweinidogion'.

Yna mae'n mynd ymlaen i ddweud bod penderfyniad wedi'i wneud i roi'r gorau i gyhoeddi'r adroddiadau hyn yn rhan o'r broses symleiddio. Nawr, naill ai maent yn bodoli, neu, yn ôl pob golwg, yn awr, ym myd y Prif Weinidog, nid ydynt yn bodoli. Nawr, nid wyf yn gwybod am 'broses symleiddio', Brif Weinidog, ond mae'n ymddangos i mi fel eich bod yn ceisio symleiddio tryloywder. Does bosib nad yw'n ormod i ofyn i gael, ac rwy'n dyfynnu eich gwefan eich hun, y ffeithiau a'r dadansoddiad y mae eich Gweinidogion wedi seilio eu penderfyniadau cyhoeddus arnynt. Mae pobl Cymru yn haeddu cael gwybod ar ba sail y mae eich Cabinet yn gwneud penderfyniadau. Gyda hynny mewn golwg, er budd llywodraeth agored, a wnewch chi ailystyried y penderfyniad a gyhoeddwyd ar wefan eich Llywodraeth eich hun?

14:18 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Again, these are not Cabinet decision reports; these are not to do with Cabinet. I'm going to make a confession to the leader of the Liberal Democrats and that is that there was a mistake on our website. It has now been corrected. But, I will explain what has happened. It is not to do with Cabinet or Cabinet decisions. Others on the benches opposite will know that Cabinet decisions are published via Cabinet minutes and, of course, through Cabinet papers and that continues. They continue to be published, but there were never decision reports on decisions taken in Cabinet; what there were were decision reports that were published after Ministers had taken decisions, but not acting collectively as Cabinet—just to get that absolutely clear.

Unwaith eto, nid yw'r rhain yn adroddiadau penderfyniadau Cabinet; nid yw'r rhain yn ymwneud â'r Cabinet. Rydw i'n mynd i gyfaddef rhywbeth i arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol sef bod camgymeriad ar ein gwefan. Mae bellach wedi cael ei gywiro. Ond, byddaf yn egluro beth sydd wedi digwydd. Nid yw'n ymwneud â'r Cabinet na phenderfyniadau'r Cabinet. Bydd eraill ar y meinciau gyferbyn yn gwybod bod penderfyniadau'r Cabinet yn cael eu cyhoeddi yng nghofnodion y Cabinet ac, wrth gwrs, drwy bapurau'r Cabinet ac mae hynny'n parhau. Maent yn parhau i gael eu cyhoeddi, ond ni fu erioed adroddiadau o benderfyniadau ar benderfyniadau a wnaed yn y Cabinet; yr hyn a oedd yn bodoli oedd adroddiadau o benderfyniadau a gyhoeddwyd ar ôl i'r Gweinidogion wneud penderfyniadau, ond heb fod yn gweithredu ar y cyd fel Cabinet—dim ond i gael hynny'n gwbl glir.

Now, in terms of that issue—

Nawr, o ran y mater hwnnw—

14:19

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Does it matter? Does it really matter?

A oes ots? A oes ots mewn gwirionedd?

14:19

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

[Continues.]—the information on which Ministers take their decisions, of course, is available through the submissions. All the decision reports did was pretty much duplicate what was already in submissions. When we looked at the people who were accessing decision reports, hardly anyone ever read them. For example, some of the important ones—[Interruption.]

[Yn parhau.] —mae'r wybodaeth y mae Gweinidogion yn seilio eu penderfyniadau arnynt, wrth gwrs, ar gael drwy'r cyflwyniadau. Y cyfan yr oedd yr adroddiadau o benderfyniadau yn ei wneud oedd dyblygu yr hyn a oedd eisoes mewn cyflwyniadau. Pan wnaethom edrych ar y bobl a oedd yn defnyddio'r adroddiadau o benderfyniadau, doedd braidd neb fyth yn eu darllen. Er enghraifft, roedd rhai o'r rhai pwysig- [Torri ar draws.]

14:19

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order, order.

Trefn, trefn.

14:19

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

[Continues.]—were made available through press releases and Members were able to ask Ministers questions on them, but the vast majority of them were hugely mundane. You're talking about a huge amount of time in order to publish them, for documents that hardly anybody read.

[Yn parhau.] —ar gael drwy ddatganiadau i'r wasg ac roedd yr Aelodau'n cael gofyn cwestiynau i Weinidogion amdanynt, ond roedd y mwyafrif helaeth ohonynt yn hynod o ddiflas. Yr ydych yn sôn am lawer iawn o amser er mwyn eu cyhoeddi, ar gyfer dogfennau y mae prin neb yn eu darllen.

14:20

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Let us decide.

Gadewch i ni benderfynu.

14:20

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Now, look, as far as we are concerned—she makes the allegation that we are, in some way, not an open Government—we publish Cabinet papers and we publish Cabinet minutes. Her party didn't. Her party didn't in Westminster; they never did that. We publish our evaluation reports, we publish written and oral statements, we publish responses to consultations and I stand here for three quarters of an hour, longer than anybody else in the UK, taking questions. She has the opportunity of asking me six to nine questions on the floor at times—at least three. I do not think that anybody could seriously argue that, somehow, we are not open to scrutiny.

Nawr, edrychwch, cyn belled ag yr ydym ni yn y cwestiwn—mae hi'n gwneud yr honiad nad ydym, mewn rhyw ffordd, yn Llywodraeth agored— rydym yn cyhoeddi papurau Cabinet ac rydym yn cyhoeddi cofnodion y Cabinet. Nid oedd ei phlaid hi'n gwneud hynny. Nid oedd ei phlaid hi yn San Steffan yn gwneud hynny; ni wnaethant hynny erioed. Rydym yn cyhoeddi ein hadroddiadau gwerthuso, rydym yn cyhoeddi datganiadau ysgrifenedig a llafar, rydym yn cyhoeddi ymatebion i ymgynghoriadau ac yr wyf yn sefyll yma am dri chwarter awr, yn hirach nag unrhyw un arall yn y DU, yn derbyn cwestiynau. Mae ganddi'r cyfle i ofyn chwech i naw o gwestiynau ar y llawr i mi ar adegau—o leiaf tri. Nid wyf yn credu y gallai unrhyw un ddadlau o ddifrif nad ydym, rywsut, yn agored i graffu.

14:20 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I do feel as if I'm in an episode of 'Yes Minister' with these explanations. I'm sure the gallery feel the same, First Minister. Obviously, a decision has been taken to change the way that the decision-making system of Government works—or is disclosed to the public. You've disclosed that there is an inaccuracy on your website, which has been corrected, and I think we're grateful for that. Could you give clarity via issuing a statement on exactly how the process will change, because there has been a change—you can't deny that—with this announcement, so that we can then make an assessment about whether there is a creep, shall we say, in pulling back from transparency, which is what this place is meant to be determining, on behalf of the people who vote us here to scrutinise the decisions your Government takes? In particular, when you look at the decision on the judicial review and the M4 black route, there was an issue there about the ability of advisers to be present to answer questions around the decision-making process as to how that decision was arrived at. Have you reflected on the evidence that's been put before you and is that the reason why this decision has been taken?

Rwy'n teimlo fel fy mod i mewn pennod o 'Yes Minister' gyda'r esboniadau hyn. Rwy'n siŵr bod yr oriel yn teimlo yr un fath, Brif Weinidog. Yn amlwg, mae penderfyniad wedi ei wneud i newid y ffordd y mae system gwneud penderfyniadau'r Llywodraeth yn gweithio—neu'r modd y cânt eu datgelu i'r cyhoedd. Rydych chi wedi datgelu bod anghywirdeb ar eich gwefan, sydd wedi cael ei gywiro, ac rwyf yn credu ein bod yn ddiolchgar am hynny. A allech chi wneud hyn yn eglur trwy gyhoeddi datganiad am sut yn union y bydd y broses yn newid, oherwydd mae newid wedi digwydd—ni allwch wadu hynny—gyda'r cyhoeddiad hwn, er mwyn i ni allu wedyn wneud asesiad ynghylch a oes symudiad araf, gadewch i ni ddweud, o ran tynnu yn ôl o dryloywder, sef yr hyn y mae'r lle hwn i fod i'w benderfynu, ar ran y bobl sy'n pleidleisio i ni fod yma i graffu ar y penderfyniadau y mae eich Llywodraeth yn eu gwneud? Yn benodol, pan fyddwch yn edrych ar y penderfyniad ar yr adolygiad barnwrol a llwybr du yr M4, roedd problem ynglŷn â gallu cynghorwyr i fod yn bresennol i ateb cwestiynau am y broses o wneud penderfyniadau ynghylch sut y gwnaethpwyd y penderfyniad hwnnw. A ydych chi wedi myfyrio ar y dystiolaeth sydd wedi ei rhoi ger eich bron chi ac ai dyna yw'r rheswm pam y mae'r penderfyniad hwn wedi ei wneud?

14:21 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Government was successful in the judicial review, so, clearly, that argument carried no weight in court. Clearly, that doesn't have any more merit from our point of view. Bear in mind that the UK Government doesn't do this, the Scottish Government doesn't do this and no-one else does. The reason is: it duplicates very much the submissions that are already provided to Ministers. The major decisions, Members are told about, of course, through press releases and through letters—I know from the economy Minister—and Members are made aware of those. Some of the decision reports—well, most of the decision reports, I'd argue—that are provided on the website are incredibly mundane. They take up time, as far as officials are concerned, and we know that money is difficult and officials' time is more restricted. For example, called-in planning applications and funding for car park extensions, these are not things that I think Members would expect to see a full decision report published online about. The important decisions, yes, I'd expect that, and Members should have those communicated to them.

Roedd y Llywodraeth yn llwyddiannus yn yr adolygiad barnwrol, felly, yn amlwg, nid oedd unrhyw bwysau i'r ddadl honno yn y llys. Yn amlwg, nid oes dim mwy o deilyngdod i hynny o'n safbwynt ni. Cofiwch nad yw Llywodraeth y DU yn gwneud hyn, nid yw Llywodraeth yr Alban yn gwneud hyn a does neb arall yn ei wneud. Y rheswm yw: mae'n dyblygu i raddau helaeth y cyflwyniadau sydd eisoes yn cael eu darparu i Weinidogion. Y prif benderfyniadau, mae'r Aelodau'n cael gwybod amdanynt, wrth gwrs, trwy ddatganiadau i'r wasg a thrwy lythyrau—rwy'n gwybod drwy Weinidog yr Economi—ac mae'r Aelodau yn cael gwybod am y rheini. Mae rhai o'r adroddiadau o benderfyniadau—wel, mae'r rhan fwyaf o'r adroddiadau o benderfyniadau, byddwn i'n dadlau—sy'n cael eu darparu ar y wefan yn anhygoel o ddiflas. Maent yn cymryd amser, cyn belled ag y mae swyddogion yn y cwestiwn, a gwyddom fod arian yn anodd ac amser swyddogion yn fwy cyfyngedig. Er enghraifft, nid yw ceisiadau cynllunio a alwyd i mewn a chyllid ar gyfer estyniadau meysydd parcio, yn bethau yr wyf i'n meddwl y byddai Aelodau yn disgwyl gweld adroddiad o benderfyniad llawn yn cael ei gyhoeddi ar-lein amdanynt. Y penderfyniadau pwysig, ie, byddwn i'n disgwyl hynny, a dylai'r Aelodau gael gwybod amdanynt.

But, I come back to this point: in terms of some kind of creep, as the leader of the opposition put it, towards secrecy, who else publishes Cabinet papers and minutes? The UK Government doesn't. Evaluation reports—. Who else has so many written and oral statements, in terms of the letters that Ministers send out as well, and in terms of the opportunity to scrutinise both me and other Ministers? We are scrutinised more than any other Government anywhere in the UK, and that is something we accept, but I don't think the accusation can be levelled at us that, in some way, we are hiding from scrutiny. There is great opportunity for Members to do that, and we will carry on publishing Cabinet minutes and Cabinet decisions.

Ond, rwyf yn dod yn ôl at y pwynt hwn: o ran bod rhyw fath o symudiad araf, fel y'i galwyd gan arweinydd yr wrthblaid, tuag at gyfrinachedd, pwy arall sy'n cyhoeddi papurau a chofnodion y Cabinet? Nid yw Llywodraeth y DU yn gwneud hynny. Adroddiadau gwerthuso—. Pwy arall sydd â chymaint o ddatganiadau ysgrifenedig a llafar, o ran y llythyrau y mae Gweinidogion yn eu hanfon allan hefyd, ac o ran y cyfle i graffu arnaf i a Gweinidogion eraill? Mae mwy o graffu arnom ni nag ar unrhyw Lywodraeth arall mewn unrhyw fan yn y DU, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ei dderbyn, ond nid wyf yn credu y gallem gael ein cyhuddo o fod, mewn rhyw ffordd, yn cuddio rhag craffu. Mae llawer o gyfle i Aelodau wneud hynny, a byddwn yn parhau i gyhoeddi cofnodion y Cabinet a phenderfyniadau'r Cabinet.

14:23

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, so much for a new kind of politics. We've heard a huge amount of spin here from you this afternoon, First Minister. I wanted to raise a point of order under Standing Order 12.4, but that wasn't allowed by the Presiding Officer, because, First Minister, you gave a misleading statement to me in answer to my question on this—about the publication of Cabinet decisions. That website is still there today, now; it's there, and it says—

Wel, math newydd o wleidyddiaeth yn wir. Rydym wedi clywed llawer iawn o siarad gwag yma oddi wrthych y prynhawn yma, Brif Weinidog. Roeddwn i eisiau codi pwynt o drefn o dan Rheol Sefydlog 12.4, ond ni chafodd ei ganiatáu gan y Llywydd, oherwydd, Brif Weinidog, i chi roi datganiad camarweiniol i mi wrth ateb fy nghwestiwn am hyn—ynghylch cyhoeddi penderfyniadau'r Cabinet . Mae'r wefan honno yn dal yno heddiw, nawr; mae yno, ac mae'n dweud—

14:24

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I'm sorry, but I'm not being called misleading—

Mae'n ddrwg gen i, ond dydw i ddim yn mynd i gael fy ngalw'n gamarweiniol—

14:24

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It says that:

Mae'n dweud:

'From 28 September 2015, as a result of streamlining our process for ministerial advice, we no longer produce decision reports.'

'O 28 Medi 2015, fel canlyniad o symleiddio ein proses cynghori gweinidogol, nid ydym bellach yn cynhyrchu adroddiadau penderfyniad.'

It says:

Mae'n dweud:

'Previous decision reports can be found on the National Archives UK Government Web Archive'.

'Gallwch weld adroddiadau penderfyniad blaenorol ar wefan yr Archifau Cenedlaethol, yn archif Llywodraeth y DU'.

Except when you click on every one of those links, there's nothing there. So, will the Presiding Officer please require the First Minister to clarify whether Cabinet Ministers' decisions will be made public in the future or whether they will be kept secret? The situation has changed. Can you please explain to us how?

Ond pan fyddwch yn clicio ar bob un o'r dolenni hynny, does dim byd yno. Felly, a wnaiff y Llywydd os gwelwch yn dda ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Weinidog egluro pa un a fydd penderfyniadau Gweinidogion y Cabinet yn cael eu cyhoeddi yn y dyfodol, neu a fyddant yn cael eu cadw'n gyfrinachol? Mae'r sefyllfa wedi newid. A wnewch chi egluro sut wrthym os gwelwch yn dda?

14:24

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I'm sorry, I'm not going to be accused of misleading this Chamber, because the problem was the leader of Plaid Cymru not knowing the question that she'd asked. She said to me: why are Cabinet decisions not being published? I explained to her that Cabinet papers—[Interruption.]

Mae'n ddrwg gen i, dydw i ddim yn mynd i gael fy ngyhuddo o gamarwain y Siambr hon, gan mai'r broblem oedd nad oedd arweinydd Plaid Cymru yn gwybod beth oedd y cwestiwn yr oedd hi wedi ei ofyn. Dywedodd wrthyf: pam nad yw penderfyniadau'r Cabinet yn cael eu cyhoeddi? Esboniais wrthi fod papurau'r Cabinet— [Torri ar draws.]

14:25 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

14:25 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

She should have got the question right, then. Cabinet papers and minutes will continue to be published, as they always have been.

Dylai hi fod wedi cael y cwestiwn yn iawn, felly. Bydd papurau a chofnodion y Cabinet yn parhau i gael eu cyhoeddi, fel y maent bob amser wedi cael eu cyhoeddi.

14:25 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Weasel words. Weasel words.

Geiriau Gwenci. Geiriau Gwenci.

14:25 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There is no question of Ministers' decisions being kept secret, being kept from the public and from the people of Wales. If you can't get the question right, don't ask it. [Interruption.]

Nid oes unrhyw gwestiwn fod penderfyniadau Gweinidogion yn cael eu cadw'n gyfrinachol, yn cael eu cadw oddi wrth y cyhoedd ac oddi wrth bobl Cymru. Os na allwch chi gael y cwestiwn yn iawn, peidiwch â'i ofyn. [Torri ar draws.]

14:25 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Order. The First Minister is trying to answer the questions.

Trefn. Mae'r Prif Weinidog yn ceisio ateb y cwestiynau.

14:25 **Aelod Cynulliad / An Assembly Member** — Senedd.tv Fideo Video

He's not; that's the point.

Dyw e ddim; dyna'r pwynt.

14:25 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

He's trying to answer the questions. Simon Thomas.

Mae yn ceisio ateb y cwestiynau. Simon Thomas.

14:25 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, your pettifogging and legalistic approach to this question is not doing you any favours at all. One thing I do remember from when I was a senior special adviser for the Government that you were part of is that these decision reports were often scoured by journalists and then used to challenge Ministers, including Plaid Cymru Ministers, on the decisions that they'd taken. Elin Jones will remember that. That was part of transparency. That was part of the process. As Leanne Wood has already pointed out, if you now go to the website that your website clicks onto for these decisions, the page that you are looking for does not exist in the UK Government web archive. That's the transparency that you're bringing to your Government at the moment. On 28 May you tweeted about FIFA, that it needed transparency at the top, and football needed a fresh start. Is this your pitch for a job in FIFA?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, nid yw eich dull craffgyfreithiol a ddeddfol i'r cwestiwn hwn yn gwneud unrhyw ffafr â chi o gwbl. Un peth yr wyf yn ei gofio o'r adeg pan oeddwn yn uwch gynghorydd arbennig ar gyfer y Llywodraeth yr oeddech yn rhan ohoni yw bod yr adroddiadau o benderfyniadau hyn yn aml yn cael eu cribinio gan newyddiadurwyr ac yna eu defnyddio i herio Gweinidogion, gan gynnwys Gweinidogion Plaid Cymru, ar y penderfyniadau yr oeddynt wedi eu gwneud. Bydd Elin Jones yn cofio hynny. Yr oedd hynny'n rhan o dryloywder. Roedd yn rhan o'r broses. Fel y mae Leanne Wood eisoes wedi'i nodi, os ydych yn awr yn mynd i'r wefan y mae eich gwefan chi yn clicio arni ar gyfer y penderfyniadau hyn, nid yw'r dudalen yr ydych yn chwilio amdani yn bodoli yn archif gwefan Llywodraeth y DU. Dyna'r tryloywder yr ydych yn ei roi i'ch Llywodraeth ar hyn o bryd. Ar y 28 Mai gwnaethoch drydaru am FIFA, a bod angen tryloywder ar y brig, a bod angen dechrau newydd ar bêl-droed. Ai dyma eich cais chi i gael swydd yn FIFA?

14:26 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Sorry; is he really suggesting that I'm in the same category as Sepp Blatter? Let's get some perspective here, shall we, from Plaid Cymru? It's one thing to make a comment about whether you believe or not that decisions will be communicated in a particular way, it's another comment to suggest that some of the Government is involved in some kind of financial chicanery, which is what he seems to be— [Interruption.] No, that's what you're implying, and people will have heard it. [Interruption.] The reality of the situation is this: that we will continue—

Mae'n ddrwg gennyf; a yw ef mewn gwirionedd yn awgrymu fy mod i yn yr un categori â Sepp Blatter? Gadewch i ni gael rhywfaint o bersbectif fan hyn, gan Blaid Cymru? Mae'n un peth i wneud sylw ynghylch pa un a ydych yn credu y bydd penderfyniadau'n cael eu cyfleu mewn ffordd benodol ai peidio, mae'n sylw arall i awgrymu bod rhai o'r Llywodraeth yn cymryd rhan mewn rhyw fath o driciau ariannol, sef yr hyn y mae'n ymddangos ei fod— [Torri ar draws.] Na, dyna beth yr ydych yn ei awgrymu, a bydd pobl wedi clywed hynny. [Torri ar draws.] Gwirionedd y sefyllfa yw hyn: y byddwn yn parhau —

Senedd.tv Fideo Video

14:27 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Publish the reports and we'll know that it's nothing.

Cyhoeddwch yr adroddiadau a byddwn yn gwybod nad oes dim o'i le.

Senedd.tv Fideo Video

14:27 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, you shouldn't have said it, then. The reality of the situation is that ministerial decisions will continue to be communicated to Members, as they always have been, through statements, both written and oral, and Members will continue to have all the scrutiny opportunities they've always had to ask Ministers questions in this Chamber, as they have always had. Cabinet papers and minutes will continue to be published, and Cabinet decisions will continue to be published.

Wel, ddylech chi ddim bod wedi dweud hynny, felly. Gwirionedd y sefyllfa yw y bydd penderfyniadau gweinidogol yn parhau i gael eu cyfleu i Aelodau, fel sydd bob amser wedi digwydd, drwy ddatganiadau, yn ysgrifenedig ac ar lafar, a bydd yr Aelodau'n parhau i gael yr holl gyfleoedd i graffu y maent bob amser wedi eu cael i ofyn cwestiynau i Weinidogion yn y Siambr hon, fel y maent bob amser wedi eu cael. Bydd papurau a chofnodion y Cabinet yn parhau i gael eu cyhoeddi, a bydd penderfyniadau'r Cabinet yn parhau i gael eu cyhoeddi.

Senedd.tv Fideo Video

14:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I have no-one else. Thank you, First Minister.

Nid oes gennyf unrhyw un arall. Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

Senedd.tv Fideo Video

14:27

## 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 2. Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 2, which is the business statement and announcement. I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

Symudwn yn awr at eitem 2, sef y datganiad a chyhoeddiad busnes. Galwaf ar Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

14:27 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Llywydd, there are no changes to report to the business statement for this week's business. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among agenda papers available to Members electronically.

Lywydd, nid oes unrhyw newidiadau i'w hadrodd i'r datganiad busnes ar gyfer busnes yr wythnos hon. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau yn electronig.

Senedd.tv Fideo Video

14:27 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. I wonder if I could ask for two statements, please: first, either an oral or written statement—I don't mind—to update Members on the progress of the Swansea bay tidal lagoon's application for a marine licence. There are no statutory limits for these licences to be dealt with, but because we have this sort of split system where Natural Resources Wales is involved, I'd like to think that there is no delay occasioned by Welsh Government in what is the progress of one of our most important infrastructure projects, not just for Wales, but specifically for my region.

Diolch, Weinidog. Tybed a gaf i ofyn am ddau ddatganiad, os gwelwch yn dda: yn gyntaf, datganiad naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig—does dim ots gen i—i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am hynt cais morlyn llanw bae Abertawe am drwydded forol. Nid oes cyfyngiadau statudol ar gyfer ymdrin â'r trwyddedau hyn, ond gan fod gennym y system hon sydd rhywsut wedi'i rhannu ac sy'n cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, hoffwn feddwl nad yw Llywodraeth Cymru yn peri unrhyw oedi i hynt un o'n prosiectau seilwaith pwysicaf, nid yn unig i Gymru, ond yn benodol i fy rhanbarth i.

Secondly, I wonder if you could update us on the timetable around the second tranche of Welsh language standards, particularly if you could reassure this Chamber that that will be available and clear before this Assembly terminates. Thank you.

Yn ail, tybed a allech chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am yr amserlen o amgylch yr ail gyfran o safonau'r Gymraeg, ac yn enwedig a allech chi dawelu meddwl y Siambr hon y bydd hynny ar gael ac yn glir cyn i'r Cynulliad hwn ddod i ben. Diolch.

14:28 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Suzy Davies, clearly the Welsh Government supports, of course, the very important tidal lagoon development. There is no delay in terms of consent, but of course we are also waiting for the UK Government in terms of their response to this very important development. I hope that you will also be making representations, as far as that's concerned, of their responsibilities as far as the development is concerned.

Wel, Suzy Davies, yn amlwg mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi, wrth gwrs, datblygiad pwysig iawn y morlyn llanw. Nid oes unrhyw oedi o ran caniatâd, ond wrth gwrs rydym ni hefyd yn disgwyl am ymateb Llywodraeth y DU i'r datblygiad pwysig iawn hwn. Gobeithiaf y byddwch chithau hefyd yn gwneud sylwadau, cyn belled ag y mae hynny yn y cwestiwn, am eu cyfrifoldebau o ran y datblygiad.

On your second point, of course the second tranche of Welsh language standards is under way, and we would want to make statements on both these important issues as they progress.

O ran eich ail bwynt, wrth gwrs mae'r ail gyfran o safonau'r Gymraeg ar y gweill, a byddem yn dymuno gwneud datganiadau ar y ddau fater pwysig hyn wrth iddynt ddatblygu.

14:29 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, could we have a statement on the protection for unaccompanied minor refugees who will find themselves in Wales? Last week, the First Minister issued a written statement on the refugee summit, and he notified Members that the Minister for Communities and Tackling Poverty would provide further information on the written statement on 6 October. Could I ask that that statement include information on communication between the Welsh Government and the Home Office regarding the roll-out to Wales of trial schemes providing specialist advocates for trafficked children? In Wales, we can pride ourselves on having the very first all-Wales trafficking coordinator in our anti-slavery coordinator, and we have led the way in safeguarding those people who are trafficked. Anybody who has witnessed the recent refugee crisis would have also witnessed high volumes of unaccompanied minors seeking refuge. They might also have caught the stories in Italy where those unaccompanied minors are already being trafficked throughout Europe. I ask, therefore, Minister, how we can stay ahead of the game and absolutely ensure that any unaccompanied refugees who find themselves in Wales will also find that we are there ready to advocate on their behalf, ready to ensure that they do not fall victim to trafficking by those people who will be, if they can, lying in wait?

Weinidog, a gawn ni ddatganiad am ddiogelu ffoaduriaid dan ddeunaw oed a ddaw i Gymru ar eu pennau eu hunain? Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd y Prif Weinidog ddatganiad ysgrifenedig am yr uwchgynhadledd ffoaduriaid, a hysbysodd yr Aelodau y byddai'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn darparu rhagor o wybodaeth am y datganiad ysgrifenedig ar 6 Hydref. A gaf i ofyn am i'r datganiad hwnnw gynnwys gwybodaeth am gyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref ynghylch cyflwyno cynlluniau prawf i Gymru i ddarparu eiriolwyr arbenigol ar gyfer plant a fasnachwyd? Yng Nghymru, gallwn ymfalchïo yn y ffaith bod gennym y cydlynydd masnachu pobl cyntaf un i Gymru gyfan, sef ein cydlynydd gwrth-gaethwasiaeth, ac rydym wedi arwain y ffordd o ran diogelu'r bobl hynny sy'n cael eu masnachu. Byddai unrhyw un a fu'n dyst i'r argyfwng ffoaduriaid diweddar hefyd wedi gweld nifer fawr o blant sy'n ceisio lloches ar eu pennau eu hunain. Efallai y byddant hefyd wedi gweld y straeon yn yr Eidal lle mae'r plant hynny sydd ar eu pennau eu hunain eisoes yn cael eu masnachu ledled Ewrop. Rwy'n gofyn, felly, Weinidog, sut y gallwn aros ar y blaen a sicrhau'n llwyr bod unrhyw ffoaduriaid ar eu pennau eu hunain sy'n cyrraedd Cymru yn gweld ein bod ni yno ac yn barod i eirioli ar eu rhan, yn barod i sicrhau nad ydynt yn dioddef cael eu masnachu gan y bobl hynny a fydd, os gallant, yn aros amdanynt?

14:31 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Joyce Watson for that question. The Minister for Communities and Tackling Poverty, following the summit that the First Minister chaired, is chairing a high-level task force to lead a Wales-wide approach to the Syrian refugee crisis and she will be—of course, the First Minister made a written statement on this, updating—making an oral statement on progress on 6 October. But I think, in terms of your point about whether this would include discussions regarding the roll-out of trial schemes providing specialist advocates for trafficked children, the important point about that, as you well know from your close engagement in this, is that those trial schemes do relate to all trafficked children. It's not directly associated with the resettlement of Syrian refugees. But, obviously, we will ensure that that trial, the results of that trial—. The review of it, of course, is ongoing and there's an event on 23 October and, of course, any cross-references in terms of the needs of refugees would be made.

Diolch i Joyce Watson am y cwestiwn yna. Mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, ar ôl yr uwchgynhadledd a gadeiriwyd gan y Prif Weinidog, yn cadeirio tasglu lefel uchel i arwain ymateb Cymru gyfan i argyfwng ffoaduriaid Syria a bydd hi—wrth gwrs, gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad ysgrifenedig am hyn, i ddiweddaru—yn gwneud datganiad llafar am gynnydd ar 6 Hydref. Ond rwy'n meddwl, o ran eich pwynt ynghylch pa un a fyddai hyn yn cynnwys trafodaethau am gyflwyno cynlluniau prawf i ddarparu eiriolwyr arbenigol ar gyfer plant sy'n cael eu masnachu, mai'r pwynt pwysig am hynny, fel y gwyddoch yn iawn o'ch ymgysylltiad agos â hyn, yw bod y cynlluniau prawf hynny yn berthnasol i bob plentyn a fasnachwyd. Nid yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol ag ailsefydlu ffoaduriaid Syria. Ond, yn amlwg, byddwn yn sicrhau bod yr arbrawf, canlyniadau'r arbrawf hwnnw—. Mae'r adolygiad ohono, wrth gwrs, yn parhau a bydd digwyddiad ar 23 Hydref ac, wrth gwrs, byddai unrhyw groesgyfeiriadau o ran anghenion ffoaduriaid yn cael eu gwneud.

14:32 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Tybed a allwn ni gael trafodaeth—dadl yn amser y Llywodraeth—yngl?n â dyfodol y sector treftadaeth. Rydych chi wedi gweld yn y newyddion yn ddiweddar bod yna broblemau enbyd gyda'r Llyfrgell Genedlaethol yma yng Nghymru a hefyd mae yna broblemau yn parhau yn Amgueddfa Cymru, ble mae negodi wedi dod i ben ar hyn o bryd rhwng PCS a rheolwyr yr amgueddfa yngl?n â thoriadau o fewn blwyddyn sy'n digwydd yno ac sy'n mynd i amharu ar staff penwythnos yr amgueddfa. Felly, a fedrwn ni gael dadl yn amser y Llywodraeth er mwyn i ni fel gwleidyddion allu cael barn glir ar yr hyn sy'n digwydd o fewn y sector?

I wonder if we could have a debate in Government time on the future of the heritage sector. You'll have seen in the news recently that there are huge problems with the National Library here in Wales, and there are also problems that are ongoing in National Museum Wales, where negotiations have concluded for the time being between the Public and Commercial Services Union and the museum management on in-year cuts that are happening there, and which will have an impact on the weekend staff of the museum. Can we have a debate in Government time so that we as politicians can have a clear view on what's happening within the sector?

I also wonder if we could have a debate in Government time concerning the way in which the Welsh Government ensures equality and inclusivity targets are met when it is grant giving. For example, the Welsh Government has given £4.15 million to Surf Snowdonia and, while this has created 100 jobs, I understand that when it staged its first stadium event recently there were no Welsh participants and no women involved. I wonder what the Welsh Government thinks of this and what checks you put in place to ensure that that equality agenda goes through how you give your grants out.

Tybed hefyd a fyddai modd inni gael dadl yn amser y Llywodraeth ynghylch y modd y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei bod yn bodloni targedau cydraddoldeb a chynhwysiant wrth roi grantiau. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £4.15 miliwn i Surf Snowdonia ac, er bod hyn wedi creu 100 o swyddi, rwyf ar ddeall, pan gynhaliodd ei ddigwyddiad stadiwm cyntaf yn ddiweddar, nad oedd unrhyw gyfranogwyr o Gymru nac unrhyw fenywod yn cymryd rhan. Tybed beth yw barn Llywodraeth Cymru am hyn a pha archwiliadau sydd ar waith gennych i sicrhau bod yr agenda cydraddoldeb honno yn rhan o'r ffordd yr ydych yn dyfarnu eich grantiau.

14:33 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, questions can be asked to the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism in terms of the future of our heritage sector. And, indeed, all our grant giving is subject to a gateway, which, of course, includes an equality impact assessment.

Yn amlwg, gellir gofyn cwestiynau i'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ynglŷn â dyfodol ein sector treftadaeth. Ac, yn wir, mae pob grant a roddir gennym yn mynd drwy borth, sydd, wrth gwrs, yn cynnwys asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.

14:34 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I'm sure you'll be aware of the beautiful Temple of Peace in Cardiff's civic centre, the brainchild of Lord David Davies of Llandinam and, clearly, a very important part of our culture and heritage in the capital city. Following reorganisation of the NHS in 2009, I understand that that building's ownership was transferred to Public Health Wales and I understand that Public Health Wales are now thinking about selling that building. I'm wondering if I could request a statement, please, from the Minister for health to ensure that all covenants, historic or otherwise, have been examined to ensure that, in the future use of that building, the original aims of promoting peace and promoting wellbeing in Wales will be preserved.

Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn ymwybodol o'r Deml Heddwch hardd yng nghanolfan ddinesig Caerdydd, syniad yr Arglwydd David Davies o Landinam ac, yn amlwg, rhan bwysig iawn o'n diwylliant a'n treftadaeth yn y brifddinas. Yn dilyn ad-drefnu'r GIG yn 2009, rwyf ar ddeall bod perchnogaeth yr adeilad wedi ei throsglwyddo i Iechyd Cyhoeddus Cymru ac rwyf ar ddeall bod Iechyd Cyhoeddus Cymru bellach yn ystyried gwerthu'r adeilad hwnnw. Tybed a gaf i ofyn am ddatganiad, os gwelwch yn dda, gan y Gweinidog iechyd i sicrhau bod yr holl gyfamodau, hanesyddol neu fel arall, wedi eu harchwilio i sicrhau, wrth ddefnyddio'r adeilad hwnnw yn y dyfodol, y cedwir at y nodau gwreiddiol sef hyrwyddo heddwch a hyrwyddo lles yng Nghymru.

14:34 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, that's without question in terms of any transfer of ownership. This is an operational matter, but, clearly, any covenants of that kind would have to be abided by.

Wel, wrth gwrs, mae hynny'n ddi-os o ran unrhyw drosglwyddo perchnogaeth. Mater gweithredol yw hwn, ond, yn amlwg, byddai'n rhaid cadw at unrhyw gyfamodau o'r fath.

14:35 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, can I call for a statement in respect of home-to-school transport? I'm in receipt of a number of constituency concerns regarding young people who are being forced to travel significant distances along hazardous routes in order to access pick-up points in Denbighshire for home-to-school transport arrangements. This is a growing concern; there are many people who are impacted by this and I am concerned that other local authorities may follow suit and put young children in harm's way. Clearly, the Learner Travel (Wales) Measure 2008 was developed on a basis that ought to protect young people, and I know that that's the aspiration of all of the Assembly Members on all sides of this Chamber, and, clearly, this policy cuts across that aspiration that we all shared. I'd be very grateful for a ministerial statement to put on record what the Welsh Government's position is on this important issue.

Weinidog, a gaf i alw am ddatganiad ynglŷn â chludiant o'r cartref i'r ysgol? Rwyf wedi derbyn nifer o bryderon yn fy etholaeth ynglŷn â phobl ifanc sy'n cael eu gorfodi i deithio pellteroedd sylweddol ar hyd ffyrdd peryglus i gyrraedd mannau codi yn Sir Ddinbych ar gyfer trefniadau cludiant o'r cartref i'r ysgol. Mae hwn yn bryder cynyddol; mae hyn yn effeithio ar lawer o bobl ac rwy'n pryderu y gallai awdurdodau lleol eraill wneud yr un peth a rhoi plant ifanc mewn sefyllfaoedd peryglus. Yn amlwg, sail datblygu Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 oedd y dylai ddiogelu pobl ifanc, a gwn mai dyna yw dyhead holl Aelodau'r Cynulliad ar bob ochr i'r Siambr hon, ac, yn amlwg, mae'r polisi hwn yn torri ar draws y dyhead hwnnw yr oeddem i gyd yn ei rannu. Byddwn yn ddiolchgar iawn am ddatganiad gweinidogol i gofnodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y mater pwysig hwn.

14:36 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is an important issue, as Darren Millar has raised today, and, of course, it is an issue that I know the Minister for Economy, Science and Transport is concerned with, and, indeed, it links also to our education Minister's responsibilities and priorities as well. So, we will look to ways in which we can clarify the position in the Chamber.

Mae hwn yn fater pwysig, fel y mae Darren Millar wedi'i godi heddiw, ac, wrth gwrs, mae'n fater yr wyf yn gwybod bod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn ymwneud ag ef, ac, yn wir, mae'n ymwneud â chyfrifoldebau a blaenoriaethau ein Gweinidog addysg hefyd. Felly, byddwn yn chwilio am ffyrdd o allu egluro'r sefyllfa yn y Siambr.

14:36 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Byddwn yn dymuno cael dau ddatganiad. Yn gyntaf, ym mis Tachwedd 2012, fe gaewyd yr A55 rhwng Bangor ac Aber gan lifogydd am bump awr ac fe ddifrodwyd eiddo. Fe ddywedodd y Gweinidog trafnidiaeth ar y pryd, ac rwy'n dyfynnu, 'bydd hyn ddim yn digwydd eto.' Dair blynedd yn ddiweddarach, er bod cynllun lliniaru wedi'i gytuno, nid oes addewid i ariannu'r cynllun ac i ddiogelu'r ffordd hollbwysig hon. A gawn ni ddatganiad i ddweud y bydd y Llywodraeth yn cadw at ei gair yn fuan?

I would wish to have two statements. Firstly, in November 2012, the A55 was closed between Bangor and Aber by floods for five hours and properties were damaged. The Minister for transport at the time stated, and I quote, that 'this will not happen again'. Three years later, although the alleviation plan has been agreed, there is no pledge to fund the scheme and to safeguard this all-important roadway. May we have a statement that the Government will keep its promise and that that will happen soon?

Yn ail, mi hoffwn ddatganiad ar bolisi'r Llywodraeth yngl?n â defnyddio'r Gymraeg wrth ymgynghori â'r cyhoedd. Mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ar hyn o bryd yngl?n â safleoedd i'r gymuned deithiol yng Nghymru. Mae cyngor fel Cyngor Gwynedd yn gweithredu gwefan drwyadl ddwyieithog, ac mae cynnwys deunydd uniaith Saesneg yn mynd yn groes i'w bolisi, ac yn groes, byddwn yn dadlau, i ysbryd Mesur Gymraeg (Cymru) 2011, ond mae'r deunydd yn uniaith Saesneg. A gawn ddatganiad buan os gwelwch yn dda ar bolisi'r Llywodraeth ar y defnydd o'r Gymraeg wrth ymgynghori â'r cyhoedd?

I'd like, secondly, a statement on the Welsh Government's policy on using the Welsh language in consulting with the public. The Government is out to consultation at present as regards sites for the travelling community in Wales. Councils such as Gwynedd Council operate a totally bilingual website, and including English-only material is contrary to their policy, and contrary, I would say, to the spirit of the Welsh Language (Wales) Measure 2011, but the material is in English only. Please can we have an early statement on the Government's policy on the use of Welsh language in consulting with the public?

14:37

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for both those questions. As far as the first question is concerned, on the risk in terms of flooding on the A55, and the adverse impact of that, the Minister for Natural Resources will write to you about progress in terms of that particular flood alleviation scheme, and also, clearly, we would want to look into and ensure that standards are met in terms of the Welsh language for the consultation, which is ongoing in terms of the travelling community.

Diolch i'r Aelod am y ddau gwestiwn yna. O ran y cwestiwn cyntaf, ynglŷn â risg llifogydd ar yr A55, ac effaith andwyol hynny, bydd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn ysgrifennu atoch am gynnydd o ran y cynllun lliniaru llifogydd penodol hwnnw, a hefyd, yn amlwg, byddem yn dymuno edrych ar hyn i sicrhau bod safonau'n cael eu bodloni o ran yr iaith Gymraeg ar gyfer yr ymgynghoriad, sy'n parhau o ran y gymuned deithio.

14:38

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, one of my constituents has been waiting over 17 months for an operation at Morriston Hospital. In his reply to me on 3 June, the Deputy Minister for Health informed me that he had written to the chair of Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board to ask him to reply directly to me within 20 working days on the specifics of my constituent's case. I am still awaiting a reply—it was 20 June when he contacted me—from the health board. I've also written to the health Minister and the deputy Minister on three separate occasions to pursue this further. I would be grateful if you could raise this with the Ministers and help to facilitate a reply.

Weinidog, mae un o fy etholwyr wedi bod yn aros ers dros 17 mis am lawdriniaeth yn Ysbyty Treforys. Yn ei ateb imi ar 3 Mehefin, dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd wrthyf ei fod wedi ysgrifennu at gadeirydd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i ofyn iddo ymateb yn uniongyrchol i mi o fewn 20 diwrnod gwaith ynglŷn â manylion achos fy etholwr. Rwy'n dal i aros am ateb—cysylltodd â mi ar 20 Mehefin—gan y bwrdd iechyd. Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at y Gweinidog iechyd a'r Dirprwy Weinidog ar dri gwahanol achlysur i fynd ar drywydd hyn ymhellach. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech godi hyn gyda'r Gweinidogion a helpu i hwyluso ateb.

14:39

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This, of course, Russell George, is an operational matter for the Abertawe Bro Morgannwg health board, and it is—. As you have raised this in the Chamber today, of course, in terms of that operational response, which would be expected, this will be followed up.

Wrth gwrs, Russell George, mater gweithredol i fwrdd iechyd Abertawe Bro Morgannwg yw hwn, ac mae—. Gan eich bod wedi codi hyn yn y Siambr heddiw, wrth gwrs, o ran yr ymateb gweithredol hwnnw, a fyddai i'w ddisgwyl, caiff hyn ei ddilyn.

14:39

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Before we move to Stage 3 proceedings for the Local Government (Wales) Bill, I will suspend proceedings for 10 minutes. The bell will be rung five minutes before we reconvene. There will only be one bell, so I would encourage Members to return to the Chamber promptly please. Thank you.

Diolch, Weinidog. Cyn inni droi at drafodion Cyfnod 3 ar gyfer y Bil Llywodraeth Leol (Cymru), rwy'n mynd i atal y trafodion am 10 munud. Caiff y gloch ei chanu bum munud cyn inni ailymgynnull. Dim ond un gloch fydd, felly byddwn yn annog yr Aelodau i ddychwelyd i'r Siambr yn brydlon os gwelwch yn dda. Diolch.

*Ataliwyd y Cyfarfod Llawn am 14:39.*

*Plenary was suspended at 14:39.*

*Ailymgynullodd y Cynulliad am 14:49, gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.*

*The Assembly reconvened at 14:49, with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.*

14:49

## 3. Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) o dan Reol Sefydlog 26.44

## 3. Stage 3 Standing Order 26.44 Debate on the Local Government (Wales) Bill

Y Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Order. The next item on the agenda is the Stage 3 debate on the Local Government (Wales) Bill.

Trefn. Yr eitem nesaf ar yr agenda yw dadl Cyfnod 3 ynglŷn â'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru).

**Gr?p 1: Awdurdodau Lleol sy'n Uno'n Wirfoddol: Cynnwys y Cyhoedd (Gwelliannau 14, 26 a 27)**

**Group 1: Voluntary Mergers of Local Authorities: Public Involvement (Amendments 14, 26 and 27)**

14:49

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The first group of amendments relates to public involvement in voluntary mergers of local authorities. The lead amendment in this group is amendment 14. I call on Janet Finch-Saunders to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp cyntaf o welliannau yn ymwneud â chynnwys y cyhoedd mewn uno gwirfoddol awdurdodau lleol. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 14. Galwaf ar Janet Finch-Saunders i gynnig y prif welliant a siarad amdano, ynghyd â'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 14 (Janet Finch-Saunders).*

*Amendment 14 (Janet Finch-Saunders) moved.*

14:50

### Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I move amendment 14 in my name. Our amendment requires local authorities to publish a report on the consultation taken under subsection (1)(a) on the potential mergers of the relevant authorities. In the process of reforming local government, it is crucial that transparency and democracy are at the heart of every stage of development. Furthermore, it is imperative that any change is driven by local people and communities, and that any proposed change to the structure of local government takes into account the views of the people whom it serves. Our amendment will ensure that local authorities have a greater legitimate mandate to take forward such guidance. It strengthens the democratic process by which we, on these seats here, strongly feel that any merger process should be governed. We are therefore ready to support this amendment.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf welliant 14 yn fy enw i. Mae ein gwelliant yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad a gynhaliwyd o dan isadran (1)(a) ynglŷn â'r posibilrwydd o uno'r awdurdodau perthnasol. Yn y broses o ddiwygio llywodraeth leol, mae'n hanfodol bod tryloywder a democratiaeth wrth galon pob cam datblygu. Hefyd, mae'n hanfodol bod unrhyw newid yn cael ei sbarduno gan bobl a chymunedau lleol, a bod unrhyw newid arfaethedig i strwythur llywodraeth leol yn ystyried barn y bobl y mae'n eu gwasanaethu. Bydd ein gwelliant ni yn sicrhau bod gan awdurdodau lleol fwy o fandad dilys i ddatblygu canllawiau o'r fath. Mae'n cryfhau'r broses ddemocrataidd yr ydym ni, ar y seddi hyn yma, yn teimlo'n gryf y dylid ei defnyddio i reoli unrhyw broses uno. Felly, rydym yn barod i gefnogi'r gwelliant hwn.

Speaking to amendments 26 and 27, it is clear that the merger of two or more local authorities will undoubtedly have a profound effect on residents of all local authorities involved, and it is only right that they have a say on such a momentous change to the configuration of their local services. Amendment 26 calls for any merger of local authorities to be subject to a referendum of those authorities involved, so as to ensure that any reorganisation has the consent of the local communities it affects, along with the approval of the National Assembly for Wales, which I know we will come onto later in this debate.

Ynglŷn â gwelliannau 26 a 27, mae'n amlwg y bydd uno dau neu fwy o awdurdodau lleol yn ddi-os yn cael effaith fawr ar drigolion pob awdurdod lleol dan sylw, ac nid yw ond yn iawn eu bod yn cael dweud eu dweud am newid mor dyngedfennol i gyfluniad eu gwasanaethau lleol. Mae gwelliant 26 yn galw am i unrhyw uno awdurdodau lleol fod yn destun refferendwm gan yr awdurdodau dan sylw, er mwyn sicrhau bod unrhyw ad-drefnu'n cael caniatâd y cymunedau lleol y mae'n effeithio arnynt, ynghyd â chymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru; rwy'n gwybod y byddwn yn dod at hynny yn nes ymlaen yn y ddadl hon.

With the NHS in crisis and educational attainment sadly below the UK average, we feel that many people across Wales will think that now is not the time to implement a risky, expensive and centrally led reorganisation of our local authorities. The Welsh Labour Government has placed many of Wales's proud counties under threat without the consent of local people, causing much uncertainty to local services and jobs. Furthermore—and this is a concern I've raised many times in the Chamber—many people feel that too much goes on behind closed doors in local government, and, of course, after today's announcement with Cabinet reports, we hear that it is just as bad here in the Welsh Government.

Gan fod y GIG mewn argyfwng a chyrhaeddiad addysgol yn anffodus yn is na chyfartaledd y DU, rydym yn teimlo y bydd llawer o bobl ledled Cymru yn meddwl nad nawr yw'r amser i ad-drefnu ein hawdurdodau lleol mewn modd peryglus, drud, ac sy'n cael ei arwain yn ganolog. Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi rhoi llawer o siroedd balch Cymru o dan fygythiad heb ganiatâd pobl leol, gan achosi llawer o ansicrwydd i wasanaethau a swyddi lleol. Hefyd—ac mae hyn yn bryder yr wyf wedi'i godi droeon yn y Siambr—mae llawer o bobl yn teimlo bod gormod yn digwydd y tu ôl i ddrysau caeedig mewn llywodraeth leol, ac, wrth gwrs, ar ôl cyhoeddiad heddiw am adroddiadau'r Cabinet, rydym yn clywed bod pethau yn llawn cyn waethed yma yn Llywodraeth Cymru.

Our amendment here would change that, ensuring that any merger is put to local people via a referendum. Any merger would only go ahead if a majority of votes cast in each area is in favour, meaning the establishment of any new council will require the true support of the people it seeks to represent. Such a referendum would mean that justification would need to be offered to local people as to why mergers would benefit them, and this is something we highlighted earlier.

Byddai ein gwelliant yma yn newid hynny, gan sicrhau bod unrhyw uno yn cael ei gynnig i bobl leol mewn refferendwm. Er mwyn i unrhyw uno ddigwydd, byddai angen i fwyafrif y pleidleisiau a fwriwyd ym mhob ardal fod o'i blaid, sy'n golygu y byddai ar unrhyw gyngor newydd a sefydlir angen gwir gefnogaeth y bobl y mae'n bwriadu eu cynrychioli. Byddai refferendwm o'r fath yn golygu y byddai angen cynnig cyfiawnhad i bobl leol ynghylch pam y byddai uno o fudd iddynt, ac mae hyn yn rhywbeth yr ydym wedi tynnu sylw ato eisoes.

The Welsh Conservatives steadfastly oppose Labour's forced mergers, and we will continue to stand up for our proud communities the length and breadth of Wales. Where councils can work together, share services and save money, they have the full backing and support of Welsh Conservatives. However, ultimately, it is down to local communities to have a say in the delivery of their services. If council unification has the backing of local people, yes, of course they have our support too, but, as you will all know, we have long opposed Labour's marker-pen assault on our communities. They threaten great upheaval, less localised services and an attempt to banish many of Wales's proudest communities from the map altogether. Whilst we're certainly not committing to 22 councils across Wales, I have to correct the First Minister earlier—you were not at the press conference this morning, and I was, and I certainly didn't say that I don't know how many local authorities we are committed to. We are opposed to forced mergers, counties being torn away without local consent, and reorganisation without the consent of the people it represents. I know that the Minister will have something to say about the potential costs of referenda, and, before he does, I will say this: any politician in Wales expects the people of Wales to go out at local elections, parliamentary elections, Assembly elections and European elections, and of course many of you—us—will be expecting people to go out on May 6 and make their voices known on who will next govern Wales here in the National Assembly. However, when it comes to referenda, where people can have a say on the services that they deserve and they expect, you tend to feel that it's not worth while. Well, we feel that it is remiss and hypocritical of us not to expect that the people of Wales would want a democratic voice on this issue also. We've already had a flavour of what the Minister is thinking, and this is without a democratic mandate. I know many will have concerns about the effects of such major reform and upheaval on thousands of staff and on local communities having public services not only taken away, but centralised—the absolute opposite of local devolution. Therefore, we would hope that everyone in this Chamber will support this amendment.

Mae Ceidwadwyr Cymru yn gwrthwynebu uno gorfodol Llafur yn llwyr, a byddwn yn parhau i sefyll dros ein cymunedau balch ar hyd a lled Cymru. Pryd y gall cynghorau gydweithio, rhannu gwasanaethau ac arbed arian, mae ganddynt gefnogaeth lawn Ceidwadwyr Cymru. Fodd bynnag, yn y pen draw, mae'n rhaid i gymunedau lleol gael dweud eu dweud ynglŷn â sut y cyflenwir eu gwasanaethau. Os yw pobl leol o blaid uno cynghorau, wrth gwrs byddwn ninnau'n cefnogi hynny, ond, fel y gwyddoch i gyd, rydym wedi gwrthwynebu ymosodiad Llafur â phinnau marcio ar ein cymunedau ers amser maith. Maent yn bygwth llawer iawn o newid, llai o wasanaethau lleol ac ymgais i gael gwared ar lawer o gymunedau mwyaf balch Cymru oddi ar y map yn gyfan gwbl. Er nad ydym yn sicr, yn ymrwymo i 22 o gynghorau ledled Cymru, mae'n rhaid imi gywiro'r Prif Weinidog yn gynharach—nid oeddech yn y gynhadledd i'r wasg y bore yma, ond mi oeddwn i, ac yn sicr ni ddywedais nad wyf yn gwybod pa nifer o awdurdodau lleol yr ydym wedi ymrwymo iddo. Rydym yn gwrthwynebu uno gorfodol, rhwygo siroedd heb ganiatâd lleol, ac ad-drefnu heb ganiatâd y bobl y mae'n eu cynrychioli. Gwn y bydd gan y Gweinidog rywbeth i'w ddweud am gostau posibl refferenda, a, chyn iddo wneud hynny, rwyf am ddweud hyn: mae unrhyw wleidydd yng Nghymru yn disgwyl i bobl Cymru fynd allan yn ystod etholiadau lleol, etholiadau seneddol, etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau Ewropeaidd, ac wrth gwrs bydd llawer ohonoch chi—ohonom ni—yn disgwyl i bobl fynd allan ar 6 Mai a lleisio eu barn am bwy ddylai lywodraethu Cymru nesaf yma yn y Cynulliad Cenedlaethol. Fodd bynnag, o ran refferenda lle gall pobl ddweud eu dweud am y gwasanaethau y maent yn eu haeddu ac y maent yn eu disgwyl, rydych chi'n tueddu i deimlo nad yw'n werth chweil. Wel, rydym ni'n teimlo ei bod yn esgeulus ac yn rhagrithiol i ni beidio â disgwyl i bobl Cymru ddymuno cael llais democrataidd ar y mater hwn hefyd. Rydym eisoes wedi cael blas o'r hyn sydd ym meddwl y Gweinidog, ac nid oes mandad democrataidd i hyn. Rwy'n gwybod y bydd llawer yn pryderu am effeithiau y math hwn o ddiwygio sylfaenol a'r newid enfawr ar filoedd o staff ac ar gymunedau lleol nid yn unig o gael gwasanaethau cyhoeddus wedi'u cymryd oddi arnynt, ond eu gwneud yn ganolog hefyd—y gwrthwyneb llwyr i ddatganoli lleol. Felly, byddem yn gobeithio y bydd pawb yn y Siambr hon yn cefnogi'r gwelliant hwn.

14:55

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n siarad ar y Bil heddiw yn absenoldeb Rhodri Glyn Thomas, sydd wedi bod yng ngofal y Bil ar ran Plaid Cymru hyd yma, gan fod Rhodri Glyn ynghlwm â gwaith arall sydd ganddo, sef Pwyllgor y Rhanbarthau, draw ym Mrwsel. Wrth gwrs, mae popeth yr wyf yn ei wneud heddiw yn seiliedig ar waith Rhodri a Jocelyn Davies ar y pwyllgor, ac rwy'n ddiolchgar iddyn nhw am y gwaith craffu ar y Bil hyd yma.

I speak to the Bill today in the absence of Rhodri Glyn Thomas, who has been in charge of the Bill on behalf of Plaid Cymru to date, as Rhodri Glyn is undertaking other work on the Committee of the Regions in Brussels. Of course, everything that I do is based on Rhodri and Jocelyn Davies's work on the committee, and I am extremely grateful to them for their scrutiny work on the Bill to date.

Ar y gr?p yma o welliannau, bydd Plaid Cymru yn sicr yn derbyn y pwynt sydd yng ngwelliant 14 can y Ceidwadwyr, sef bod angen ymgynghori, ac r?m ni'n gweld hynny yn rhywbeth rhesymol, ond mae'n rhaid imi ddweud fy mod yn gwrthod yn llwyr y ddadl a roddwyd dros refferenda lleol ar y mater yma. Mae'r mater yma yn ymwneud â llywodraethu cenedl; mae'n ymwneud â chael y cydbwysedd yn iawn rhwng yr hyn sy'n cael ei benderfynu ar lefel leol a'r hyn sy'n cael ei benderfynu ar lefel genedlaethol. Fedrwch chi ddim caniatáu i ystyriaethau a materion lleol amharu ar y broses yna, a fedrwch chi ddim caniatáu i bethau sydd, efallai, o bwys mawr i bobl a thrigolion lleol am chwe mis neu flwyddyn benderfynu beth yw dyfodol llywodraeth leol am genhedlaeth yn yr ardal yna. Felly, byddwn ni'n gwrthod hyn. Rwy'n sylwi na roddodd y Ceidwadwyr unrhyw fath o refferendwm adeg ad-drefnu llywodraeth leol y tro diwethaf, ym 1994. Nid oedd unrhyw fath o ymgynghoriad, a dweud y gwir; nhw benderfynodd beth oedd y ffiniau a nhw yrrodd y broses yna drwodd.

On this group of amendments, Plaid Cymru will certainly accept the point in amendment 14 by the Conservatives that there needs to be consultation, and we see that as being reasonable, but I have to say that I entirely reject the case made for local referenda on these issues. This issue relates to the governance of a nation; it relates to getting the balance right between what is decided at a local level and what is decided at a national level. You cannot allow local considerations to interfere with that process, and neither can you allow things that are of huge importance to local people for perhaps six months or 12 months to decide upon the future of local government for a generation in a certain area. Therefore, we will reject this. I note that the Conservatives didn't propose any kind of referendum at the last local government reorganisation, in 1994. There was no consultation, if truth be told; they decided where the boundaries would lie and they pushed that process through.

Mae gan Plaid Cymru ddynesiad gwahanol i'r mater yma nag sydd gan y Llywodraeth bresennol, er bod rhai pethau yn gyffredin rhyngom ni, ond yr hyn allwn ni ddim ei ddisgwyl na'i dderbyn yw bod unrhyw blaid sydd o ddifrif yngl?n â llywodraeth leol yn mynd i mewn i'r etholiad nesaf heb fap, heb syniad a heb unrhyw fath o amcan o ran beth y maen nhw eisiau ei gyrraedd. Mae arnaf ofn fod yr hyn sydd gan y Ceidwadwyr heddiw yn awgrymu mai dyna yw'r peth—mae rhyw fath o guddio eu diffyg gweledigaeth ar gyfer llywodraeth leol yw'r syniad yma o yrru'r broses o refferenda lleol, ac ni fydd Plaid Cymru yn cefnogi hynny. Bydd gennym ni weledigaeth amgen a gwahanol, ond gweledigaeth sy'n seiliedig, yn sicr, ar yr hyn sy'n digwydd yn awr mewn llywodraeth leol. Felly, rwy'n gofyn i'r Cynulliad, ar bob cyfrif, dderbyn gwelliant 14 gan y Ceidwadwyr, ond i bleidleisio yn erbyn gwelliannau 26 a 27, gan fod y rhain, yn fy marn i, yn osgoi'r cwestiwn sydd gerbron y Cynulliad.

Plaid Cymru's approach to this issue differs from that of the current Government, even though we do have some things in common, but what we can't accept is that any party that is serious about local government would go into the next election without a map, without any ideas and without any sort of concept of where they want to reach. I do fear that what the Conservatives are proposing today does suggest that that is their position—they are hiding their lack of vision for local government by driving through this process of local referenda, and Plaid Cymru will not support that. We will have an alternative vision, but it will be a vision based, most certainly, on what is happening now in local government. Therefore, I urge the Assembly to accept the Conservatives' amendment 14, but to vote against amendments 26 and 27 because they, in my view, actually avoid the question we face as an Assembly.

14:58

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Can I start, for the whole of the Bill, by declaring I have a relevant interest as a City and County of Swansea councillor? In terms of this particular Bill, I just wanted to start off by setting out a general view on the Bill, which, I think, is an important Bill, but, alas, is taking the wrong direction. I think, in a sense, because we're doing this in this particular way, in terms of going for voluntary mergers first and then looking at a more wholesale and comprehensive approach after the Assembly elections, the Minister has effectively invited these amendments on local referenda, because, if you're going to do things piecemeal, then clearly people will then say you should be treating each one on its own merits and in that particular way.

A gaf i ddechrau, ar gyfer y Bil cyfan, drwy ddatgan bod gennyf fudd perthnasol fel un o gynghorwyr Dinas a Sir Abertawe? O ran y Bil penodol hwn, hoffwn ddechrau drwy nodi barn gyffredinol am y Bil, sydd, rwy'n meddwl, yn Fil pwysig, ond, gwaetha'r modd, yn mynd i'r cyfeiriad anghywir. Rwy'n credu, mewn ffordd, gan ein bod yn gwneud hyn yn y modd penodol hwn, o ran mynd am uno gwirfoddol yn gyntaf ac yna edrych ar agwedd fwy cyfannol a chynhwysfawr ar ôl etholiadau'r Cynulliad, bod y Gweinidog mewn gwirionedd wedi gwahodd y diwygiadau hyn ar refferenda lleol, oherwydd, os ydych yn mynd i wneud pethau fesul tipyn, yn amlwg bydd pobl yn dweud y dylech fod yn trin pob un yn ôl ei deilyngdod ei hun ac yn y ffordd benodol honno.

The Welsh Liberal Democrats won't be supporting amendments 26 and 27, because we feel, as Simon Thomas outlined, that this is the wrong way to go about this particular reorganisation. It seems to us that, yes, you do have to draw a line between what is down to national leadership and what is down to local determination. In this particular instance, it does seem to me that the Welsh Government and the Welsh Assembly should be determining the future shape of public services in Wales not just in terms of local councils, but all public services. I very much regret, in a way, that we are where we are, because it seems to me that if the Welsh Government had taken an inclusive approach right at the very start of this process when they set up the Williams commission, and actually involved all of the political parties not just in the terms of reference of that commission, but its membership, and actually involved us from the very beginning, we might not be where we are now in terms of debating a voluntary merger Bill and not having a clear picture of the way forward for how public services should be looking in Wales. It seems to me that, even with an election in six or seven months' time, we will still not have a clear view as to what exactly public services would look like and how they would be delivered in Wales, because of that failure to be inclusive at the very beginning.

Ni fydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi gwelliannau 26 a 27, oherwydd rydym yn teimlo, fel yr amlinellodd Simon Thomas, nad dyma'r ffordd iawn i gyflawni'r ad-drefnu penodol hwn. Mae'n ymddangos i ni bod yn rhaid ichi, yn wir, dynnu llinell rhwng yr hyn sy'n destun arweinyddiaeth genedlaethol a'r hyn sy'n destun penderfyniadau lleol. Yn yr achos penodol hwn, mae'n ymddangos i mi mai Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol ddylai benderfynu ar ffurf gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol, nid dim ond o ran cynghorau lleol, ond yr holl wasanaethau cyhoeddus. Rwy'n gresynu'n fawr, mewn ffordd, ein bod yn sefyllfa yr ydym ynddi, oherwydd mae'n ymddangos i mi, pe bai Llywodraeth Cymru wedi cymryd ymagwedd gynhwysol ar gychwyn cyntaf y broses hon pan oeddent yn sefydlu comisiwn Williams, ac wedi cynnwys pob un o'r pleidiau gwleidyddol nid dim ond yng nghylch gorchwyl y comisiwn hwnnw, ond yn ei aelodaeth, ac wedi ein cynnwys o'r cychwyn cyntaf, efallai na fyddem yn y sefyllfa yr ydym ni ynddi nawr, yn trafod Bil uno gwirfoddol heb ddarlun clir o'r ffordd ymlaen ar gyfer sut y dylai gwasanaethau cyhoeddus edrych yng Nghymru. Mae'n ymddangos i mi, hyd yn oed gydag etholiad ymhen chwech neu saith mis, na fydd gennym syniad clir o hyd ynglŷn â sut yn union y byddai gwasanaethau cyhoeddus yn edrych a sut y byddent yn cael eu darparu yng Nghymru, oherwydd y methiant hwnnw i fod yn gynhwysol ar y dechrau un.

I think that is a problem that this Bill does not address. Because of that lack of inclusivity and because of the way that we are now dealing with this, on a piecemeal basis, I have to question even the validity of why this Bill is in front of us today. The Minister invited local councils to put forward their proposals for voluntary merger; six councils did so, all of which were rejected by the Minister, for reasons that he gave at the time. But, clearly, we are now not going to get any further proposals for voluntary merger before the Assembly election and, following the Assembly election, we will then be involved in a process that may or may not lead to a wholesale reorganisation of local government in Wales, presumably without any local referenda. In that situation, it does seem to me that this Bill is no longer necessary and no longer needed for any purpose other than, in a sense, to save face for the Welsh Government. Therefore, unless this Bill is changed along the lines we've set out in our amendments here today, then clearly we will not be supporting it at Stage 4 next week.

Credaf fod hynny'n broblem nad yw'r Bil hwn yn rhoi sylw iddi. Oherwydd y diffyg cynhwysedd hwnnw ac oherwydd y ffordd yr ydym ni nawr yn ymdrin â hyn, yn dameidiog, mae'n rhaid imi hyd yn oed gwestiynu dilysrwydd pam mae'r Bil hwn o'n blaenau heddiw. Gwahoddodd y Gweinidog gynghorau lleol i gynnig eu cynigion ar gyfer uno gwirfoddol; gwnaeth chwe chyngor hynny, a chafodd pob un ohonynt ei wrthod gan y Gweinidog, am resymau a roddodd ar y pryd. Ond, yn amlwg, nid ydym nawr yn mynd i gael dim mwy o gynigion ar gyfer uno gwirfoddol cyn etholiad y Cynulliad ac, ar ôl etholiad y Cynulliad, byddwn wedyn yn cymryd rhan mewn proses a allai, o bosibl, arwain at ad-drefnu llywodraeth leol Cymru ar raddfa eang, yn ôl pob tebyg heb refferenda lleol. Yn y sefyllfa honno, nid yw'n ymddangos i mi fel bod angen y Bil hwn mwyach am unrhyw reswm heblaw, mewn ffordd, i arbed hunan-barch Llywodraeth Cymru. Felly, oni bai bod y Bil hwn yn cael ei newid mewn modd tebyg i'r hyn yr ydym wedi'i nodi yn ein gwelliannau yma heddiw, yn amlwg ni fyddwn yn ei gefnogi yng Nghyfnod 4 yr wythnos nesaf.

With regard to the amendments in front of us at this particular stage, the Welsh Liberal Democrats will be supporting amendment 14, and I hope the Government can, too. I think it's wholly right that, where you do have a voluntary merger process, if one should emerge, which I very much doubt, any consultation should be published before making an application so that everyone can see on what basis that application is being made, and can judge accordingly and scrutinise it as such.

Gyda golwg ar y gwelliannau sydd o'n blaenau ar y cam penodol hwn, bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi gwelliant 14, ac rwy'n gobeithio y gall y Llywodraeth wneud hynny hefyd. Rwy'n credu ei bod yn gwbl briodol, pan fo gennych broses o uno gwirfoddol, os daw un i'r amlwg, rhywbeth yr wyf yn ei amau'n fawr, y dylid cyhoeddi unrhyw ymgynghoriad cyn gwneud cais fel y gall pawb weld ar ba sail y mae'r cais hwnnw yn cael ei wneud, ac y gallant ei farnu yn unol â hynny a chraffu arno fel y cyfryw.

Janet Finch-Saunders is absolutely right in saying that this process of reorganisation is going to be a very costly one, whether it's done on a voluntary basis or whether it's done wholesale after the next Assembly elections. There are questions as to whether this is the right time to do it, when local government is facing such significant pressures and changes in terms of its own finances and further cuts down the line because of the changes to the budget coming through to the Welsh Assembly and the Welsh Government. So, the question then is: why are we going to add to that cost by introducing local referenda when they are not necessary? I think, for that reason, Deputy Presiding Officer, the Welsh Liberal Democrats will not be supporting 26 and 27, but I do hope we can pass 14.

Mae Janet Finch-Saunders yn llygad ei lle wrth ddweud bod y broses hon o ad-drefnu yn mynd i fod yn un gostus iawn, pa un a fydd yn digwydd ar sail wirfoddol ynteu ar raddfa eang ar ôl etholiadau nesaf y Cynulliad. Ceir cwestiynau ynghylch pa un ai dyma'r amser iawn i wneud hynny, pan fo llywodraeth leol yn wynebu pwysau a newidiadau mor sylweddol o ran eu cyllid eu hunain a thoriadau pellach yn nes ymlaen oherwydd y newidiadau i'r gyllideb sy'n dod drwodd i Gynulliad Cymru a Llywodraeth Cymru. Felly, y cwestiwn wedyn yw: pam ydym ni'n mynd i ychwanegu at y gost honno drwy gyflwyno refferenda lleol pan nad oes eu hangen? Rwy'n meddwl, am y rheswm hwnnw, Ddirprwy Lywydd, na fydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi 26 a 27, ond rwyf yn gobeithio y gallwn basio 14.

15:05

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

As this is the first time for me to speak during these Stage 3 proceedings, can I make a couple of general remarks at the beginning? I welcome the opportunity to consider the amendments to the Bill today, and I'd like to take the opportunity to remind Members that this Bill is a fundamental part of our local government reform agenda, enabling preparations to be made for local government mergers and reform. Can I place on record my thanks to the members of the Communities, Equality and Local Government Committee for their scrutiny of this Bill at Stages 1 and 2?

Gan mai hwn yw'r tro cyntaf imi siarad yn ystod y trafodion Cyfnod 3 hyn, a gaf i wneud un neu ddau o sylwadau cyffredinol i ddechrau? Rwy'n croesawu'r cyfle i ystyried y gwelliannau i'r Bil heddiw, a hoffwn achub ar y cyfle i atgoffa'r Aelodau bod y Bil hwn yn rhan sylfaenol o'n hagenda diwygio llywodraeth leol, a'i fod yn galluogi paratoadau ar gyfer uno a diwygio llywodraeth leol. A gaf i gofnodi fy niolch i aelodau'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol am eu gwaith craffu ar y Bil hwn yng Nghyfnod 1 a 2?

We believe that the amendments in this group are unnecessary. I have listened with great interest to the suggestion that we were tearing up the historic counties in Wales without any reference to the wider public. I don't remember any reference to the wider public in the early 1970s or, indeed, in the mid-1990s. Section 4 of the Bill already makes it clear that local authorities seeking to merge voluntarily must undertake full consultation as part of the application process. Furthermore, before an application can be approved, the Welsh Government must be satisfied that consultation has been undertaken in line with section 4(1) of the Bill. The prospectus issued last year to local authorities about voluntary merger required applicants to draw up a comprehensive consultation and engagement plan, and made clear that applications had to be supported with clear evidence of the consultation. The prospectus, of course, will have retrospective statutory effect as a result of section 5 of the Bill, so the Bill is already delivering the key points of amendment 14. As I promised when we considered the same amendment at Stage 2, in the event of a voluntary merger application, I will look to issue further guidance under section 5 of the Bill to ensure that authorities publish all of their consultation responses on their website.

Rydym ni'n credu bod y gwelliannau yn y grŵp hwn yn ddiangen. Rwyf wedi gwrando gyda diddordeb mawr ar yr awgrym ein bod yn rhwygo siroedd hanesyddol Cymru yn ddarnau heb gyfeiriad o gwbl at y cyhoedd yn gyffredinol. Nid wyf yn cofio unrhyw gyfeiriad at y cyhoedd yn gyffredinol ar ddechrau'r 1970au, nac, yn wir, yng nghanol yr 1990au. Mae Adran 4 y Bil eisoes yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i awdurdodau lleol sy'n bwriadu uno'n wirfoddol ymgynghori'n llawn yn rhan o'r broses ymgeisio. Yn ogystal, cyn y gellir cymeradwyo cais, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn fodlon bod ymgynghori wedi ei wneud yn unol ag adran 4(1) y Bil. Roedd y prosbectws a gyhoeddwyd y llynedd i awdurdodau lleol ynghylch uno yn mynnu bod ymgeiswyr gwirfoddol yn llunio cynllun cynhwysfawr ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu, ac yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid ategu ceisiadau â thystiolaeth glir o'r ymgynghoriad. Bydd gan y prosbectws, wrth gwrs, effaith statudol ôl-weithredol o ganlyniad i adran 5 y Bil, felly mae'r Bil eisoes yn cyflawni pwyntiau allweddol gwelliant 14. Fel yr addewais pan oeddem yn ystyried yr un gwelliant yng Nghyfnod 2, pe byddai cais am uno gwirfoddol, byddaf yn ceisio cyhoeddi canllawiau pellach o dan adran 5 y Bil i sicrhau bod yr awdurdodau yn cyhoeddi eu holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar eu gwefan.

Irrespective of amendments 26 and 27, I very much agree with what has been said by the spokespeople for Plaid Cymru and for the Liberal Democrats. Indeed, there are already very exacting consultation requirements placed upon a local authority seeking to merge voluntarily, and they are set out in section 4(1)(a) of the Bill. It is already late in the process set out in last year's prospectus, but we remain open to receiving an application for voluntary merger, and we would have the option of using the regulation-making power in section 3(1) to postpone the application date if need be.

Heb ystyried gwelliannau 26 a 27, rwy'n cytuno'n llwyr â'r hyn a ddywedodd llefarwyr Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Yn wir, mae gofynion ymgynghori manwl iawn eisoes yn cael eu gosod ar awdurdod lleol sy'n ceisio uno yn wirfoddol, ac maent wedi'u nodi yn adran 4(1)(a) y Bil. Mae eisoes yn hwyr yn y broses a amlinellwyd ym mhrosbectws y llynedd, ond rydym yn parhau i fod yn agored i dderbyn cais am uno gwirfoddol, a byddai gennym y dewis o ddefnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 3(1) i ohirio dyddiad y cais pe byddai angen.

Amendment 27, in addition, does not set out sufficient detail regarding the supporting regulations which would have to be made by the Assembly to ensure that a referendum was conducted according to the standards normally established for such events. There's nothing, for example, about campaign periods or spending limits—all of which would have to be put in place. And, of course, there are administrative costs for such referenda—at least £100,000 in a small authority and up to about £400,000 in the largest, based on the 2011 Assembly powers referendum.

Nid yw gwelliant 27, ychwaith, yn nodi digon o fanylion ynghylch y rheoliadau ategol y byddai'n rhaid i'r Cynulliad eu gwneud i sicrhau bod refferendwm yn cael ei gynnal yn unol â'r safonau a sefydlir fel arfer ar gyfer digwyddiadau o'r fath. Nid oes unrhyw beth, er enghraifft, ynghylch cyfnodau ymgyrchu na chyfyngiadau ar wario—byddai angen rhoi hyn i gyd ar waith. Ac, wrth gwrs, mae refferenda o'r fath yn creu costau gweinyddol—o leiaf £100,000 mewn awdurdod bach a hyd at tua £400,000 yn y rhai mwyaf, yn seiliedig ar refferendwm pwerau'r Cynulliad yn 2011.

But, introducing a requirement for a referendum at this very late stage would be totally unexpected and quite unfair for any would-be applicants. The practicalities of having to organise such referenda would effectively kill off any remaining prospect of voluntary mergers. As I say, the Bill, Deputy Presiding Officer, already provides for thorough consultation.

Ond, byddai cyflwyno gofyniad ar gyfer refferendwm mor hwyr â hyn yn gwbl annisgwyl ac yn eithaf annheg i unrhyw ddarpar ymgeiswyr. Byddai'r agweddau ymarferol ar orfod trefnu refferenda o'r fath, i bob diben, yn lladd unrhyw obaith a fyddai'n weddill o uno gwirfoddol. Fel y dywedais, mae'r Bil, Ddirprwy Lywydd, eisoes yn darparu ar gyfer ymgynghori trylwyr.

15:06

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Janet Finch-Saunders to reply.

Janet Finch-Saunders i ymateb.

15:06

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd like to thank the Members for their contributions here today, but it is obvious here today, although our amendments do not get support, that there is a consensus on the fact that there is complete disarray in how the Minister is going about local government reform. We see this very much as a way to improve this, and I would still urge the Chamber to consider empowering the people of Wales to have a say on how they want local government reform to go forward. Thank you.

Hoffwn ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau yma heddiw, ond mae'n amlwg yma heddiw, er nad yw ein gwelliannau'n cael cefnogaeth, bod consensws ynglŷn â'r ffaith bod anhrefn llwyr yn y ffordd y mae'r Gweinidog yn mynd ati i ddiwygio llywodraeth leol. Rydym yn bendant yn gweld hyn fel ffordd i wella hyn, a byddwn yn dal i annog y Siambr i ystyried rhoi grym i bobl Cymru i ddweud eu dweud ar sut yr hoffent i'w llywodraeth leol gael ei diwygio. Diolch.

15:06

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 14 be agreed to. Does any Member object? There is objection. We will have an electronic vote. Open the vote. [Interruption.] I'll keep it open until we resolve—. Huw, you have voted, even if your panel doesn't demonstrate it, as you have. [Interruption.] Wait. It'll be open until we resolve the problem. Yes, you now have voted. Close the vote. The voted in favour 27. The voted against 27. In accordance with the relevant Standing Order, I vote against the amendment which consequently falls.

Y cwestiwn yw ein bod yn cytuno â gwelliant 14. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. [Torri ar draws.] Rwyf am ei chadw ar agor tan inni ddatrys—. Huw, rydych chi wedi pleidleisio, er nad yw eich panel yn dangos eich bod wedi gwneud hynny. [Torri ar draws.] Arhoswch. Bydd ar agor tan inni ddatrys y broblem. Ydych, rydych nawr wedi pleidleisio. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Yn unol â'r Rheol Sefydlog berthnasol, rwyf fi'n pleidleisio yn erbyn y gwelliant, felly mae'n methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 14: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 14 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order No. 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 14

Result of the vote on amendment 14

### Gr?p 2: Awdurdodau Lleol sy'n Uno'n Wirfoddol: Gweithdrefnau'r Cynulliad (Gwelliannau 1, 7 a 10)

### Group 2: Voluntary Mergers of Local Authorities: Assembly Procedures (Amendments 1, 7 and 10)

15:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The next group of amendments relates to Assembly procedures for provisions in relation to voluntary mergers. The lead amendment in this group is amendment 1, and I call on Peter Black to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â gweithdrefnau'r Cynulliad ar gyfer darpariaethau sy'n ymwneud ag uno gwirfoddol. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 1, a galwaf ar Peter Black i gynnig y prif welliant a siarad amdano, ynghyd â'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 1 (Peter Black) [R].*

*Amendment 1 (Peter Black) [R] moved.*

15:08 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In terms of this particular Bill, this is possibly the third reorganisation of local government in 40-odd years, and I think it's important that that reorganisation is a settled one and one that lasts for some time. It does seem to me that the Bill that we are discussing at the moment will enable some voluntary mergers to take place with undue haste, without ensuring there is the proper consent of the entire Assembly, or a consensus of the entire Assembly in terms of agreeing what the direction of that reorganisation of local government should be. And that's why we've tabled these amendments, following a recommendation from the Constitutional and Legislative Affairs Committee that the negative procedure should apply to any future guidance issued under the relevant sections of the Bill.

O ran y Bil penodol hwn, efallai mai dyma'r trydydd ad-drefnu llywodraeth leol mewn tua 40 mlynedd, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig bod yr ad-drefnu hwnnw yn un sefydlog sy'n para am gryn amser. Mae'n ymddangos i mi y bydd y Bil yr ydym yn ei drafod ar hyn o bryd yn galluogi rhai cynghorau i uno'n wirfoddol yn rhy frysiog, heb sicrhau caniatâd priodol gan y Cynulliad cyfan, neu gonsensws gan y Cynulliad cyfan o ran cytuno ar gyfeiriad priodol yr ad-drefnu llywodraeth leol dan sylw. A dyna pam yr ydym wedi cyflwyno'r gwelliannau hyn, yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylid defnyddio'r weithdrefn negyddol ar gyfer unrhyw ganllawiau a gyhoeddir yn y dyfodol o dan yr adrannau perthnasol yn y Bil.

I think it's important that any full reorganisation should wait until after the May 2016 elections, and at that point, whatever happens, it will need a full majority within this Assembly. My concern is that the rushed timetables that are in this particular Bill could enable voluntary mergers to take place without that full participation, and put us in a situation whereby any full consideration after the May 2016 elections will be pre-empted by some of those voluntary arrangements. Therefore, it is desirable that, if authorities are going to merge voluntarily, as opposed to being told what to do by this institution after May 2016, that should not happen in isolation of a proper consensus in this Chamber. That's why I think that having the procedures in place whereby those voluntary measures meet our full consent is absolutely crucial, and why it's important therefore that all the secondary legislation around this should come to this Chamber for approval. That's why, therefore, I hope that the Chamber can support these particular amendments.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig y dylai unrhyw ad-drefnu llawn aros tan ar ôl etholiadau Mai 2016, ac ar yr adeg honno, beth bynnag sy'n digwydd, y bydd arno angen mwyafrif llawn o fewn y Cynulliad hwn. Fy mhryder i yw y gallai'r amserlenni brysiog sydd yn y Bil penodol hwn alluogi uno gwirfoddol i ddigwydd heb y cyfranogiad llawn hwnnw, a'n rhoi mewn sefyllfa lle y bydd rhai o'r trefniadau gwirfoddol hynny'n achub y blaen ar unrhyw ystyriaeth lawn ar ôl etholiadau Mai 2016. Felly, mae'n ddymunol, os yw awdurdodau yn mynd i uno'n wirfoddol, yn hytrach na bod y sefydliad hwn yn dweud wrthynt beth i'w wneud ar ôl mis Mai 2016, na ddylai hynny ddigwydd heb gonsensws priodol yn y Siambr hon. Dyna pam rwy'n meddwl ei bod yn gwbl hanfodol i sefydlu'r gweithdrefnau sy'n golygu cael ein caniatâd llawn ar gyfer y mesurau gwirfoddol hynny, a pham mae'n bwysig, felly, y dylai'r holl is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â hyn ddod i'r Siambr hon i'w chymeradwyo. Dyna pam, felly, yr wyf yn gobeithio y gall y Siambr gefnogi'r gwelliannau penodol hyn.

15:10 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I rise to support amendment 1. One of the main concerns I and many others in this Chamber have had recently is the Welsh Labour Government's efforts to stride forward alone on the subject of local government reorganisation. At Stage 2, the Minister cited the incredibly tight timetable for voluntary mergers as his excuse for not supporting our amendment. For such radical and effective changes as a potential merger of local authorities and the guidance thereof, true and proper consideration must be given to it by all representatives here in the National Assembly for Wales. Certainly, we would hope for this to be the case, if and when it comes to full reorganisation of local government in the next Assembly, and therefore, we see no difference when it comes to voluntary mergers. Approval by the National Assembly for Wales's Chamber supports our goal and these amendments are to ensure that any mergers between local authorities have a local democratic mandate.

Rwy'n codi i gefnogi gwelliant 1. Un o'r prif bryderon i mi a llawer o bobl eraill yn y Siambr hon yn ddiweddar yw ymdrechion Llywodraeth Lafur Cymru i frasgamu ymlaen ar ei phen ei hun o ran ad-drefnu llywodraeth leol. Ar Gam 2, dywedodd y Gweinidog mai'r amserlen hynod dynn ar gyfer uno gwirfoddol oedd ei esgus am beidio â chefnogi ein gwelliant. I wneud newidiadau mor radical ac effeithiol ag uniad posibl awdurdodau lleol a'r canllawiau ar gyfer hynny, rhaid i'r holl gynrychiolwyr yma yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ystyried y peth yn gywir a phriodol. Yn sicr, byddem yn gobeithio y byddai hyn yn digwydd, os a phan gaiff llywodraeth leol ei had-drefnu'n llawn yn y Cynulliad nesaf, ac felly, ni welwn unrhyw wahaniaeth o ran uno gwirfoddol. Mae cymeradwyaeth gan Siambr Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cefnogi ein nod a bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod unrhyw uno rhwng awdurdodau lleol wedi cael mandad democrataidd lleol.

I move amendment 15—. No. Okay, I close that one. Thank you.

Cynigiaf welliant 15—. Na. Iawn, rwy'n cau'r un hwnnw. Diolch.

15:12 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Deputy Presiding Officer, we heard these arguments put forward by Peter Black at Stage 2, of course. We maintain that the Bill already provides for detailed Assembly scrutiny and that the provisions already on the face of the Bill are appropriate. We've not yet received further proposals for voluntary merger. The Bill sets a deadline of 30 November for the submission of formal applications, and I'm prepared to stick with that for the time being. However, I must make it clear that the only way that we could give effect to a proposal at this late stage would be if we adhered to the procedures set out in the Bill as it stands.

Ddirprwy Lywydd, clywsom Peter Black yn cyflwyno'r dadleuon hyn ar Gam 2, wrth gwrs. Rydym yn dal i ddweud bod y Bil eisoes yn darparu ar gyfer craffu manwl gan y Cynulliad a bod y darpariaethau sydd eisoes ar wyneb y Bil yn briodol. Nid ydym wedi cael cynigion pellach ar gyfer uno gwirfoddol eto. Mae'r Bil yn gosod terfyn amser o 30 Tachwedd ar gyfer cyflwyno ceisiadau ffurfiol, ac rwy'n barod i gadw at hynny am y tro. Fodd bynnag, rhaid imi ei gwneud yn glir mai'r unig ffordd y gallem roi cynnig ar waith mor hwyr â hyn fyddai pe baem yn cadw at y gweithdrefnau a nodir yn y Bil fel y mae.

In relation to amendment 1, I issued guidance on voluntary mergers in September 2014, and any further voluntary merger proposals will be done on the basis of that guidance. Amendment 1 fails to distinguish between future guidance and the guidance already issued to local authorities. So, if amendment 1 is approved, it would create uncertainty about the status of the guidance that was issued last year and introduce delay whilst that guidance was considered by the Assembly. In practice, this would make it impossible to deliver any voluntary mergers that local authorities may propose within the timeframe of this Assembly.

O ran gwelliant 1, cyhoeddais ganllawiau ar uno gwirfoddol ym mis Medi 2014, a gwneir unrhyw gynigion pellach ar gyfer uno gwirfoddol pellach ar sail y canllawiau hynny. Mae gwelliant 1 yn methu â gwahaniaethu rhwng canllawiau yn y dyfodol a'r canllawiau a gyhoeddwyd eisoes i awdurdodau lleol. Felly, pe câi gwelliant 1 ei gymeradwyo, byddai'n creu ansicrwydd ynghylch statws y canllawiau a gyhoeddwyd y llynedd ac yn cyflwyno oedi tra bo'r Cynulliad yn ystyried y canllawiau hynny. Yn ymarferol, byddai hyn yn ei gwneud yn amhosibl cyflawni unrhyw uno gwirfoddol y gallai awdurdodau lleol ei gynnig o fewn amserlen y Cynulliad hwn.

Turning to amendment 7, the power in section 3(1) for Welsh Ministers to make regulations to amend the date for the submission of voluntary merger applications is an essential contingency power in the event that Royal Assent is delayed. The regulation-making power enables no more than a technical change, it does not affect the principles or the policy around voluntary mergers. Such a change does not, therefore, warrant the affirmative procedure. Applying no procedure to regulations under section 3(1) enables the Welsh Ministers to move swiftly to give local authorities a little more time to present the case on behalf of local people. Furthermore, regulations under section 3(1) to change the 30 November 2015 date would need to be made before that date. The regulations could only be laid after Royal Assent, which, subject to the will of the Assembly, is anticipated around the middle of November. There would therefore be insufficient time to process regulations via an Assembly procedure.

I droi at welliant 7, mae'r pŵer yn adran 3(1) i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio dyddiad cyflwyno ceisiadau uno gwirfoddol yn bŵer wrth gefn hanfodol rhag ofn y bydd oedi cyn cael Cydsyniad Brenhinol. Yr unig beth y mae'r pŵer i wneud rheoliadau'n ei alluogi yw newid technegol, nid yw'n effeithio ar yr egwyddorion na'r polisi sy'n ymwneud ag uno gwirfoddol. Nid yw newid o'r fath, felly, yn cyfiawnhau defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol. Mae peidio â defnyddio gweithdrefn ar gyfer rheoliadau o dan adran 3(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i symud yn gyflym i roi ychydig mwy o amser i awdurdodau lleol i gyflwyno'r achos ar ran pobl leol. Ar ben hynny, byddai angen gwneud rheoliadau o dan adran 3(1) i newid y dyddiad 30 Tachwedd 2015 cyn y dyddiad hwnnw. Dim ond ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol y gellid gosod y rheoliadau, ac, yn unol ag ewyllys y Cynulliad, rhagwelir hynny tua chanol mis Tachwedd. Felly ni fyddai digon o amser i brosesu rheoliadau drwy weithdrefn y Cynulliad.

Amendment 10 is an unnecessary amendment. Voluntary merger regulations under section 6 of the Bill are subject to the Assembly's affirmative procedure, and the Assembly's Standing Orders already provide for the relevant committee, or, indeed, any committee, to consider and report upon a statutory instrument that is subject to the affirmative procedure before it is considered by the Assembly in Plenary. Furthermore, this amendment would remove the discretion awarded to the Assembly under Standing Order 27.7 to consider the instrument without committee consideration. As it stands, the Bill provides for merger regulations to require the consent of the Assembly and already enables the Assembly to undertake such scrutiny of merger regulations as the Assembly itself considers appropriate. I therefore urge Members not to support the amendments in this group.

Mae gwelliant 10 yn welliant diangen. Mae rheoliadau uno gwirfoddol o dan adran 6 y Bil yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Cynulliad, ac mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad eisoes yn darparu ar gyfer y pwyllgor perthnasol, neu, yn wir, unrhyw bwyllgor, i ystyried ac adrodd ar offeryn statudol sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol cyn iddo gael ei ystyried gan y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn. Ar ben hynny, byddai'r gwelliant hwn yn cael gwared ar y disgresiwn a ddyfarnwyd i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 27.7 i ystyried yr offeryn heb ystyriaeth pwyllgor. Fel y mae, mae'r Bil yn darparu ar gyfer rheoliadau uno i fynnu cydsyniad y Cynulliad ac mae eisoes yn galluogi'r Cynulliad i graffu ar reoliadau uno mewn modd y mae'r Cynulliad ei hun yn ei ystyried yn briodol. Rwyf felly'n annog Aelodau i beidio â chefnogi'r gwelliannau yn y grŵp hwn.

15:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black to reply.

Peter Black i ymateb.

15:15 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I think we should really establish a rule that, just because an amendment has been considered at Stage 2 that does not make the arguments behind it any less valid. Yes, it was considered at Stage 2, and the arguments that I made then are equally valid now as they were then. The Minister talks about the amendment generating a lack of certainty about the way forward, but I think the lack of certainty really lies—and the Minister talks about these amendments not affecting the policy—around what exactly the policy of the Welsh Government is in terms of where we are going for public service delivery and local government reorganisation. We have yet to see the draft Bill that the Minister's promised. He's published a map, but that doesn't seem to have the consent of his party out in the country. We're in a situation where, actually, what we're being told now is that we can't have proper and due consideration by this Assembly because that may delay what the Minister wants to do. Well, that isn't exactly an argument for good government, and it's certainly not an argument for good and relevant scrutiny of Government and ministerial decisions.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n meddwl y dylem, yn wir, sefydlu rheol i ddweud, dim ond oherwydd bod gwelliant wedi ei ystyried yng Nghyfnod 2, nad yw hynny'n gwneud y dadleuon y tu ôl iddo'n llai dilys. Do, cafodd ei ystyried yng Nghyfnod 2, ac mae'r dadleuon a wneuthum bryd hynny yr un mor ddilys yn awr ag yr oeddent bryd hynny. Mae'r Gweinidog yn sôn am y gwelliant yn creu diffyg sicrwydd ynghylch y ffordd ymlaen, ond rwy'n meddwl bod y diffyg sicrwydd mewn gwirionedd—ac mae'r Gweinidog yn dweud nad yw'r gwelliannau hyn yn effeithio ar y polisi—yn ymwneud â beth yn union yw polisi Llywodraeth Cymru o ran i ble'r ydym ni'n mynd â darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ac ad-drefnu llywodraeth leol. Nid ydym eto wedi gweld y Bil drafft y mae'r Gweinidog wedi'i addo. Mae wedi cyhoeddi map, ond nid yw'n ymddangos bod hwnnw wedi cael caniatâd ei blaid allan yn y wlad. Rydym mewn sefyllfa lle, mewn gwirionedd, yr hyn sy'n cael ei ddweud wrthym nawr yw na all y Cynulliad hwn roi ystyriaeth briodol a dyledus gan y gallai hynny arafu'r hyn yr hoffai'r Gweinidog ei wneud. Wel, nid yw hynny mewn gwirionedd yn ddadl dros lywodraethu da, ac yn sicr nid yw'n ddadl dros graffu da a pherthnasol ar benderfyniadau'r Llywodraeth a gweinidogion.

It seems to me that, without proper scrutiny, and without proper consideration by this Assembly, we get bad government and bad decisions. That's why I think it's so important that we make sure that any regulations and guidance published under this particular Bill have guaranteed scrutiny in this Chamber so that we can actually determine it. The Minister says there is insufficient time to do it if we go along with these amendments. Well, if there is insufficient time, that's not our fault; that's the Minister's fault for tabling this issue so late and leaving us in the situation whereby we are trying to rush through a Bill to save the face of this Welsh Government so that they can proceed and, if necessary, do voluntary mergers if those voluntary mergers come forward.

Mae'n ymddangos i mi, heb graffu priodol, a heb ystyriaeth briodol gan y Cynulliad hwn, ein bod yn cael llywodraeth wael a phenderfyniadau gwael. Dyna pam yr wyf yn credu ei bod mor bwysig ein bod yn sicrhau bod unrhyw reoliadau a chanllawiau a gyhoeddir o dan y Bil penodol hwn wedi cael sicrwydd o graffu yn y Siambr hon fel y gallwn wneud penderfyniad gwirioneddol am y peth. Mae'r Gweinidog yn dweud na fydd digon o amser i wneud hynny os ydym yn cytuno â'r gwelliannau hyn. Wel, os nad oes digon o amser, nid ein bai ni yw hynny; bai'r Gweinidog ydyw am gyflwyno'r mater hwn mor hwyr a'n gadael ni mewn sefyllfa o geisio rhuthro Bil drwodd i arbed hunan-barch Llywodraeth Cymru fel y gallant fwrw ymlaen ac, os oes angen, gwneud uniadau gwirfoddol os caiff yr uniadau gwirfoddol hynny eu cyflwyno.

I think, Deputy Presiding Officer, that, if we're going to have due consideration, that due consideration should include proper scrutiny by this Chamber, and it should therefore include the application of the procedures recommended by the Constitutional and Legislative Affairs Committee for these particular elements of ministerial discretion. I think that, if that doesn't happen, clearly, this Bill is not fit for purpose.

Rwy'n meddwl, Ddirprwy Lywydd, os ydym yn mynd i gael ystyriaeth briodol, y dylai ystyriaeth briodol gynnwys craffu priodol gan y Siambr hon, ac y dylai felly gynnwys defnyddio'r gweithdrefnau a argymhellir gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar gyfer yr elfennau penodol hyn ar ddisgresiwn gweinidogol. Credaf, os na fydd hynny'n digwydd, yn amlwg, nad yw'r Bil hwn yn addas i'w ddiben.

15:17

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The question is that amendment 1 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. There's a problem now with Mark Drakeford's—. I do have everyone else as having successfully voted. Right, your vote is now recorded. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27. I cast my vote against the amendment, which consequently falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 1 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Mae yna broblem yn awr gyda Mark Drakeford—. Rwy'n gweld bod pawb arall wedi llwyddo i bleidleisio. Iawn, mae eich pleidlais nawr wedi'i chofnodi. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, felly mae'n methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 1: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 1 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Llywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1

Result of the vote on amendment 1

### Gr?p 3: Awdurdodau Lleol sy'n Uno'n Wirfoddol: Adfywio Economaidd a'r Defnydd o'r Gymraeg (Gwelliannau 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38 a 39)

### Group 3: Voluntary Mergers of Local Authorities: Economic Regeneration and Use of the Welsh Language (Amendments 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38 and 39)

15:18

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The third group of amendments relates to voluntary mergers and economic regeneration and the use of the Welsh language. The lead amendment in this group is amendment 32. I call on Simon Thomas to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r trydydd grŵp o welliannau yn ymwneud ag uno gwirfoddol ac adfywio economaidd a defnyddio'r Gymraeg. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 32. Galwaf ar Simon Thomas i gynnig y prif welliant a siarad amdano, ynghyd â'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 32 (Simon Thomas).*

*Amendment 32 (Simon Thomas) moved.*

15:18 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Fel r?ch chi'n ei ddweud, nod y gyfres hon o welliannau yw gofalu bod unrhyw gynigion yn hybu adfywiad economaidd cyfres o ardaloedd a enwir yn y gwelliannau a hefyd y defnydd o'r iaith Gymraeg. Maent yn cynrychioli cyfraniad a wnaed gan Rhodri Glyn Thomas yn ystod Cyfnod 2 ac yn adeiladu ar y gwaith a wnaethpwyd ganddo yn y pwyllgor. Ein nod wrth gyflwyno'r gwelliannau hyn yw sicrhau bod unrhyw gynsail a osodir gan uno gwirfoddol yn ateb anghenion y Gymraeg o fewn yr economi, o fewn gweinyddiaeth awdurdodau lleol ac, yn fwy cyffredinol, o fewn y cymunedau yn y prif ardaloedd a enwir. Mae hyn yn bwysicach fyth os yw'r Bil am osod cynsail neu'n paratoi'r ffordd ar gyfer uno gorfodol maes o law.

Thank you, Deputy Presiding Officer. As you said, the aim in this series of amendments is to ensure that any proposals promote the economic regeneration of a series of areas named in the amendments and also the use of the Welsh language. They represent a contribution made by Rhodri Glyn Thomas during Stage 2 and build on the work that he did at the Committee Stage. Our aim in introducing these amendments is to ensure that any precedent in terms of voluntary mergers meets the needs of the Welsh language in terms of the economy, the administration of local authorities and more generally within the communities within the principal areas named. This is even more important if the Bill is to set a precedent or put in place compulsory mergers in the future.

Mae wyth gwelliant wedi'u cysylltu, felly mae yna welliant sy'n gosod y polisi a gwelliannau atodol sy'n gorfodi'r Gweinidog i adrodd ar gynnydd o dan y polisi. Y rheswm am enwi'r rhestr hon o brif awdurdodau lleol ar hyd arfordir y gorllewin yw oherwydd bod hynny'n adlewyrchu amcan Plaid Cymru ers tro i greu rhyw fath o endid neu endidau economaidd dros yr ardal honno a ddylai sicrhau bod yr economi yn hyfyw ac yn bodoli ar hyd arfordir y gorllewin, ac yn nod allweddol i unrhyw ddiwygio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Dylai'r economi a gwaith awdurdodau cyhoeddus fynd law yn llaw gymaint ag y bo modd. Llywodraeth leol yn arbennig yw'r cyfrwng allweddol i adfywio'r cymunedau penodol hyn a thua llywodraeth leol y mae nifer o gymunedau'n troi. Trwy weithio mewn partneriaeth ac arwain partneriaeth a busnesau gyda phrifysgolion a'n hawdurdodau lleol, mae gennym enghreifftiau sy'n datblygu o hyd: fforwm economaidd y canolbarth, o dan gadeiryddiaeth Ellen ap Gwynn, a bwrdd uchelgais economaidd gogledd Cymru, o dan gadeiryddiaeth Dilwyn Roberts, er enghraifft—y ddau ohonyn nhw'n arweinwyr Plaid Cymru ar gynghorau lleol.

There are eight linked amendments, so there's one amendment that sets out the policy and others that actually require the Minister to report on progress against the policy. The reason for naming this list of principal local authorities across the west coast is that it reflects Plaid Cymru's aim for some time now to create some sort of entity or entities for that area in economic terms that would ensure that the economy is viable and that it exists along the west coast, and a key aim of any reform of public services. The economy and the work of public authorities should go hand in hand as much as possible. Local government is the key tool in regenerating these particular communities and many of these communities turn to local government in this regard. In working in partnership and leading partnerships with businesses, universities and our local authorities, we do have some examples that continually develop: the mid Wales economic forum, chaired by Ellen ap Gwynn, and the north Wales ambition board, chaired by Dilwyn Roberts, for example—both of them Plaid Cymru leaders on local authorities.

Mae'r Llywodraeth bresennol hefyd wedi cydnabod dimensiwn arfordir y gorllewin drwy'r gwaith comisiynu ar gymunedau Cymraeg eu hiaith a'r economi, ond ni chafwyd fawr ddim dilyniant hyd yma, ac rwy'n meddwl yn nhermau'r ardaloedd twf yn nyffryn Teifi, er enghraifft, lle bues i ddoe yn trafod â rhai busnesau am y cyfleoedd i ddatblygu busnes a datblygu'r Gymraeg law yn llaw. Mae angen cefnogaeth ar unrhyw brif awdurdod o ran y gwaith hwnnw, ac felly mae angen paratoi, ym marn Plaid Cymru, yn y Mesur hwn, ar gyfer y math hwnnw o gydweithredu. Bydd ein gwelliannau'n rhoi hyblygrwydd i Weinidogion gymryd y camau priodol i gefnogi'r Gymraeg a'r economi, ac felly nid ydyn nhw'n clymu dwylo'n ormodol yn ein barn ni.

The current Government has also recognised the west coast dimension by the commissioning work on Welsh-speaking communities and the economy, but there has been no follow-up to that work as yet, and I'm thinking about growth areas in the Teifi valley, where, yesterday, I discussed with some of the businesses there the opportunity to develop businesses and the Welsh language hand in hand. Any principal authority needs support in terms of that work and, therefore, we need to prepare, in Plaid Cymru's opinion, in this Bill, for that kind of collaboration. Our amendments would provide flexibility to Ministers to take the appropriate steps to support the Welsh language and the economy, and, therefore, they don't tie their hands excessively in our view.

Trwy enwi'r prif ardaloedd, nid ?m ni'n eithrio gweddill Cymru o'n cynlluniau ar gyfer yr economi yn ehangach a'r iaith Gymraeg. Yn amlwg, mae arnom angen atebion yn siroedd Conwy a Dinbych yn benodol, a pholisi ieithyddol hefyd i weddill y genedl. Ac yng nghyswllt y gogledd, wrth gwrs, r?m ni'n hynod ymwybodol o'r dimensiwn dwyrain-gorllewin ar draws y rhanbarth hwnnw, a choridor yr A55 yn arbennig.

By naming the principal authorities, we are not exempting the rest of Wales from our proposals in terms of the wider economy and the Welsh language. Clearly, we need solutions in Conwy and Denbighshire specifically, and a language policy for the rest of the nation, too. And in relation to north Wales, of course, we are very aware of the east-west dimension across that area, particularly in relation to the A55 corridor.

Mae Plaid Cymru hefyd yn gweld bod dyfodol y Gymraeg ynghlwm wrth y modd y mae'r de yn datblygu a phatrwm dinas-ranbarthau, lle mae nifer fawr o siaradwyr Cymraeg yn byw bellach. Ond nid y Bil arbennig hwn o reidrwydd yw'r cyfrwng i gyfrannu syniadau a pholisïau ehangach ar adfywio ieithyddol ac economaidd. Buasem yn gweithredu ymhellach ac yn wahanol i sicrhau dyfodol yr iaith ym meysydd tai, cynllunio ac addysg, ond, wrth gwrs, mae'r rheini y tu fas i gwmpas y Mesur.

Plaid Cymru also believes that the future of the Welsh language is related to the development of south Wales and the pattern of city regions, where very many Welsh speakers now live. But, this particular Bill is not necessarily the forum for introducing wider policies on economic and language regeneration. We would take other steps to ensure the future of the language in terms of housing, planning and education, but, of course, those areas are outwith the scope of this particular Bill.

Ond, o ran beth sydd yn y Mesur yma, rydym eisiau gosod nod i'r Llywodraeth nesaf i anelu ato. Dyna bwrpas y gwelliannau hyn. I fod yn glir, mae gwelliannau 32, 34, 36 a 38 yn ymgorffori ein cynigion, a bydd gwelliannau 33, 35, 37 a 39 yn mynnu, fel y dywedais i, fod Gweinidogion yn adrodd yn ôl ar eu gwaith yn gweithredu'r cynigion hynny. Felly, mae yna welliannau mewn parau, fel petai, i'w hystyried gyda'i gilydd.

But, given what's included within the scope of this Bill, we do want to set an objective for the next Government to aim towards. That is the purpose of these amendments. To be clear, amendments 32, 34, 36 and 38 incorporate our proposals, and amendments 33, 35, 37 and 39 insist, as I said, that Ministers should report back on their work implementing those proposals. So, there are paired amendments, as it were, to be considered together.

Rwy'n gobeithio bod y Cynulliad o leiaf yn cefnogi'r egwyddor rydym yn ceisio ei gwireddu yn y gwelliannau hyn, ac rwy'n edrych ymlaen hefyd at glywed erbyn hyn beth yw barn y Llywodraeth ar y cynigion hyn ar ôl beth ddigwyddodd yng Nghyfnod 2 yn y pwyllgor.

I very much hope that the Assembly will at least support the principle that we're trying to promote in these amendments, and I also look forward to hearing what the Government's view is by now on these proposals, following what happened in Stage 2 in committee.

15:23

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Liberal Democrats are happy to support these amendments. I think it's important, given the prospective map that the Welsh Minister has already published, that those authorities that are currently working through the medium of Welsh, or have significant use of the Welsh language in terms of both their day-to-day administration and in terms of how they promote their economic regeneration—that that commitment is not watered down by their being amalgamated with other authorities that don't have the same commitment. I think it's important, therefore, that that duty should be placed on Welsh Ministers to ensure that any mergers of such authorities reflect the need for these particular policies, and for that reason, we are happy to support the amendments.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn hapus i gefnogi'r gwelliannau hyn. Rwy'n credu ei bod yn bwysig, o ystyried y darpar fap y mae Gweinidog y Gymraeg eisoes wedi'i gyhoeddi, bod yr awdurdodau hynny sydd ar hyn o bryd yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, neu sy'n defnyddio llawer o'r Gymraeg yn eu gweinyddu o ddydd i ddydd ac wrth hyrwyddo eu hadfywiad economaidd—nad yw'r ymrwymiad hwnnw'n cael ei wanhau gan eu huno ag awdurdodau eraill nad oes ganddynt yr un ymrwymiad. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig, felly, y dylai'r ddyletswydd honno gael ei rhoi ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod unrhyw uno rhwng awdurdodau o'r fath yn adlewyrchu'r angen am y polisïau penodol hyn, ac am y rheswm hwnnw, rydym yn hapus i gefnogi'r gwelliannau.

15:23

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n deall y pwynt sy'n cael ei wneud gan yr Aelod, ac rydym wedi trafod gyda Rhodri Glyn Thomas yn y pwyllgor. Mae'n bwysig ein bod yn ffeindio'r ffordd orau i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y gweithle yn y cynghorau newydd, ac rwy'n hapus i weithio gyda phleidiau eraill, er enghraifft Plaid Cymru, yn y dyfodol i sicrhau hynny.

I understand the point that was made by the Member, and we have discussed with Rhodri Glyn Thomas in the committee. It is important that we find the best way to ensure that the Welsh language is used in the workplace in the new councils, and I'm very happy to work with other parties, for example Plaid Cymru, in the future to ensure that.

However, I think, from our point of view, we believe that what is proposed by these specific amendments is already covered, and indeed caught by existing Welsh language standards. For example, the Assembly's approval of the Welsh Language Standards (No. 1) Regulations 2015 means the standards regime has statutory effect. So, we have a statutory regime that makes these amendments unnecessary.

Fodd bynnag, rwy'n meddwl, o'n safbwynt ni, ein bod yn credu bod yr hyn a gynigir gan y diwygiadau penodol hyn eisoes wedi cael sylw, ac yn wir wedi ei ddal gan y safonau presennol ar gyfer y Gymraeg. Er enghraifft, mae cymeradwyaeth y Cynulliad i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn golygu bod gan y gyfundrefn safonau effaith statudol. Felly, mae gennym drefn statudol sy'n golygu bod y diwygiadau hyn yn ddiangen.

We are rolling out the Welsh language standards and they are being implemented in respect of the Welsh Ministers and the 22 existing local authorities. The Welsh Language Commissioner issued draft compliance notices to the Welsh Ministers and the local authorities on 22 June, the consultation period ended on 20 July, and I understand the commissioner will issue final compliance notices tomorrow. The Welsh Ministers and local authorities will have at least six months to comply with the standards.

Rydym yn cyflwyno safonau'r Gymraeg ac maent yn cael eu gweithredu gan Weinidogion Cymru a'r 22 awdurdod lleol presennol. Cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg hysbysiadau cydymffurfio drafft i Weinidogion Cymru a'r awdurdodau lleol ar 22 Mehefin, daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 20 Gorffennaf, ac rwyf ar ddeall y bydd y comisiynydd yn cyflwyno hysbysiadau cydymffurfio terfynol yfory. Bydd gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol o leiaf chwe mis i gydymffurfio â'r safonau.

The requirements placed on the Welsh Ministers by amendments 32, 34, 36 and 38 are very similar to the policy-making standards that the Welsh Language Commissioner is likely to impose on Welsh Ministers. Standards 88, 89 and 90 require the Welsh Ministers to consider the effects of any policy decision on the Welsh language. The commissioner will, of course, also be imposing promotion standards on local authorities, set out in standards 145 and 146. So, by the time we could be considering any voluntary merger regulations, both Welsh Ministers and local authorities will already be applying standards imposed by the commissioner. In addition to this, any merger regulations made by the Welsh Ministers will need to be accompanied by a Welsh language impact assessment, which will be supported by information obtained by the assessments made by local authorities as part of their applications for voluntary merger.

Mae'r gofynion a osodir ar Weinidogion Cymru gan welliannau 32, 34, 36 a 38 yn debyg iawn i'r safonau llunio polisi y mae Comisiynydd y Gymraeg yn debygol o'u gosod ar Weinidogion Cymru. Mae safonau 88, 89 a 90 yn mynnu bod Gweinidogion Cymru yn ystyried effeithiau unrhyw benderfyniad polisi ar y Gymraeg. Bydd y comisiynydd, wrth gwrs, hefyd yn gosod safonau hyrwyddo ar awdurdodau lleol, a nodir yn safonau 145 a 146. Felly, erbyn yr amser y gallem fod yn ystyried unrhyw reoliadau uno gwirfoddol, bydd Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol eisoes yn gweithredu safonau a osodwyd gan y comisiynydd. Yn ogystal â hyn, bydd angen asesiad o effaith y Gymraeg i gyd-fynd ag unrhyw reoliadau uno a wneir gan Weinidogion Cymru, a hwnnw'n seiliedig ar wybodaeth a gafwyd yn yr asesiadau a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol yn rhan o'u ceisiadau am uno gwirfoddol.

When drafting the Welsh language standards, we deliberately avoided naming any specific areas in the regulations, because we see there are important linguistic considerations relevant to all areas of Wales. For example, in addition to the authorities named in the amendment, there are communities with a high percentage of Welsh speakers in Denbighshire, Conwy and Neath Port Talbot and a high number of Welsh speakers in Cardiff and other urban centres. The policy-making standards applied by the commissioner will be relevant to every decision involving every area. Local authorities will, of course, be subject to those standards. The obligation will apply to the existing authorities and, in due course, to the new authorities.

Wrth ddrafftio safonau'r Gymraeg, fe wnaethom yn fwriadol osgoi enwi unrhyw ardaloedd penodol yn y rheoliadau, oherwydd ein bod yn gweld bod ystyriaethau ieithyddol pwysig yn berthnasol i bob rhan o Gymru. Er enghraifft, yn ogystal â'r awdurdodau a enwir yn y gwelliant, ceir cymunedau â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych, Conwy a Chastell-nedd Port Talbot a nifer fawr o siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd ac mewn canolfannau trefol eraill. Bydd y safonau llunio polisi a osodir gan y comisiynydd yn berthnasol i bob penderfyniad ac yn ymwneud â phob ardal. Bydd awdurdodau lleol, wrth gwrs, yn ddarostyngedig i'r safonau hynny. Bydd y rhwymedigaeth yn berthnasol i'r awdurdodau sydd eisoes yn bodoli a, maes o law, yr awdurdodau newydd.

The danger of amendments 33, 35, 37 and 39 is that they could undermine the regime introduced by the Welsh Language (Wales) Measure 2011 since they cut across and, therefore, undermine the statutory role of the Welsh Language Commissioner. That role, of course, includes monitoring and enforcing the implementation of Welsh language standards in respect of Welsh Ministers and local authorities. These bodies will be under duties to report on their compliance with standards to the commissioner. The danger is that these amendments would introduce a parallel regime that would confuse and duplicate effort.

Perygl gwelliannau 33, 35, 37 a 39 yw y gallent danseilio'r drefn a gyflwynwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gan eu bod yn torri ar draws swyddogaeth statudol Comisiynydd y Gymraeg ac, felly, yn ei thanseilio. Mae'r swyddogaeth honno, wrth gwrs, yn cynnwys monitro a gorfodi safonau'r Gymraeg ar gyfer Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol. Bydd y cyrff hyn o dan ddyletswyddau i lunio adroddiadau ar eu cydymffurfiad â safonau i'r comisiynydd. Y perygl yw y byddai'r gwelliannau hyn yn cyflwyno trefn gyfochrog a fyddai'n drysu ac yn dyblygu ymdrechion.

The reference in amendment 32 to promotion of economic regeneration is also unnecessary in this context. We support businesses, growth and jobs right across Wales. Highlighting in legislation particular areas of Wales is not consistent with this approach. The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 places Welsh Ministers under a duty to carry out sustainable development, i.e.

Mae'r cyfeiriad yng ngwelliant 32 at hybu adfywio economaidd hefyd yn ddiangen yn y cyd-destun hwn. Rydym yn cefnogi busnesau, twf a swyddi ledled Cymru. Nid yw tynnu sylw mewn deddfwriaeth at ardaloedd penodol o Gymru yn gyson â'r ymagwedd hon. Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflawni datblygu cynaliadwy, h.y.

‘improving the economic, social, environmental and cultural well-being of Wales’.

'gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru’.

So, Welsh Ministers will have to consider such issues by virtue of the duties in that Act.

Felly, bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru ystyried materion o'r fath yn rhinwedd y dyletswyddau yn y Ddeddf honno.

While we support the principles that lie behind these amendments, we believe they are unnecessary and may cut across and undermine the standards regime that will already be in place by the time merger regulations will be considered.

Er ein bod yn cefnogi'r egwyddorion sydd y tu ôl i'r gwelliannau hyn, rydym yn credu eu bod yn ddiangen ac y gallent dorri ar draws, a thanseilio, y gyfundrefn safonau a fydd eisoes ar waith erbyn i'r rheoliadau uno gael eu hystyried.

15:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Simon Thomas to reply.

Simon Thomas i ymateb.

15:28 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd, a diolch I Peter Black a’r Gweinidog am ymateb i’r gwelliannau. Rwy’n meddwl bod Peter Black wedi gwneud pwynt pwysig—mae’r gwelliannau yn ceisio adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn cael ei gyflawni gan awdurdodau lleol. Rydym ni’n cydnabod gwaith ardderchog Cyngor Gwynedd dros y blynyddoedd, wrth gwrs, o dan wahanol arweiniad, I sicrhau bod y weinyddiaeth fewnol yn digwydd yn y Gymraeg. Yn awr, mae Ceredigion a sir Gâr yn symud yn bellach I lawr y sbectrwm yna yn ogystal. Un o beryglon unrhyw fath o gyfuno awdurdodau, boed hynny yn wirfoddol neu beidio, yw eich bod chi’n colli ffocws ar rai o’r pethau rydych chi wedi eu hennill yn y gorffennol. Ceisio crisialu a gwneud yn si?r o’r cynnydd yw’r hyn r?m ni’n ceisio’I wneud yn y gwelliannau hyn.

Thank you, Deputy Presiding Officer, and I thank Peter Black and the Minister for responding to the amendments. I think Peter Black made an important point—the amendments do try to build on what’s already being achieved by local authorities. We recognise the excellent work by Gwynedd Council over the years, of course, under different leadership, to ensure that internal administration takes place through the medium of Welsh. Now, Ceredigion and Carmarthenshire are moving further along that spectrum also. One of the dangers of any kind of merger, be that voluntary or not, is that you lose a focus on some of the gains that you made in the past. Trying to encapsulate the progress is what we’re endeavouring to do with these amendments.

I think the Minister is correct, in a sense, that some of these amendments do—not replicate, but they do follow a similar pattern to the standards that the commissioner would be using to guide her decision making around the work of the Assembly. But I do think they bring an extra focus and this is what we’ve tried to do here. There is a focus on Welsh language development that could be lost in any kind of local government reorganisation. There is also geographical focus, which is why we have named authorities here—current authorities, at least. There’s a geographical focus that really builds those communities. We find that to be useful, and I don’t think it is enough to rely on the sometimes cumbersome bureaucracy that commissioners can bring, with all the best will in the world, to this, rather than putting that political imperative in the system that actually drives change. Therefore, I wish the Assembly to vote on these amendments.

Rwy'n meddwl bod y Gweinidog yn gywir, mewn ffordd, bod rhai o'r gwelliannau hyn—ddim yn dyblygu, ond maent yn dilyn patrwm tebyg i'r safonau y byddai'r comisiynydd yn eu defnyddio i arwain ei phenderfyniad ynglŷn â gwaith y Cynulliad. Ond rwyf yn meddwl eu bod yn dod â phwyslais ychwanegol a dyma beth yr ydym wedi ceisio ei wneud yn y fan yma. Mae yma bwyslais ar ddatblygu’r Gymraeg y gellid ei golli mewn unrhyw fath o ad-drefnu llywodraeth leol. Ceir pwyslais daearyddol hefyd, a dyna pam yr ydym wedi enwi awdurdodau yn y fan yma—awdurdodau presennol, o leiaf. Mae pwyslais daearyddol sydd wir yn adeiladu’r cymunedau hynny. Rydym yn gweld hynny’n ddefnyddiol, ac nid wyf yn meddwl ei bod yn ddigon dibynnu ar y fiwrocratiaeth feichus a all ddod gyda chomisiynwyr, gyda'r ewyllys gorau yn y byd, yn hyn o beth, yn hytrach na rhoi’r gorchymyn gwleidyddol hwnnw yn y system sydd mewn gwirionedd yn sbarduno newid. Felly, hoffwn i'r Cynulliad bleidleisio ar y gwelliannau hyn.

15:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 32 is not agreed, amendment 33 falls. The question is that amendment 32 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26. There voted against 27. There was an abstention. Therefore, the amendment falls.

Oni chytunir ar welliant 32, bydd gwelliant 33 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 32 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Roedd un wedi ymatal. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 32: O blaid 26, Yn erbyn 27, Ymatal 1.*

*Amendment 32 not agreed: For 26, Against 27, Abstain 1.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 32 | Result of the vote on amendment 32

*Methodd gwelliant 33.* | *Amendment 33 fell.*

15:30

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Simon Thomas, amendment 34. | Simon Thomas, gwelliant 34.

*Cynigiwyd gwelliant 34 (Simon Thomas).* | *Amendment 34 (Simon Thomas) moved.*

15:30

**Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig. | Move.

15:30

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 34 is not agreed, then amendment 35 falls. The question is that amendment 34 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 25. There voted against 28. There was one abstention. Therefore, that amendment falls.

Oni chytunir ar welliant 34, bydd gwelliant 35 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 34 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 25 o blaid. Pleidleisiodd 28 yn erbyn. Roedd un wedi ymatal. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 34: O blaid 25, Yn erbyn 28, Ymatal 1.* | *Amendment 34 not agreed: For 25, Against 28, Abstain 1.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 34 | Result of the vote on amendment 34

*Methodd gwelliant 35.* | *Amendment 35 fell.*

15:31

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Simon Thomas, amendment 36. | Simon Thomas, gwelliant 36.

*Cynigiwyd gwelliant 36 (Simon Thomas).* | *Amendment 36 (Simon Thomas) moved.*

15:31

**Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig. | Move.

15:31

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 36 is not agreed, then amendment 37 falls. The question is that amendment 36 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26. There voted against 27. There was one abstention. Therefore, that amendment falls.

Oni chytunir ar welliant 36, bydd gwelliant 37 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 36 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Roedd un wedi ymatal. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 36: O blaid 26, Yn erbyn 27, Ymatal 1.* | *Amendment 36 not agreed: For 26, Against 27, Abstain 1.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 36 | Result of the vote on amendment 36

*Methodd gwelliant 37.* | *Amendment 37 fell.*

15:31

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Simon Thomas, amendment 38. | Simon Thomas, gwelliant 38.

*Cynigiwyd gwelliant 38 (Simon Thomas).* | *Amendment 38 (Simon Thomas) moved.*

15:31 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

15:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 38 is not agreed, then amendment 39 falls. The question is that amendment 38 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26. There voted against 27. There was one abstention. Therefore, that amendment falls.

Oni chytunir ar welliant 38, bydd gwelliant 39 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 38 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Roedd un wedi ymatal. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 38: O blaid 26, Yn erbyn 27, Ymatal 1.*

*Amendment 38 not agreed: For 26, Against 27, Abstain 1.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 38

Result of the vote on amendment 38

*Methodd gwelliant 39.*

*Amendment 39 fell.*

15:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Janet Finch-Saunders, amendment 26. You just move.

Janet Finch-Saunders, gwelliant 26. Dim ond cynnig ydych chi.

*Cynigiwyd gwelliant 26 (Janet Finch-Saunders).*

*Amendment 26 (Janet Finch Saunders) moved.*

15:32 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

15:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 26 is not agreed, then amendment 27 falls. The question is that amendment 26 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 13. There voted against 41. Therefore, amendment 26 falls.

Oni chytunir ar welliant 26, bydd gwelliant 27 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 26 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 13 o blaid. Pleidleisiodd 41 yn erbyn. Felly, mae gwelliant 26 yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 26: O blaid 13, Yn erbyn 41, Ymatal 0.*

*Amendment 26 not agreed: For 13, Against 41, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 26

Result of the vote on amendment 26

*Methodd gwelliant 27.*

*Amendment 27 fell.*

## Gr?p 4: Diwygiadau i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Gwelliannau 15 ac 16)

## Group 4: Amendments to the Public Audit (Wales) Act 2004 (Amendments 15 and 16)

15:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The fourth group of amendments relates to the Public Audit (Wales) Act 2004. The lead amendment in this group is amendment 15. I call on Janet Finch-Saunders to move and speak to the lead amendment and the other amendment in the group.

Mae'r pedwerydd grŵp o welliannau yn ymwneud â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 15. Galwaf ar Janet Finch-Saunders i gynnig y prif welliant a siarad amdano, ynghyd â'r gwelliant arall yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 15 (Janet Finch-Saunders).*

*Amendment 15 (Janet Finch-Saunders) moved.*

15:33 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I move amendment 15 and 16 in my name. Amendment 15 puts forward committee recommendation four and amends the Public Audit (Wales) Act 2004 to add shadow authorities to the list of local government bodies whose accounts are subject to audit by the Auditor General for Wales. In evidence provided to the committee, the Auditor General for Wales himself said that the shadow authorities will need to spend public money and they will need to spend it effectively. It would be appropriate to have specific provision for regulations to provide for the audit of their accounts. He suggested the amending of the public audit Act would be the best way of doing this and our amendment puts this in place.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf welliant 15 ac 16 yn fy enw i. Mae gwelliant 15 yn cyflwyno argymhelliad pedwar y pwyllgor ac yn diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i ychwanegu awdurdodau cysgodol at y rhestr o gyrff llywodraeth leol y mae eu cyfrifon yn destun archwiliad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mewn tystiolaeth i'r pwyllgor, dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei hun y bydd angen i'r awdurdodau cysgodol wario arian cyhoeddus ac y bydd angen iddynt ei wario'n effeithiol. Byddai'n briodol cael darpariaeth benodol ar gyfer rheoliadau i ddarparu ar gyfer archwilio eu cyfrifon. Awgrymodd mai diwygio'r Ddeddf archwilio cyhoeddus fyddai'r ffordd orau o wneud hyn ac mae ein gwelliant yn cyflawni hyn.

Amendment 16 puts forward committee recommendation five and amends the Public Audit (Wales) Act 2004. This amendment will ensure that there is sufficient time for the preparation, the publication and the closure of any merging authorities' accounts. In evidence provided to the committee, the Auditor General for Wales and the committee itself shared concerns that the UK Government's early closure timetable for local government accounts will be challenging for auditors and authorities if such provisions were adopted in Wales. I believe adopting this committee recommendation would be the best way of alleviating any such challenges. As with any level of Government, the Welsh Conservatives support fully, and are committed to, openness, transparency, financial probity and accountability throughout, and by ensuring that the accounts of shadow authorities are subject to audit by the Auditor General for Wales, the public of Wales can have further confidence that, where they have supported a merger between local authorities, the process for this is undertaken in an accountable way, with proper spend, and proper scrutiny, of taxpayers' money. I move.

Mae gwelliant 16 yn cyflwyno argymhelliad pump y pwyllgor ac yn diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Bydd y diwygiad hwn yn sicrhau bod digon o amser i baratoi, cyhoeddi a chau cyfrifon unrhyw awdurdodau sy'n uno. Mewn tystiolaeth i'r pwyllgor, rhannodd Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r pwyllgor ei hun bryderon y bydd amserlen cau cynnar Llywodraeth y DU ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol yn heriol i archwilwyr ac awdurdodau pe byddai darpariaethau o'r fath yn cael eu mabwysiadu yng Nghymru. Rwy'n credu mai mabwysiadu argymhelliad y pwyllgor hwn fyddai'r ffordd orau o liniaru unrhyw heriau o'r fath. Fel gydag unrhyw lefel o Lywodraeth, mae Ceidwadwyr Cymru yn cefnogi'n llwyr, ac wedi ymrwymo i, ddidwylledd, tryloywder, cywirdeb ariannol ac atebolrwydd ym mhopeth, a thrwy sicrhau bod cyfrifon awdurdodau cysgodol yn destun archwiliad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, gall cyhoedd Cymru fod yn fwy hyderus, pan eu bod wedi cefnogi uno rhwng awdurdodau lleol, bod y broses ar gyfer hyn yn cael ei gwneud mewn ffordd atebol, gan wario arian y trethdalwyr yn briodol a chraffu ar hynny'n briodol. Rwyf yn cynnig.

15:35 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Welsh Liberal Democrats are happy to support these amendments, which we think are essential to ensure that we get that transparency and accountability. This is a recommendation of the committee that scrutinised this particular Bill, and the committee was, obviously, concerned that this was dealt with, and I think it's right, therefore, that the Minister takes note of what the committee has recommended.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn hapus i gefnogi'r gwelliannau hyn; rydym yn meddwl eu bod yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn cael y tryloywder a'r atebolrwydd hwnnw. Mae hwn yn un o argymhellion y pwyllgor a fu'n craffu ar y Bil penodol hwn, ac roedd y pwyllgor, yn amlwg, yn awyddus i hyn gael sylw, ac rwy'n credu ei bod yn iawn, felly, bod y Gweinidog yn cymryd sylw o'r hyn y mae'r pwyllgor wedi'i argymell.

15:35 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I acknowledge that amendment 15 comes from a suggestion made in the Communities, Equality and Local Government Committee's Stage 1 report, but I remain of the view that these amendments are not necessary.

Rwy'n cydnabod bod gwelliant 15 yn dod o awgrym a wnaethpwyd yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, ond rwy'n dal i gredu nad yw'r gwelliannau hyn yn angenrheidiol.

This Bill does not, itself, establish shadow authorities. Those will be achieved through voluntary merger regulations, or, for the main merger programme, by provision in the second Bill, to be introduced after the Assembly elections. Should there be any voluntary mergers, section 10 of the Bill already enables merger regulations to make changes to existing legislation, should that prove necessary. The second Bill will include detailed provision as to the functions of the shadow authorities, including the need for preparing accounts to reflect their limited financial activity. Of course, it is important that there are appropriate governance controls in place for shadow authorities. However, that will be addressed in any merger regulations, or the second Bill.

Nid yw'r Bil hwn, ynddo'i hun, yn sefydlu awdurdodau cysgodol. Cyflawnir y rheini drwy gyfrwng rheoliadau uno gwirfoddol, neu, ar gyfer y brif raglen uno, yn unol â darpariaeth yn yr ail Fil, a gyflwynir ar ôl etholiadau'r Cynulliad. Pe byddai unrhyw uno gwirfoddol, mae adran 10 y Bil eisoes yn galluogi rheoliadau uno i wneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol, pe byddai angen. Bydd yr ail Fil yn cynnwys darpariaeth fanwl ynghylch swyddogaethau'r awdurdodau cysgodol, gan gynnwys yr angen i baratoi cyfrifon i adlewyrchu eu gweithgarwch ariannol cyfyngedig. Wrth gwrs, mae'n bwysig bod rheolyddion llywodraethu priodol ar waith ar gyfer awdurdodau cysgodol. Fodd bynnag, rhoddir sylw i hynny mewn unrhyw reoliadau uno, neu yn yr ail Fil.

In relation to amendment 16, I fully expect merging authorities to continue to prepare accounts on existing arrangements. The existing regulations already allow for some flexibility around timings of the preparation and publication of merging authorities' financial accounts, if required. We are consulting on proposed changes to the accounts and audit regulations in Wales, which propose the introduction of an earlier timetable for the preparation and publication of accounts. The proposals take account of the mergers, and suggest that the introduction of this earlier timetable for preparing accounts should not be implemented for unitary authorities until 2020-21. The proposals do, however, suggest bringing forward a timetable for the publication of accounts to 2018-19, and we will consider responses to that consultation in due course.

Ynglŷn â gwelliant 16, rwy'n disgwyl yn llwyr i awdurdodau sy'n uno barhau i baratoi cyfrifon ar y trefniadau presennol. Mae'r rheoliadau presennol eisoes yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd o gwmpas amseru'r gwaith o baratoi a chyhoeddi cyfrifon ariannol awdurdodau sy'n uno, os bydd angen. Rydym yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau cyfrifon ac archwilio yng Nghymru, sy'n cynnig cyflwyno amserlen gynharach ar gyfer paratoi a chyhoeddi cyfrifon. Mae'r cynigion yn ystyried yr uno, ac yn awgrymu na ddylid cyflwyno'r amserlen gynharach hon ar gyfer paratoi cyfrifon mewn awdurdodau unedol tan 2020-21. Mae'r cynigion, fodd bynnag, yn awgrymu cyflwyno amserlen ar gyfer cyhoeddi cyfrifon hyd at 2018-19, a byddwn yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw maes o law.

So, these amendments are unnecessary, and I would therefore urge Members not to support them.

Felly, mae'r diwygiadau hyn yn ddiangen, a byddwn felly'n annog yr Aelodau i beidio â'u cefnogi.

15:37

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Janet Finch-Saunders to reply.

Janet Finch-Saunders i ymateb.

15:37

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Thank you, Minister.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Diolch, Weinidog.

Strangely enough, at Stage 2, the main objection raised to our proposed amendment was raised by Mike Hedges AM to this amendment. He stated that,

Yn rhyfedd iawn, yng Nghyfnod 2, daeth y prif wrthwynebiad i'n gwelliant arfaethedig gan Mike Hedges AC i'r gwelliant hwn. Dywedodd,

'shadow authorities don't spend much money.'

'nid yw awdurdodau cysgodol yn gwario llawer o arian.'

We find that a very typically lazy view of Welsh Labour in Government. The amount of money being spent here is not the point; it is still taxpayers' money—

Rydym yn gweld hynny'n olwg nodweddiadol o ddiog ar Lafur Cymru yn y Llywodraeth. Nid faint o arian sy'n cael ei wario yma yw'r pwynt; arian trethdalwyr ydyw yn y pen draw—

15:38

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

15:38

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues]—and it should equally be subject to audit.

[Yn parhau]—a dylai fod yn destun archwiliad yn yr un modd.

15:38 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Janet, are you going to give way to the Member you mentioned?

Janet, a ydych chi'n mynd i ildio i'r Aelod a grybwyllwyd gennych?

15:38 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I didn't say they didn't spend much money; what I actually said was that any expenditure by them would be picked up, because they'd be collecting the money from the major authorities currently in existence, and they wouldn't be a levying body, so it would already be audited as part of the predecessor councils.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Wnes i ddim dweud nad oeddent yn gwario llawer o arian; yr hyn a ddywedais mewn gwirionedd oedd y byddai unrhyw wariant ganddynt yn cael ei nodi, oherwydd byddent yn casglu'r arian gan y prif awdurdodau a fyddai'n bodoli ar y pryd, ac ni fyddent yn gorff codi ardollau, felly byddai eisoes yn cael ei archwilio yn rhan o'r cynghorau rhagflaenol.

15:38 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I would just say, with all due respect: read the committee minutes.

Hoffwn ddweud, gyda phob parch: darllenwch gofnodion y pwyllgor.

Our amendment here is to ensure that shadow authorities are included in the list of local government bodies whose accounts are routinely subject to audit. This is not for ad hoc, one-off inspections; this amendment also comes from a recommendation by the Auditor General for Wales. I move.

Mae ein gwelliant yma i sicrhau bod awdurdodau cysgodol wedi'u cynnwys ar y rhestr o gyrff llywodraeth leol y mae eu cyfrifon yn cael eu harchwilio'n rheolaidd. Nid yw hyn ar gyfer arolygiadau ad hoc, untro; mae'r gwelliant hwn hefyd yn dod o argymhelliad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Rwy'n cynnig.

15:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 15 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27. I cast my vote against the amendment, which consequently falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 15 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 15: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 15 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Llywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 15

Result of the vote on amendment 15

15:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Janet Finch-Saunders, amendment 16.

Janet Finch-Saunders, gwelliant 16.

*Cynigiwyd gwelliant 16 (Janet Finch-Saunders).*

*Amendment 16 (Janet Finch-Saunders) moved.*

15:39 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I move.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n cynnig.

15:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 16 be agreed. Does any Member object? [Objection.] An electronic vote. Open the vote. Has everyone voted who wants to vote? Okay; everyone now has voted. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27. Once again, I cast my vote against the amendment, which consequently falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 16 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. A yw pawb wedi pleidleisio sydd eisiau pleidleisio? Iawn; mae pawb bellach wedi pleidleisio. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Unwaith eto, rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 16: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 16 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Llywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 16

Result of the vote on amendment 16

### Gr?p 5: Awdurdodau Lleol sy'n Uno'n Wirfoddol: Cylch Etholiadau (Gwelliant 17)

### Group 5: Voluntary Mergers of Local Authorities: Cycle of Elections (Amendment 17)

15:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The fifth group of amendments relates to voluntary mergers and cycle of elections. The only amendment in this group is amendment 17. I call on Janet Finch-Saunders to move and speak to the amendment.

Mae'r pumed grŵp o welliannau yn ymwneud ag uno gwirfoddol a chylch etholiadau. Yr unig welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 17. Galwaf ar Janet Finch-Saunders i gynnig y gwelliant a siarad amdano.

*Cynigiwyd gwelliant 17 (Janet Finch-Saunders).*

*Amendment 17 (Janet Finch-Saunders) moved.*

15:40

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I move amendment 17 in my name. This amendment intends to ensure that an ordinary election would not be cancelled if it means councillors serving a term of office of more than five years. With the prospect of reform delaying elections, it is crucial that councillors aren't left serving more time than they were democratically elected to do. As I have said time and time again, transparency and democratic accountability are crucial to any reform process. Councillors serving long terms without being re-elected are an affront to any such process. Furthermore, Minister, following your Government's consultation proposal to limit the terms of councillors, I am sure that you would welcome any amendment to ensure that local government elections are held at regular intervals to ensure that residents can hold their councillors accountable for their term in office. Again, the key here is public accountability and support. Councillors holding their positions, paid from the taxpayers' purse, for longer than they were elected to do is not democratically mandated or viable, regardless of the situation.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf welliant 17 yn fy enw i. Bwriad y gwelliant hwn yw sicrhau na fyddai etholiad cyffredin yn cael ei ganslo pe byddai'n golygu bod cynghorwyr yn gwasanaethu mewn swydd am gyfnod o fwy na phum mlynedd. Gyda'r posibilrwydd y gallai diwygio arwain at ohirio etholiadau, mae'n hanfodol nad yw cynghorwyr yn cael eu gadael i wasanaethu am amser hwy nag y cawsant eu hethol yn ddemocrataidd i'w wneud. Fel yr wyf wedi'i ddweud dro ar ôl tro, mae tryloywder ac atebolrwydd democrataidd yn hanfodol i unrhyw broses ddiwygio. Mae cynghorwyr sy'n gwasanaethu am gyfnodau hir heb gael eu hailethol yn sarhad i unrhyw broses o'r fath. Yn ogystal â hynny, Weinidog, yn dilyn cynnig ymgynghoriad eich Llywodraeth i gyfyngu ar gyfnodau cynghorwyr, rwy'n siŵr y byddech yn croesawu unrhyw welliant i sicrhau bod etholiadau llywodraeth leol yn cael eu cynnal yn rheolaidd i sicrhau y gall trigolion ddwyn eu cynghorwyr i gyfrif ar gyfer eu cyfnod yn y swydd. Unwaith eto, yr hyn sy'n allweddol yma yw atebolrwydd a chefnogaeth y cyhoedd. Mae cynghorwyr yn dal eu swyddi, a delir o bwrs y trethdalwyr, am fwy o amser nag y cawsant eu hethol i'w wneud yn rhywbeth sydd heb fandad democrataidd ac yn annichonadwy, ni waeth beth yw'r sefyllfa.

15:41

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The effect of amendment 17 would be to create uncertainty and distraction in the period immediately running up to a voluntary merger. In the event of a voluntary merger, the existing authorities would need to continue in existence until 1 April 2018. With that date in mind, we would cancel the elections to those merging authorities, which would otherwise have been held in May 2017. The implication is that councillors in those authorities will have served a six-year term, with the last ordinary elections having being held in 2012.

Effaith gwelliant 17 fyddai creu ansicrwydd a gwrthdynnu yn y cyfnod yn union cyn uno'n wirfoddol. Mewn achos o uno gwirfoddol, byddai angen i'r awdurdodau presennol barhau i fodoli tan 1 Ebrill 2018. Gyda'r dyddiad hwnnw mewn golwg, byddem yn canslo'r etholiadau i'r awdurdodau hynny sy'n uno, a fyddai fel arall wedi cael eu cynnal ym mis Mai 2017. Y goblygiad yw y bydd cynghorwyr yn yr awdurdodau hynny wedi gwasanaethu am gyfnod o chwe blynedd, gan fod yr etholiadau cyffredin diwethaf wedi'u cynnal yn 2012.

Cancelling elections is not something we would do lightly, but the alternatives presented by amendment 17 are much worse. The amendment will require either a final set of elections less than a year before abolition, or the vesting day for the new voluntarily merged authority would need to be brought forward to April 2017 to avoid the need for final elections, which is simply not feasible. I would ask colleagues to bear in mind what this amendment will mean in terms of the key dates in a voluntary merger process. Authorities merging voluntarily will be abolished on 1 April 2018; staging elections, therefore, in those authorities in May 2017, less than 11 months before abolition, is not going to be helpful to anyone. It will be a needless cost and a huge distraction at a time when the merging councils and councillors will need to concentrate their energies on preparing effectively for the new authority. Who, really, is going to want to stand in an election for an authority that has less than a year left? The alternative of bringing forward vesting day to 1 April 2017 is simply not feasible, because it would not allow sufficient time for the boundary commission to have reviewed and made recommendations for proposed new electoral wards.

Nid yw canslo etholiadau'n rhywbeth y byddem yn ei wneud ar chwarae bach, ond mae'r dewisiadau eraill a gyflwynir gan welliant 17 yn llawer gwaeth. Bydd y gwelliant yn mynnu naill ai cyfres olaf o etholiadau lai na blwyddyn cyn diddymu, neu byddai angen symud diwrnod breinio'r awdurdod newydd sydd wedi uno'n wirfoddol ymlaen i Ebrill 2017 er mwyn osgoi'r angen am etholiadau terfynol, ac mae hynny, yn syml, yn anymarferol. Byddwn yn gofyn i gydweithwyr gofio beth fydd y gwelliant hwn yn ei olygu o ran y dyddiadau allweddol mewn proses uno gwirfoddol. Bydd awdurdodau sy'n uno'n wirfoddol yn cael eu diddymu ar 1 Ebrill 2018; ni fydd cynnal etholiadau, felly, yn yr awdurdodau hynny ym mis Mai 2017, lai nag 11 mis cyn y diddymu, o gymorth i neb. Bydd yn gost ddiangen ac yn wrthdyniad mawr ar adeg pan fydd angen i'r cynghorau a'r cynghorwyr sy'n uno ganolbwyntio eu hegni ar baratoi'n effeithiol am yr awdurdod newydd. Pwy, mewn gwirionedd, fydd am sefyll mewn etholiad i awdurdod sydd â llai na blwyddyn yn weddill? Mae'r dewis arall o symud diwrnod breinio ymlaen i 1 Ebrill 2017, yn syml, yn anymarferol, oherwydd ni fyddai'n caniatáu digon o amser i'r comisiwn ffiniau fod wedi adolygu wardiau etholiadol newydd arfaethedig a gwneud argymhellion ar eu cyfer.

I therefore urge Members not to support this amendment.

Felly, rwy'n annog yr Aelodau i beidio â chefnogi'r gwelliant hwn.

15:43

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Janet Finch-Saunders to reply.

Janet Finch-Saunders i ymateb.

15:43

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Thank you. I, of course, would disagree with the Minister. I do not believe this amendment to be too prescriptive today. Rather, it falls in line with the set democratic processes that we already have in this country, and ensures that any change to local government here in Wales takes account of our long-standing and supported electoral system. I therefore urge Members to support this amendment.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Diolch. Byddwn i, wrth gwrs, yn anghytuno â'r Gweinidog. Nid wyf yn credu bod y gwelliant hwn yn rhy rhagnodol heddiw. Yn hytrach, mae'n unol â'r prosesau democrataidd sydd gennym eisoes yn y wlad hon, ac yn sicrhau bod unrhyw newid i lywodraeth leol yma yng Nghymru yn ystyried ein system etholiadol hirsefydlog a gefnogir. Rwyf felly'n annog yr Aelodau i gefnogi'r gwelliant hwn.

15:43

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 17 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 18. There voted against 27. There were 9 abstentions. Therefore, the amendment falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 17 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 18 o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Roedd 9 wedi ymatal. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 17: O blaid 18, Yn erbyn 27, Ymatal 9.*

*Amendment 17 not agreed: For 18, Against 27, Abstain 9.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 17]

[Result of the vote on amendment 17]

### Gr?p 6: Awdurdodau Lleol sy'n Uno'n Wirfoddol: Darpariaeth Ganlyniadol (Gwelliannau 22, 23 a 24)

### Group 6: Voluntary Mergers of Local Authorities: Consequential Provision (Amendments 22, 23 and 24)

15:44 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The next group of amendments relates to voluntary mergers of local authorities and consequential provision. The lead amendment in this group is amendment 22. I call on the Minister to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud ag uno gwirfoddol rhwng awdurdodau lleol a darpariaeth ganlyniadol. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 22. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig y prif welliant a siarad amdano, ynghyd â'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 22 (Leighton Andrews).*

*Amendment 22 (Leighton Andrews) moved.*

15:44 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Presiding Officer, the purpose of this group of amendments is to reinforce our commitment to protect staff transferring from an abolished local authority to a new local authority that is established by way of voluntary merger regulations, and also to make clear our policy intention that any criminal liability attributable to an existing local authority should transfer to a new authority created through such regulations.

Ddirprwy Lywydd, diben y grŵp hwn o welliannau yw atgyfnerthu ein hymrwymiad i ddiogelu staff sy'n trosglwyddo o awdurdod lleol sydd wedi'i ddiddymu i awdurdod lleol newydd sydd wedi'i sefydlu drwy reoliadau uno gwirfoddol, a hefyd gwneud yn glir ein bwriad polisi y dylai unrhyw atebolrwydd troseddol y gellir ei briodoli i awdurdod lleol presennol drosglwyddo i awdurdod newydd a grëwyd drwy reoliadau o'r fath.

Section 10 of the Bill sets out the consequential provision that can be included within merger regulations or regulations of general application. Section 10(4) currently provides that merger regulations can include provision

Mae adran 10 y Bil yn nodi'r ddarpariaeth ganlyniadol y gellir ei chynnwys o fewn rheoliadau uno neu reoliadau sy'n gymwys yn gyffredinol. Mae adran 10(4) ar hyn o bryd yn darparu y gall rheoliadau uno gynnwys darpariaeth

'for the transfer of functions and property, rights or liabilities from a merging authority to a new principal local authority'

ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau ac eiddo, hawliau neu rwymedigaethau o awdurdod sy'n uno i brif awdurdod lleol newydd

and

ac

'for legal proceedings commenced by or against a merging authority to be continued by or against a new principal local authority'.

er mwyn i achos cyfreithiol a gychwynnir gan neu yn erbyn awdurdod sy'n uno gael ei barhau gan neu yn erbyn prif awdurdod lleol newydd.

On introduction of the Bill it was intended and considered that this provision would provide for the transfer of criminal liabilities. However, following detailed further research, including examination of recent case law, we've been strongly advised that, if we intend criminal liability to transfer from an abolished local authority to the successor new local authority, the relevant primary legislation must explicitly enable the transfer of such liability. Without putting explicit provision on the face of the Bill and any subsequent merger regulations, criminal liabilities will not transfer. We believe that cases and investigations that have started or have their origins during the existence of the abolished authority must be allowed to reach their natural conclusion and verdicts rather than be cut off prematurely because the responsible body has ceased to exist. We're making provision throughout the legislation for the new authority to inherit staff, property, other liabilities, privileges and dignities from its predecessors. We think it fair and consistent that the new authority should also inherit any criminal liability incurred by its predecessor.

Ar adeg cyflwyno'r Bil, y bwriad a'r gred oedd y byddai'r ddarpariaeth hon yn darparu ar gyfer trosglwyddo rhwymedigaethau troseddol. Fodd bynnag, yn dilyn ymchwil fanwl ychwanegol, gan gynnwys archwilio cyfraith achosion ddiweddar, rydym wedi cael cyngor cryf, os ydym am i atebolrwydd troseddol drosglwyddo o awdurdod lleol a ddiddymir i'r awdurdod lleol newydd sy'n ei olynu, mae'n rhaid i'r ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol alluogi trosglwyddiad yr atebolrwydd hwnnw yn benodol. Heb roi darpariaeth benodol ar wyneb y Bil ac unrhyw reoliadau uno dilynol, ni fydd atebolrwydd troseddol yn trosglwyddo. Credwn fod rhaid caniatáu i achosion ac ymchwiliadau sydd wedi cychwyn neu wedi tarddu yn ystod bodolaeth yr awdurdod a ddiddymwyd gyrraedd eu casgliad a'u rheithfarnau naturiol yn hytrach na'u torri i ffwrdd cyn pryd oherwydd bod y corff cyfrifol wedi peidio â bodoli. Rydym yn gwneud darpariaeth drwy'r ddeddfwriaeth i gyd i'r awdurdod newydd etifeddu staff, eiddo, rhwymedigaethau eraill, breintiau ac urddas ei ragflaenwyr. Rydym yn credu ei bod yn deg ac yn gyson y dylai'r awdurdod newydd hefyd etifeddu unrhyw atebolrwydd troseddol gan ei ragflaenydd.

Amendment 22 therefore amends section 10 of the Bill to add criminal liabilities to the list of matters about which supplementary, incidental, consequential, transitional or saving provision may be made in voluntary merger regulations and regulations made under this section.

Mae gwelliant 22, felly, yn diwygio adran 10 y Bil i ychwanegu rhwymedigaethau troseddol at y rhestr o faterion y caniateir darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu arbedol ar eu cyfer mewn rheoliadau uno gwirfoddol ac mewn rheoliadau a wneir o dan yr adran hon.

Amendment 23 is a linked amendment and amends section 10 so provision may be made for criminal or civil proceedings commenced by or against a merging authority to be continued by or against the new authority. Amendment 24 is also associated in part with amendments 22 and 23, as it provides for the transfer of criminal liability of an authority to be abolished in respect of contracts of employment. Amendment 24 also seeks to strengthen the safeguards provided for staff that are transferred from an old authority to a new one by way of a voluntary merger. Section 10(6) of the Bill currently applies Transfer of Undertakings (Protection of Employment) Regulations 2006 to staff transferred under voluntary merger regulations. In general terms, the TUPE regulations protect employees' terms and conditions when the business or service in which they work is transferred from one employer to another. However, the TUPE regulations were conceived for a wide range of circumstances where staff are transferring. It is apparent that applying some of the regulations would undermine our key priority of safeguarding the interests of staff affected by the local government mergers. We've identified two exceptions to the general rule in relation to criminal liability and pensions.

Mae gwelliant 23 yn welliant cysylltiedig ac mae'n diwygio adran 10 fel bod achosion troseddol neu sifil a gychwynnwyd gan neu yn erbyn awdurdod sy'n uno yn gallu cael eu parhau gan neu yn erbyn yr awdurdod newydd. Mae gwelliant 24 hefyd yn gysylltiedig yn rhannol â gwelliannau 22 a 23, gan ei fod yn darparu ar gyfer diddymu trosglwyddo atebolrwydd troseddol awdurdod mewn cysylltiad â chontractau cyflogaeth. Mae gwelliant 24 hefyd yn ceisio cryfhau'r mesurau diogelu a ddarperir ar gyfer staff sy'n cael eu trosglwyddo o hen awdurdod i un newydd drwy uno gwirfoddol. Mae Adran 10(6) y Bil ar hyn o bryd yn cymhwyso Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 i staff a drosglwyddwyd o dan reoliadau uno gwirfoddol. Yn gyffredinol, mae'r rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) yn diogelu telerau ac amodau cyflogeion pan gaiff y busnes neu'r gwasanaeth lle maent yn gweithio ei drosglwyddo o un cyflogwr i un arall. Fodd bynnag, cafodd y rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) eu creu ar gyfer ystod eang o amgylchiadau lle mae staff yn trosglwyddo. Mae'n amlwg y byddai cymhwyso rhai o'r rheoliadau yn tanseilio ein blaenoriaeth allweddol o ddiogelu buddiannau staff y mae uno llywodraeth leol yn effeithio arnynt. Rydym wedi nodi dau eithriad i'r rheol gyffredinol ynglŷn ag atebolrwydd troseddol a phensiynau.

TUPE regulation 4(6) prevents the transfer of criminal liabilities in respect of contracts of employment. So, for example, if an existing local authority was guilty of an offence under the Health and Safety at Work etc Act 1974, and an individual wished to pursue prosecution of the new local authority, staff transferring under TUPE regulations, without reservations, would be unable to pursue such a prosecution after voluntary merger and the abolition of the existing authority. As I've already explained, amendments 22 and 23 make clear our policy intention about transferring criminal liabilities, and it's consistent to also provide for the transfer of criminal liability of an organisation in respect of contracts of employment.

Mae rheoliad Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 4(6) yn atal trosglwyddo rhwymedigaethau troseddol o ran contractau cyflogaeth. Felly, er enghraifft, pe byddai awdurdod lleol presennol yn euog o drosedd dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974, a bod unigolyn yn dymuno mynd ati i erlyn yr awdurdod lleol newydd, byddai staff sy'n trosglwyddo o dan reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth), yn ddiamod, yn methu â cheisio erlyniad o'r fath ar ôl i uno gwirfoddol ddiddymu'r awdurdod presennol. Fel yr wyf eisoes wedi'i esbonio, mae gwelliannau 22 a 23 yn gwneud yn glir ein bwriad polisi ynghylch trosglwyddo rhwymedigaethau troseddol, ac mae'n gyson hefyd i ddarparu ar gyfer trosglwyddo atebolrwydd troseddol sefydliad ynglŷn â chontractau cyflogaeth.

Amendment 24 also seeks to disapply regulation 10 of the TUPE regulations, which concerns pensions. By virtue of regulation 10, rights, powers, duties or liabilities under a contract of employment relating to an occupational pension scheme do not transfer under TUPE. Some minimum protections are offered under the Pensions Act 2004, but these do not preserve existing pension rights, simply requiring enrolment on the transferee's pension scheme. The effect of not disapplying TUPE regulation 10 would be that the new authority would be under no legal obligation to honour a transferred employee's preserved pension rights. The new authority could well do so, but they would be under no legal obligation to do so. Amendment 24 therefore also seeks to disapply TUPE regulation 10 so that all rights and liabilities under a contract of employment, including those rights linked to occupational pension schemes, are transferred to the new authority.

Mae gwelliant 24 hefyd yn ceisio datgymhwyso rheoliad 10 y rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth), sy'n ymwneud â phensiynau. Yn rhinwedd rheoliad 10, nid yw hawliau, pwerau, dyletswyddau na rhwymedigaethau o dan gontract cyflogaeth sy'n ymwneud â chynllun pensiwn galwedigaethol yn trosglwyddo o dan Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth). Mae rhai mesurau diogelu gofynnol yn cael eu cynnig o dan Ddeddf Pensiynau 2004, ond nid yw'r rhain yn cadw hawliau pensiwn sydd eisoes yn bodoli, dim ond mynnu cofrestru ar gynllun pensiwn y trosglwyddai. Effaith peidio â datgymhwyso rheoliad 10 Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) fyddai na fyddai'r awdurdod newydd dan unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i anrhydeddu hawliau pensiwn a gadwyd gweithiwr a drosglwyddwyd. Gallai'r awdurdod newydd wneud hynny, ond ni fyddai dan unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny. Mae gwelliant 24, felly, hefyd yn ceisio datgymhwyso rheoliad 10 Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) fel bod yr holl hawliau a rhwymedigaethau o dan gontract cyflogaeth, gan gynnwys yr hawliau hynny sy'n gysylltiedig â chynlluniau pensiwn galwedigaethol, yn cael eu trosglwyddo i'r awdurdod newydd.

This group of amendments aims to make it clear that criminal liability may be transferred from an existing principal local authority to the new principal local authority created through merger regulations, and provides greater protection to the employees on their transfer by preserving their rights to bring prosecution in respect of criminal liabilities and their pension rights. I therefore seek Members' support for these amendments.

Mae'r grŵp hwn o welliannau yn ceisio ei gwneud yn glir y gellir trosglwyddo atebolrwydd troseddol o brif awdurdod lleol presennol i'r prif awdurdod lleol newydd a grëwyd drwy'r rheoliadau uno, ac yn darparu mwy o ddiogelwch i'r gweithwyr ar adeg eu trosglwyddo drwy gadw eu hawliau i ddwyn erlyniad ynglŷn â rhwymedigaethau troseddol a'u hawliau pensiwn. Felly, rwy'n ceisio cefnogaeth yr Aelodau i'r gwelliannau hyn.

15:50 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no speakers.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr.

The question then is that amendment 22 be agreed. Does any Member object? Then amendment 22 is agreed.

Y cwestiwn felly yw bod gwelliant 22 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae gwelliant 22 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 22 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 22 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:50 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 23—. Oh, he needs to move it. Minister, amendment 23.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 23—. O, mae angen iddo ei gynnig. Weinidog, gwelliant 23.

*Cynigiwyd gwelliant 23 (Leighton Andrews).*

*Amendment 23 (Leighton Andrews) moved.*

15:50 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

15:50 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 23 be agreed. Does any Member object? Then amendment 23 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 23 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 23 wedi'i dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 23 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 23 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:50 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 24.

Weinidog, gwelliant 24.

*Cynigiwyd gwelliant 24 (Leighton Andrews).*

*Amendment 24 (Leighton Andrews) moved.*

15:50 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

15:50 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 24 be agreed. Does any Member object? Then amendment 24 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 24 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly mae gwelliant 24 wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 24 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 24 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Gr?p 7: Awdurdodau Lleol sy'n Uno'n Wirfoddol: Dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i Adrodd (Gwelliannau 18 ac 19)

## Group 7: Voluntary Mergers of Local Authorities: Duties on Welsh Ministers to Report (Amendments 18 and 19)

15:50

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Group 7 relates to voluntary mergers of local authorities and duties on Welsh Ministers to report. The lead amendment in this group is amendment 18. I call on Janet Finch-Saunders to move and speak to the lead amendment and the other amendment in the group.

Mae grŵp 7 yn ymwneud ag uno gwirfoddol awdurdodau lleol a'r dyletswyddau sydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 18. Galwaf ar Janet Finch-Saunders i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliant arall yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 18 (Janet Finch-Saunders).*

*Amendment 18 (Janet Finch-Saunders) moved.*

15:50

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I move amendment 18 in my name. This amendment requires Ministers to lay before the Assembly a report detailing the cost of mergers made under merger regulations and how the costs have been, or will be, met. The purpose of our amendment here is to ensure that the financial aspects of local government mergers are clear and transparent and can be effectively scrutinised.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf welliant 18 yn fy enw i. Mae'r gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion osod adroddiad gerbron y Cynulliad yn manylu ar y gost o uno a wneir o dan reoliadau uno a sut y mae'r costau wedi eu talu, neu y byddant yn cael eu talu. Diben ein gwelliant yw sicrhau bod agweddau ariannol ar yr uno llywodraeth leol yn glir ac yn dryloyw ac y gellir craffu arnynt yn effeithiol.

In response to committee scrutiny of the Bill, the Welsh Local Government Association and the Society of Local Authority Chief Executives both said that the total predicted cost of the merger programme is well contested, and it remains unclear how, and by whom, any mergers will be funded. Furthermore, a report commissioned by the WLGA in November 2014 estimated that the merger programme could cost anywhere between £160 million and £268 million. This would create a huge burden on local authorities at a time when their budgets are under increasing pressure from the Welsh Labour Government.

Mewn ymateb i graffu ar y Bil gan y pwyllgor, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol hefyd bod amrywiaeth barn o ran cyfanswm rhagweledig y rhaglen uno, ac nad yw'n eglur sut y bydd yr uno yn cael ei ariannu na chan bwy. Yn ogystal, roedd adroddiad a gomisiynwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ym mis Tachwedd 2014 yn amcangyfrif y gallai'r rhaglen uno gostio unrhyw beth rhwng £160 miliwn a £268 miliwn. Byddai hyn yn gosod baich enfawr ar awdurdodau lleol ar adeg pan fo eu cyllidebau o dan bwysau cynyddol gan Lywodraeth Lafur Cymru.

Significant cost imposed on local authorities has the potential to result in cuts to local services, which would greatly disadvantage communities across Wales. Clearly, we certainly do not support or would want any costs to be met by further increasing our council tax bills. Therefore, it is crucial that the Minister provide further detail just on how he envisages merging authorities will meet the cost of any merger, and our amendment enables this to happen. Amendment 19 aims to place a requirement on Ministers to publish a report on collaborative arrangements between two or more local authorities.

Mae gan y gost sylweddol, a orfodir ar awdurdodau lleol, y potensial i arwain at doriadau i wasanaethau lleol, a fyddai'n creu cryn anfantais i gymunedau ledled Cymru. Yn amlwg, nid ydym ar unrhyw gyfrif yn cefnogi cynnydd arall yn ein biliau treth gyngor i fodloni unrhyw gostau, ac ni fyddem yn dymuno gweld hynny. Felly, mae'n hanfodol bod y Gweinidog yn darparu manylion ychwanegol dim ond ynghylch sut y mae'n rhagweld y bydd awdurdodau sy'n uno yn llwyddo i dalu costau ar gyfer unrhyw uno, ac mae ein gwelliant ni yn galluogi hyn i ddigwydd. Mae gwelliant 19 yn ceisio ei wneud yn ofynnol i Weinidogion gyhoeddi adroddiad ar drefniadau cydweithredol rhwng dau neu fwy o awdurdodau lleol.

A number of local authorities do work in collaboration to provide such services; one example of that is Conwy and Denbighshire, and there are very good working cross-border arrangements between Flintshire and Wrexham. We need to ensure that these services are not hampered as a consequence of the merger of local authorities, particularly when the merger is between different authorities to those already working in collaboration. Our amendment aims to mitigate any impact on collaborative working arrangements by ensuring that Welsh Government Ministers fully assess current arrangements and put measures in place for the continuation of jointly run services so as to ensure minimum, if any, disruption to public services for those who rely on them. Thank you.

Mae nifer o awdurdodau lleol yn gweithio ar y cyd i ddarparu gwasanaethau o'r fath; un enghraifft o hynny yw Conwy a Sir Ddinbych, ac mae trefniadau trawsffiniol sy'n gweithio'n dda iawn rhwng Sir y Fflint a Wrecsam. Mae angen inni sicrhau nad yw'r gwasanaethau hyn yn cael eu rhwystro o ganlyniad i uno awdurdodau lleol, yn enwedig pan fydd yr uno rhwng awdurdodau gwahanol i'r rhai sydd eisoes yn gweithio ar y cyd. Mae ein gwelliant ni yn ceisio lliniaru unrhyw effaith ar drefniadau gweithio ar y cyd drwy sicrhau bod Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn asesu'r trefniadau presennol yn llawn ac yn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau parhâd gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg ar y cyd er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu, os o gwbl, ar wasanaethau cyhoeddus ar gyfer y rhai sy'n dibynnu arnynt. Diolch.

15:53 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf i ond eisiau cyfeirio at welliant 19 gan Janet Finch-Saunders. Byddwn yn cefnogi'r ddau welliant yn y gr?p yma, ond yn benodol y pwynt olaf y mae Janet Finch-Saunders wedi'i wneud yngl?n â'r angen i adrodd ac egluro beth yw effaith cyfuno gwirfoddol ar y dulliau o gydweithio sydd eisoes yn eu lle. I fi, dyma un o'r pethau sy'n wan ac ar goll o gynlluniau'r Llywodraeth ar hyn o bryd. Rydym ni wedi gweld y map gan y Llywodraeth—y bwriad sydd ganddyn nhw—ond rydym ni hefyd yn gwybod bod llawer o'r cydweithio rhanbarthol yn rhedeg ar draws y map yna, ac yn rhedeg ar draws ffiniau gwahanol, o'r consortia addysg i fforymau economaidd, i batrymau cydweithio'r gwasanaethau cymdeithasol, i faterion twristiaeth. Maen nhw i gyd wedi'u trefnu ar fap rhanbarthol sy'n wahanol i'r hyn y mae'r Llywodraeth wedi'i gyhoeddi.

Wrth gwrs, pwrpas y Mesur yma yw paratoi i bethau gwirfoddol ddigwydd o flaen rhywbeth gorfodol a fydd yn digwydd ar ôl yr etholiad nesaf, gan ddibynnu, wrth gwrs, ar ganlyniad yr etholiad hwnnw. Felly, rwyf yn credu bod gwelliant 19 yn un pwysig inni drafod yn y cyd-destun yma, ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr iawn, a dweud y gwir, i glywed beth sydd gan y Gweinidog i'w ddweud a beth yn union yw'r ffordd a'r weledigaeth sydd gan y Llywodraeth o sut i gyfuno uno gwirfoddol gan ddau brif awdurdod gyda'r ffaith y bydd y ddau brif awdurdod yna o bosibl yn cydweithredu mewn ffyrdd gwahanol yn y rhanbarth maen nhw'n rhan ohono fe.

I only want to refer to amendment 19 in the name of Janet Finch-Saunders. We will be supporting the two amendments in this group, but specifically that final point that Janet Finch-Saunders made on the need to report and explain the impact of voluntary mergers on the collaboration mechanisms already in place. To me, this is one of the things that's weak and missing from the Government's plans at present. We have seen the Government's map—the intentions that they have—but we also know that many regional collaborations run across that map, and across different boundaries, from the education consortia to economic fora, to collaboration patterns in social services, to issues of tourism. They are all arranged on a regional map that is different to the map that the Government has put forward.

Of course, the purpose of this Bill is to prepare for voluntary mergers to happen before the compulsory mergers that will happen after the next election, depending, of course, on the outcome of that election. So, I do think that amendment 19 is important for us to discuss in this context, and I look forward very much to hearing what the Minister has to say and what exactly the Government's vision is in terms of how to combine voluntary mergers by two principal authorities with the fact that those two principal authorities may be collaborating in different ways with different partners in the region that they're part of.

15:55 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think, of the many questions that have dogged this agenda since the Williams commission report was published or even commissioned, these two stand out as ones that need to be answered. In particular, the cost of amalgamation or merger of local authorities has been disputed by the Welsh Government and the Welsh Local Government Association and, of course, by the Williams commission itself, and we're still not entirely clear what exactly the costs will be of carrying out a full reorganisation of local authorities across Wales.

In terms of voluntary mergers, certainly, when the applications came in from the six authorities, I think the one thing that was missing from them was a clear understanding of what the cost of those voluntary mergers would be. So, I think it's absolutely right that, if voluntary mergers do take place under this particular piece of legislation, we do have that duty to report on the Minister in terms of those merger costs so we can get a better understanding of that agenda and a better understanding of what a future reorganisation will look like in terms of cost to the public purse, and so we're happy to support amendment 18.

Rwyf yn credu, o'r cwestiynau niferus sydd wedi llethu'r agenda hon ers cyhoeddi adroddiad comisiwn Williams neu hyd yn oed ers iddo gael ei gomisiynu, mae'r ddau hyn yn dod i'r amlwg fel rhai y mae angen eu hateb. Yn arbennig, mae'r gost o gyfuno neu uno awdurdodau lleol wedi bod yn destun dadl gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac, wrth gwrs, gan gomisiwn Williams ei hun, ac nid yw'n gwbl eglur i ni o hyd beth yn union fydd y costau o ad-drefnu llawn o awdurdodau lleol ledled Cymru.

O ran uno gwirfoddol, yn sicr, pan ddaeth y ceisiadau i mewn o'r chwe awdurdod, rwyf yn credu mai'r unig beth nad oeddent yn ei gynnwys oedd dealltwriaeth glir ynghylch beth fyddai'r gost ar gyfer yr uno gwirfoddol hwnnw. Felly, rwyf yn credu ei fod yn gwbl gywir, os bydd uno gwirfoddol yn cael eu cynnal o dan y darn penodol hwn o ddeddfwriaeth, bod dyletswydd arnom i adrodd am y Gweinidog o ran y costau uno hynny, fel y gallwn gael gwell dealltwriaeth o'r agenda honno, a chael gwell dealltwriaeth o sut y bydd ad-drefnu yn ymddangos yn y dyfodol o ran y gost i'r pwrs cyhoeddus, ac felly rydym yn hapus i gefnogi gwelliant 18.

In terms of collaborative arrangements, again, as Simon Thomas has pointed out—and, of course, Janet Finch-Saunders as well—there are already in place a number of collaborative arrangements across Wales, some of which go against the grain of the Minister's own map in terms of merger in the future. I know, for example, there are voluntary arrangements and collaborative arrangements between Powys and Ceredigion, and between Bridgend and the Vale of Glamorgan, neither of which would be recognised in terms of a future amalgamation under the Minister's map. So, I think it's important that we, as an Assembly, understand what the impact of any merger is going to be on those collaborative arrangements, and what the future geography of a particular new local authority is going to look like in terms of how it will collaborate with its neighbours and how those collaborative arrangements will persevere throughout that process. So, again, we're happy to support amendment 19.

O ran trefniadau cydweithredol, unwaith eto, fel mae Simon Thomas wedi'i nodi—ac, wrth gwrs, Janet Finch-Saunders hefyd—mae nifer o drefniadau cydweithredol eisoes ar waith ledled Cymru, a rhai ohonynt yn mynd yn groes i'r graen ar fap y Gweinidog ei hun o ran uno yn y dyfodol. Rwyf yn gwybod, er enghraifft, bod trefniadau gwirfoddol a threfniadau cydweithredol ar waith rhwng Powys a Cheredigion, a rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg, ond ni fyddai y naill na'r llall yn cael eu cydnabod ar gyfer uno yn y dyfodol o dan fap y Gweinidog. Felly, rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod ni, fel Cynulliad, yn deall beth fydd effaith unrhyw uno ar y trefniadau cydweithredol hynny, a sut y bydd daearyddiaeth awdurdod lleol newydd penodol yn ymddangos yn y dyfodol o ran y ffordd y bydd yn cydweithio â'i gymdogion a sut y bydd y trefniadau cydweithredol hynny yn dal i weithio drwy gydol y broses honno. Felly, unwaith eto, rydym yn hapus i gefnogi gwelliant 19.

15:57

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Deputy Presiding Officer, I have considered the views of Members, but we are unable to support these amendments. We think they are unnecessary. The information that is sought will be provided for in other ways, and these amendments intrude on the responsibility of the merging authorities themselves to present a comprehensive assessment of the impacts of a proposed voluntary merger as part of any formal merger application.

Ddirprwy Lywydd, rwyf wedi ystyried barn yr Aelodau, ond ni allwn gefnogi'r gwelliannau hyn. Rydym yn credu eu bod yn ddiangen. Bydd y wybodaeth y gofynnir amdani yn cael ei darparu mewn ffyrdd eraill, ac mae'r gwelliannau hyn yn tarfu ar gyfrifoldeb yr awdurdodau hynny sy'n uno i gyflwyno asesiad cynhwysfawr o effeithiau'r uno gwirfoddol arfaethedig yn rhan o unrhyw gais ffurfiol i uno.

In respect of amendment 18, the financial implications of each voluntary merger will, of course, be considered and set out fully in the regulatory impact assessment, which must be laid alongside any specific regulations giving effect to the voluntary merger, and merger regulations, of course, are subject to the prior approval of this Assembly through the affirmative resolution procedure. There will therefore be an opportunity for Members to consider the regulatory impact assessment as part of that process.

O ran gwelliant 18, bydd goblygiadau ariannol pob achos o uno gwirfoddol, wrth gwrs, yn cael eu hystyried a'u nodi yn llawn yn yr asesiad effaith rheoleiddiol, y mae'n rhaid ei osod ochr yn ochr ag unrhyw reoliadau penodol sy'n gwireddu yr uno gwirfoddol, ac mae rheoliadau uno, wrth gwrs, yn amodol ar gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Cynulliad hwn drwy'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Felly, bydd cyfle i'r Aelodau ystyried yr asesiad effaith rheoleiddiol yn rhan o'r broses honno.

In submitting an application for voluntary merger, the applicant authorities are required by the prospectus issued last year, given statutory effect by virtue of section 5 of this Bill, to undertake a full cost-benefit analysis and present the findings as part of the application. We expect and encourage local authorities to publish as much of the detail of their application as is realistic, including the cost-benefit analysis of any proposed merger.

Wrth gyflwyno cais am uno gwirfoddol, mae'n ofynnol i'r awdurdodau sy'n gwneud cais, yn ôl y prosbectws a gyhoeddwyd y llynedd, y rhoddir grym statudol iddynt yn rhinwedd adran 5 y Bil hwn, i gynnal dadansoddiad cost a budd llawn a chyflwyno'r canfyddiadau yn rhan o'r cais. Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol ac yn eu hannog i gyhoeddi cymaint o'r manylion a fydd yn realistig , gan gynnwys y dadansoddiad cost a budd o unrhyw uno arfaethedig.

15:58

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Will the Minister take an intervention? The Minister will be aware that the Finance Committee is particularly concerned about looking at the cost of Bills and examining how the costings, when a Bill goes through, actually impact a year or two later. Do you not think there's a case to say that, if an authority puts forward a cost-benefit analysis, there should also be a subsequent examination of those costs and how realistic they were?

A wnaiff y Gweinidog dderbyn ymyriad? Bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod y Pwyllgor Cyllid yn pryderu'n arbennig ynghylch edrych ar y gost Biliau ac archwilio sut y mae'r costau, pan fydd y Bil wedi ei basio, yn cael effaith mewn gwirionedd flwyddyn neu ddwy yn ddiweddarach. Onid ydych chi'n meddwl bod yna achos i ddweud, os yw awdurdod yn cyflwyno dadansoddiad cost a budd, y dylai hefyd gael archwiliad dilynol o'r costau hynny a pha mor realistig yr oeddent?

15:59 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, no, I don't, because, as I'm explaining, we have a comprehensive procedure here, with the merger regulations being subject to the prior approval of the Assembly, where Members will therefore have an opportunity to consider the regulatory impact assessments after that process. There then has to be the full cost-benefit analysis presented. I think requiring a further report on costs, prepared no later than six months after the making of merger regulations, would not add anything of value to the information already available. There's been some comment on the costs of merger earlier on, by one of the Members representing the Conservatives; what is always omitted, of course, are the findings from the same studies that have been carried out that the merger process could result in savings of £65 million a year after three years. That's, of course, in addition to the findings of the administrative cost review carried out for my department by KPMG, which identified that local authorities themselves could find £151 million of savings per annum if they operated to best practice available in the whole of the UK. We accept there's going to be a cost to reform. However, as I think was acknowledged when the local government representatives gave evidence to the Communities, Equality and Local Government Committee in February, there is also a significant cost to doing nothing in the current financial climate. We know local authorities are struggling with intense budgetary pressures, which are likely to worsen after the comprehensive spending review in November. We cannot allow inaction to continue.

Wel, na, nid wyf yn credu hynny, oherwydd, fel yr wyf wrthi'n esbonio, mae gennym weithdrefn gynhwysfawr yma, ac mae'r rheoliadau uno yn amodol ar gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Cynulliad, sy'n golygu y bydd Aelodau felly yn cael cyfle i ystyried effaith yr asesiadau rheoleiddiol ar ôl y broses honno. Yna bydd yn rhaid cyflwyno dadansoddiad llawn o gost a budd. Nid wyf yn credu y byddai gofyn am adroddiad pellach ynghylch costau, a baratowyd cwta chwe mis yn ddiweddarach ar ôl creu rheoliadau uno, yn ychwanegu unrhyw beth o werth i'r wybodaeth sydd eisoes ar gael. Bu rhai sylwadau ar gostau uno yn gynharach, gan un o'r Aelodau sy'n cynrychioli'r Ceidwadwyr; yr hyn sy'n cael ei hepgor bob amser, wrth gwrs, yw'r canfyddiadau o'r un astudiaethau a gynhaliwyd, y gallai'r broses uno arwain at arbedion o £ 65 miliwn y flwyddyn ar ôl tair blynedd. Mae hynny, wrth gwrs, yn ychwanegol i ganfyddiadau'r adolygiad o'r gost weinyddol a gynhaliwyd ar gyfer fy adran i gan KPMG, a nododd y gallai'r awdurdodau lleol eu hunain ddod o hyd i £151 miliwn o arbedion y flwyddyn os ydynt yn gweithredu'r arfer gorau sydd ar gael yn y DU gyfan. Rydym yn derbyn y bydd cost ar gyfer diwygio. Fodd bynnag, fel yr wyf yn credu y cydnabuwyd pan roddodd y cynrychiolwyr llywodraeth leol tystiolaeth i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ym mis Chwefror, mae cost sylweddol hefyd o wneud dim yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Rydym yn gwybod bod awdurdodau lleol yn cael trafferth i ymdopi gyda phwysau cyllidebol dwys, sy'n debygol o waethygu ar ôl yr adolygiad cynhwysfawr o wariant ym mis Tachwedd. Ni allwn ganiatáu i ddiffyg gweithredu barhau.

In respect of amendment 19, I do have slightly more sympathy here, but a report prepared by Welsh Ministers providing details of the impact of voluntary merger and collaborative arrangement at the time that regulations are made is, we think, unnecessary and would again not add value. The reality will be, of course, that collaboration will continue between authorities regardless of what boundaries are drawn up in the future, and there will be a need for different kinds of collaboration depending on the subject we're discussing.

O ran gwelliant 19, mae gennyf ychydig yn fwy o gydymdeimlad yma, ond y mae adroddiad a baratowyd gan Weinidogion Cymru sy'n rhoi manylion effaith uno gwirfoddol a threfniant cydweithredol ar yr adeg y gwneir y rheoliadau yn ddiangen, yn ein barn ni, ac na fyddai unwaith eto, yn cyfrannu gwerth. Y gwirionedd fydd, wrth gwrs, y bydd cydweithio yn parhau rhwng awdurdodau ni waeth pa ffiniau fydd yn cael eu llunio yn y dyfodol, a bydd angen am wahanol fathau o gydweithio yn dibynnu ar y pwnc yr ydym yn ei drafod.

The impact of merger on a range of existing collaborative arrangements is part of the initial assessments which local authorities will have to undertake in formalising a voluntary merger application. Section 4(1)(h) of the Bill requires that pre-application consultation is undertaken with any other party or persons which the principal local authorities consider may be affected by the merger. This will include any parties not covered by the merger, but with which the merging authorities are already working in partnership. We've made it clear, both in the prospectus and in the consultation provisions in the Bill, that authorities wishing to merge voluntarily must set out in their application what the full range of impacts of voluntary merger will be. The impact assessments that will accompany any merger regulations will be there for all to see, to assess and to act upon, including the new authorities themselves who inherit responsibility for seeking and establishing appropriate new partnership arrangements.

Mae effaith uno ar ystod o drefniadau cydweithredol sydd eisoes yn bodoli yn rhan o'r asesiadau cychwynnol a fydd yn rhaid i awdurdodau lleol eu cynnal wrth ffurfioli cais am uno gwirfoddol. Mae adran 4 (1) (h) y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gael ymgynghoriad cyn gwneud cais gydag unrhyw barti neu bersonau y mae'r prif awdurdodau yn ystyried y gallant gael eu heffeithio gan yr uno. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw barti nad yw'n rhan o'r uno, ond sydd eisoes yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau sy'n uno. Rydym ni wedi ei wneud yn glir, yn y prosbectws ac yn narpariaethau ymgynghori'r Bil, y bydd awdurdodau sy'n dymuno uno yn wirfoddol yn gorfod nodi yn eu cais beth fydd yr ystod lawn o effeithiau uno'n wirfoddol. Bydd yr asesiadau effaith a fydd yn cyd-fynd ag unrhyw reoliadau uno yno i bawb eu gweld, eu hasesu a gweithredu arnynt, gan gynnwys yr awdurdodau newydd eu hunain sy'n etifeddu cyfrifoldeb dros geisio a sefydlu trefniadau partneriaeth newydd priodol.

Neither of these amendments adds value to the information that is already required in support of voluntary merger applications, and I urge Members to oppose them.

Nid yw'r naill na'r llall o'r gwelliannau hyn yn ychwanegu gwerth at y wybodaeth sydd eisoes yn ofynnol i gefnogi ceisiadau uno gwirfoddol, ac rwyf yn annog yr Aelodau i'w gwrthwynebu.

16:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Janet Finch-Saunders to reply.

Janet Finch-Saunders i ymateb.

16:02

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

At Stage 2, the Minister said that he felt that neither of these amendments add value to the information that is already going to be provided in support of voluntary merger applications. You've just mentioned, Minister, now about the £65 million potential savings with such upheaval, and yet as you rightly point out, the KPMG report did say about the £151 million of backhouse functions that could be saved in local authorities. But, they also stated, Minister, that that was pre any merger, and yet there has been little or no action taken by you as a Minister to actually be leading on those potential savings that could be achieved now, before any forced mergers or voluntary mergers.

Yng Nghyfnod 2, dywedodd y Gweinidog ei fod yn teimlo nad oedd y naill na'r llall o'r newidiadau hyn yn ychwanegu gwerth at y wybodaeth a fydd eisoes yn cael ei darparu i gefnogi ceisiadau uno gwirfoddol. Rydych chi newydd sôn, Weinidog, yn awr am y £65 miliwn o arbedion posibl gyda chymaint o chwyldroad, ac eto fel yr ydych yn nodi'n hollol gywir, roedd yr adroddiad KPMG yn nodi'r £151 miliwn o swyddogaethau sy'n digwydd yn y cefndir y gellid eu harbed mewn awdurdodau lleol. Ond, roeddent yn datgan hefyd, Weinidog, bod hynny cyn unrhyw uno, ac eto prin iawn neu ddim oedd y camau a gymerwyd gennych chi fel Gweinidog mewn gwirionedd i arwain ar yr arbedion posibl y gellid eu cyflawni yn awr, cyn unrhyw uno gorfodol neu uno gwirfoddol.

I should highlight here that it is the Welsh Ministers that we are placing the requirement on to report, not the merging authorities. I think it's important that the Welsh Labour Government is seen to be open, transparent and honest about the cost of any merger and how such costs are to be met, and also about the impact on services and jobs across any collaborative arrangements.

Dylwn amlygu yma mai ar Weinidogion Cymru yr ydym yn gosod gofyniad i adrodd, ac nid ar yr awdurdodau sy'n uno. Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig bod Llywodraeth Lafur Cymru yn cael ei hystyried fel bod yn agored, yn dryloyw ac yn onest am gostau unrhyw uno a sut y bydd costau o'r fath yn cael eu bodloni, a hefyd am yr effaith ar wasanaethau a swyddi ar draws unrhyw drefniadau cydweithredol.

Time and time again, Minister, we've asked you for your cost-benefit analysis to go with your lovely map of eight or nine, and so far we have seen nothing. The public and staff alike will be concerned about the impact of a merger on their day-to-day lives, and it is imperative that a full analysis of such impact is made available and publicly.

Dro ar ôl tro, Weinidog, rydym wedi gofyn i chi am eich dadansoddiad cost a budd i gyd-fynd â'ch map hyfryd o wyth neu naw, a hyd yn hyn nid ydym wedi gweld unrhyw beth. Bydd y cyhoedd ag aelodau staff fel ei gilydd yn pryderu am effaith uno ar eu bywydau o ddydd i ddydd, ac mae'n hanfodol bod dadansoddiad llawn o effaith o'r fath yn cael ei roi ar gael ac yn gyhoeddus.

At every stage, Minister, we would want any merger process to be open and transparent, with every opportunity for those living in and affected by such a merger to hold it to account. My colleague, Mark Isherwood AM, mentioned at Stage 2 that a number of local authorities he had spoken to felt that to fail to carry out a full cost evaluation would be considered a breach of their duties, and it astounds me, Minister, that you would not seek to do the same. I would therefore urge my colleagues in the Chamber today to support these amendments to ensure that full costs are published, and that any impact on collaborative working agreement is mitigated as much as is humanly possible.

Ar bob cam, Weinidog, byddem yn dymuno i unrhyw broses uno fod yn agored ac yn dryloyw, gyda phob cyfle i'r rhai sy'n byw mewn ardal berthnasol ac yr effeithir arnynt gan uno o'r fath i'w dwyn i gyfrif. Mae fy nghydweithiwr, Mark Isherwood AC, wedi sôn yng Nghyfnod 2 bod nifer o awdurdodau lleol y siaradodd â hwy yn teimlo y byddai methu â chynnal gwerthusiad costau llawn yn cael ei ystyried fel peidio â chyflawni eu dyletswyddau, ac mae'n fy syfrdanu, Weinidog, na fyddech chi yn ceisio gwneud yr un peth. Rwyf felly yn annog fy nghydweithwyr yn y Siambr heddiw i gefnogi'r gwelliannau hyn i sicrhau bod y costau llawn yn cael eu cyhoeddi, a bod unrhyw effaith ar gytundeb cydweithio yn cael ei lliniaru cymaint ag sy'n bosibl.

16:04

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 18 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27. I cast my vote against the amendment, which consequently falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 18 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn cael pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27o blaid. Pleidleisio 27 yn erbyn. Rwyf i yn pleidleisio yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 18: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 18 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order No. 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 18

Result of the vote on amendment 18

16:05

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Janet Finch Saunders, amendment 19. Are you moving?

Janet Finch Saunders, gwelliant 19. A ydych chi’n cynnig?

*Cynigiwyd gwelliant 19 (Janet Finch Saunders).*

*Amendment 19 (Janet Finch Saunders) moved.*

16:05

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

16:05

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 19 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 19 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn cael pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwyf i yn pleidleisio yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 19: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 19 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Llywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 19

Result of the vote on amendment 19

## Gr?p 8: Trefniadau Etholiadol ar Gyfer Prif Ardaloedd Newydd: Cyfarwyddydau, Canllawiau ac Adrodd (Gwelliannau 2, 25, 3, 4, 8, 11 a 12)

## Group 8: Electoral Arrangements for New Principal Areas: Directions, Guidance and Reporting (Amendments 2, 25, 3, 4, 8, 11 and 12)

16:05

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The next group of amendments relates to electoral arrangements for new principal areas, in particular directions, guidance and reporting provisions. The lead amendment in this group is amendment 2. I call on Peter Black to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â threfniadau etholiadol ar gyfer prif ardaloedd newydd, yn enwedig cyfarwyddiadau, canllawiau a darpariaethau adrodd. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 2. Galwaf ar Peter Black i gynnig y prif welliant a siarad amdano ac am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 2 (Peter Black) [R].*

*Amendment 2 (Peter Black) [R] moved.*

16:05

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move. These are another set of amendments relating to the recommendation of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, again reflecting the view I expressed previously that if we're going to have a limited reorganisation based on voluntary arrangements, with a limited timetable and very little time to do it in, we should ensure that our procedures apply to all the regulations and guidance, so we can ensure that those changes are properly scrutinised by the Assembly. Therefore, these amendments are brought forward in the spirit of that particular point and I hope we can support them.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf yn cynnig. Cyfres arall o welliannau yw'r rhain sy'n ymwneud ag argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, sydd unwaith eto yn adlewyrchu barn a fynegwyd gennyf yn flaenorol, sef os ydym yn mynd i gael ad-drefnu cyfyngedig sy'n seiliedig ar drefniadau gwirfoddol, gydag amserlen gyfyngedig ychydig iawn o amser i'w gweithredu, dylem sicrhau bod ein gweithdrefnau yn berthnasol i'r holl reoliadau a chanllawiau, fel y gallwn sicrhau bod y Cynulliad yn craffu ar y newidiadau hynny yn briodol. Felly, mae'r gwelliannau hyn yn cael eu dwyn ymlaen yng nghyd-destun y pwynt penodol hwnnw a gobeithiaf y gallwn eu cefnogi.

16:06

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I rise to support amendments 2, 3 and 4. We support these amendments as reflecting the recommendation of the Constitutional and Legislative Affairs Committee. Again, as Peter Black AM has highlighted in tabling these amendments, there is a need that any changes with regard to local government organisation are properly scrutinised by the National Assembly for Wales. I will repeat myself here: the Welsh Labour Government's intended dictatorial marker-pen assault on our communities makes a mockery of democracy and threatens huge upheaval of public services, without the opportunity for proper public and Assembly consultation and approval. Certainly, this is something we will definitely seek to address should it be discussed further in the next Assembly. But, for now, as with our support for amendment 1, I do feel that approval by the National Assembly for Wales to conduct an initial review, and for the guidance thereof, is essential to strengthening the democratic mandate by which any merger process should be governed. We shall therefore be supporting these amendments.

Wel, rwyf yn codi i gefnogi gwelliannau 2, 3 a 4. Rydym yn cefnogi'r gwelliannau hyn gan eu bod yn adlewyrchu argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Unwaith eto, fel y mae Peter Black AC wedi'i amlygu wrth gyflwyno'r gwelliannau hyn, mae'n hanfodol bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn craffu yn briodol ar unrhyw newidiadau o ran trefniadau llywodraeth leol. Rwyf am ailadrodd hyn yn y fan yma: Mae ymosodiad bwriadol unbenaethol pin marcio Llywodraeth Lafur Cymru ar ein cymunedau yn dilorni democratiaeth ac yn bygwth chwyldroad enfawr o ran gwasanaethau cyhoeddus, heb gael y cyfle am ymgynghori priodol a chymeradwyaeth gan y cyhoedd a'r Cynulliad. Yn sicr, mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn siŵr o geisio mynd i'r afael ag ef os bydd yn cael ei drafod ymhellach yn y Cynulliad nesaf. Ond, am y tro, fel gyda'n cefnogaeth i welliant 1, rwyf yn teimlo bod cymeradwyaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gynnal adolygiad cychwynnol, a'r canllawiau ar ei gyfer, yn hanfodol er mwyn cryfhau'r mandad democrataidd ar gyfer llywodraethu unrhyw broses uno. Felly, byddwn yn cefnogi'r gwelliannau hyn.

16:07

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Deputy Presiding Officer, I congratulate Janet Finch-Saunders on reading out her favourite quote from her press release.

Ddirprwy Lywydd, rwyf yn llongyfarch Janet Finch-Saunders am rannu ei hoff ddyfyniad o'i datganiad i'r wasg.

I've listened to the comments that have been made on this but I cannot support the amendments in this group.

Rwyf wedi gwrando ar y sylwadau a wnaed ar hyn, ond ni allaf gefnogi'r gwelliannau yn y grŵp hwn.

Let me deal with Peter Black's amendments: 2, 3 and 4. The absence of an Assembly procedure for the issuing of specific and general directions to the local democracy and boundary commission actually mirrors the position for electoral arrangements reviews currently undertaken by the commission under the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013, as previously approved by the National Assembly.

Gadewch i mi ymdrin â gwelliannau Peter Black: 2, 3 a 4. Mae absenoldeb gweithdrefn y Cynulliad ar gyfer cyhoeddi cyfarwyddiadau penodol a chyffredinol i'r comisiwn ffiniau a democratiaeth leol mewn gwirionedd yn adlewyrchu'r sefyllfa ar gyfer yr adolygiadau o drefniadau etholiadol sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gan y comisiwn o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, fel a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Directions under section 16(1) simply initiate the electoral arrangements review process, based on proposed new principal areas identified by the Welsh Ministers. In giving evidence to the Communities, Equality and Local Government Committee at Stage 1, the commission stressed the importance of directions being given as soon as possible after Royal Assent. With this in mind, I am currently consulting on draft directions to be issued under sections 16 and 17, therefore providing an opportunity for all interested parties to contribute their views. Applying an Assembly procedure to this would delay the issuing of directions to the commission, which would affect its ability to meet what is already a challenging timetable.

Mae cyfarwyddiadau o dan adran 16 (1) yn syml yn dechrau'r broses o adolygu trefniadau etholiadol, sy'n seiliedig ar y prif ardaloedd newydd arfaethedig a nodwyd gan Weinidogion Cymru. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yng Nghyfnod 1, pwysleisiodd y comisiwn pa mor bwysig yw hi fod y cyfarwyddiadau yn cael eu rhoi cyn gynted â phosibl ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. Gyda hyn mewn golwg, rwyf ar hyn o bryd yn ymgynghori ar gyfarwyddiadau drafft sydd i'w cyflwyno o dan adrannau 16 a 17, gan felly roi cyfle i bawb sydd â budd i gyfrannu eu barn. Byddai cymhwyso gweithdrefn y Cynulliad i hyn yn gohirio cyflwyno cyfarwyddiadau i'r comisiwn, a fyddai'n effeithio ar ei allu i fodloni'r hyn sydd eisoes yn amserlen heriol.

The direction-making power under section 17(3) of the Bill enables the Welsh Ministers to give general directions on practical matters to facilitate timely reviews, including matters such as the order in which reviews should be undertaken. Together with directions under section 16(1), this will facilitate the completion of reviews to enable elections to voluntarily-merged authorities to be held in 2018, and to enable elections to shadow authorities for all compulsorily merged authorities to be held in 2019.

Mae'r pŵer i wneud cyfarwyddyd o dan adran 17 (3) y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau cyffredinol ar faterion ymarferol i hwyluso adolygiadau amserol, gan gynnwys materion megis y drefn y dylai adolygiadau gael eu cynnal. Ynghyd â'r cyfarwyddiadau o dan adran 16 (1), bydd hyn yn hwyluso cwblhau adolygiadau er mwyn galluogi etholiadau i awdurdodau a unwyd yn wirfoddol gael eu cynnal yn 2018, ac er mwyn galluogi etholiadau i gysgodi awdurdodau ar gyfer pob awdurdod a unwyd yn orfodol i gael eu cynnal yn 2019.

Deputy Presiding Officer, in announcing our preferred approach to the reconfiguration of local government, I signalled my intention to remove the current cap of 75 members on the size of councils. The ongoing consultation on directions does not set a cap, but asks for views on this. We need to balance the need for manageable institutions with adequate democratic representation of electors.

Ddirprwy Lywydd, wrth gyhoeddi ein dull a ffefrir i ad-drefnu llywodraeth leol, gwnes yn glir fy mwriad i gael gwared ar y cap presennol o 75 o aelodau o ran maint cynghorau. Nid yw'r ymgynghoriad parhaus ar gyfarwyddiadau yn gosod cap, ond mae'n gofyn am farn ynghylch hyn. Mae angen i ni gydbwyso'r angen am sefydliadau hylaw gyda chynrychiolaeth ddemocrataidd ddigonol o etholwyr.

Applying the affirmative procedure for guidance issued under section 17(8) is, in my view, inappropriate. Guidance under section 17(8) is discretionary and, given the commission's experience in undertaking electoral reviews, I do not currently anticipate this power being utilised. If guidance were to be necessary, however, it is likely that Welsh Ministers would need to react swiftly and an Assembly procedure could lead to delay.

Mae cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer y canllawiau a gyhoeddwyd o dan adran 17 (8), yn fy marn i, yn amhriodol. Mae canllawiau o dan adran 17 (8) yn ddewisol ac, o ystyried profiad y comisiwn wrth gynnal adolygiadau etholiadol, nid wyf yn rhagweld ar hyn o bryd y bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio. Pe byddai'n angenrheidiol cael canllawiau, fodd bynnag, mae'n debygol y byddai angen i Weinidogion Cymru ymateb yn gyflym a gallai gweithdrefn y Cynulliad arwain at oedi.

Turning to amendments 8 and 12, section 24 of the Bill enables the Welsh Ministers, through regulations, to do no more than reset the start date for the ordinary 10-year electoral arrangements review cycle by the commission, once the local government reform programme has been completed and new merged authorities are in place. The regulation-making power is a technical necessity. The time frame for the conduct of the ordinary cycle of electoral arrangements reviews needs to be changed for no other reason than local government mergers.

Gan droi at welliannau 8 a 12, mae adran 24 y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud dim mwy na ailosod y dyddiad dechrau ar gyfer y cylch adolygu trefniadau etholiadol 10 mlynedd cyffredinol gan y comisiwn, ar ôl i'r rhaglen diwygio llywodraeth leol gael ei chwblhau ac y bydd awdurdodau unedig newydd ar waith. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn anghenraid technegol. Nid oes angen newid y ffrâm amser ar gyfer cynnal y cylch arferol o adolygiadau trefniadau etholiadol am unrhyw reswm heblaw ar gyfer uno llywodraeth leol.

The commission is currently required, under section 29 of the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013, to review the electoral arrangements of principal local authorities in Wales every 10 years, starting from September 2013. Without regulations to reset the start date from a new date after the first elections to the new authorities—so a date after 2 May 2019—the commission would be required to review all the newly-merged authorities once again by September 2023, even though they will have just completed the first review of arrangements in time for the first elections in 2019.

Mae'n ofynnol i'r comisiwn ar hyn o bryd, o dan adran 29 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 i adolygu trefniadau etholiadol y prif awdurdodau lleol yng Nghymru bob 10 mlynedd, gan ddechrau o fis Medi at 2013. Heb reoliadau i ailosod y dyddiad dechrau o ddyddiad newydd ar ôl yr etholiadau cyntaf i'r awdurdodau newydd—felly dyddiad ar ôl 2 Mai 2019—byddai'n ofynnol i'r comisiwn adolygu'r holl awdurdodau newydd sydd wedi uno unwaith eto erbyn mis Medi 2023, er y byddant newydd orffen yr adolygiad cyntaf o'r trefniadau mewn pryd ar gyfer yr etholiadau cyntaf yn 2019.

The regulation-making power in section 24 does not allow Ministers to extend or abolish the 10-yearly electoral review cycle, which is the principle of the policy approved by the Assembly in the 2013 Act. All the regulations may do is give effect to the practical necessity of resetting the date for the start of the reviews once the merger programme is implemented. As such, we remain of the view that the negative procedure is appropriate.

Nid yw'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 24 yn caniatáu i'r Gweinidogion ymestyn na diddymu'r cylch adolygu etholiadol 10 mlynedd, a dyna egwyddor y polisi a gymeradwywyd gan y Cynulliad yn Neddf 2013. Yr unig beth y gallai'r rheoliadau ei wneud yw effeithio ar y rheidrwydd ymarferol o ailosod y dyddiad ar gyfer dechrau'r adolygiadau ar ôl i'r rhaglen uno gael ei gweithredu. Fel y cyfryw, rydym o'r farn bod y weithdrefn negyddol yn briodol.

In respect of amendment 11, regulations, or Orders as they were termed under earlier legislation, which make electoral arrangements in relation to local government areas, have been regarded as 'local instruments' since they first appeared in the Local Government Act 1972. As such, they're not subject to an Assembly procedure. Section 23 provides a fall-back power for the Welsh Ministers to make regulations for a proposed area, in the unlikely event that the boundary commission does not submit a report and recommendations of its initial review by the date specified by the Welsh Ministers. There are safeguards in place in the event that Welsh Ministers are required to make regulations in such circumstances, with the boundary commission being required to provide Welsh Ministers with any information gathered as part of its review process, including consultation responses.

O ran gwelliant 11, mae rheoliadau, neu Orchmynion fel y'u gelwid dan ddeddfwriaeth gynharach, sy'n gwneud trefniadau etholiadol mewn cyswllt ag ardaloedd llywodraeth leol, wedi eu hystyried fel 'offerynnau lleol' ers iddynt ymddangos am y tro cyntaf yn Neddf Llywodraeth Leol 1972. Fel y cyfryw, nid ydynt yn ddarostyngedig i weithdrefn y Cynulliad. Mae adran 23 yn darparu pŵer wrth gefn i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ar gyfer ardal arfaethedig, yn yr achos annhebygol nad yw'r comisiwn ffiniau yn cyflwyno adroddiad ac argymhellion ei adolygiad cychwynnol erbyn y dyddiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru. Mae mesurau diogelu wedi'u sefydlu os bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan amgylchiadau o'r fath, a bydd yn ofynnol i'r comisiwn ffiniau roi i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth a gasglwyd yn rhan o'i broses adolygu, gan gynnwys ymatebion i'r ymgynghoriad.

The Bill also requires the commission to conduct a review of the electoral arrangements in any authorities in respect of which the Welsh Ministers have made regulations under section 23, as soon as practicable after the first elections. Welsh Ministers are likely to need to move swiftly in the absence of final recommendations from the commission, given the challenging timetable for the reviews. Applying the negative procedure would jeopardise the timely implementation of the regulations.

Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r comisiwn gynnal adolygiad o'r trefniadau etholiadol mewn unrhyw awdurdodau y mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud rheoliadau o dan adran 23, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl yr etholiadau cyntaf. Mae Gweinidogion Cymru yn debygol o fod angen symud yn gyflym yn absenoldeb argymhellion terfynol gan y comisiwn, o ystyried yr amserlen heriol ar gyfer yr adolygiadau. Byddai cymhwyso'r weithdrefn negyddol yn peryglu gweithrediad amserol y rheoliadau.

Turning now to the Government amendment in this group, amendment 25, this is a technical amendment that seeks to ensure clarity in the terminology used in expressing the Welsh Minister's power to direct the commission to conduct an initial review. Sections 16 and 17 of the Bill enable the Welsh Ministers to issue directions to the boundary commission to conduct a review of proposed principal areas and make recommendations to the Welsh Ministers for the electoral arrangements for those areas. An inconsistency has been identified in the use of language referring to the production of the reports by the commission containing the recommendations for the Welsh Ministers in respect of electoral arrangements. Amendment 25 therefore looks to address this inconsistency and remove any possible doubt as to the intention.

Gan droi yn awr at welliant y Llywodraeth yn y grŵp hwn, gwelliant 25, gwelliant technegol yw hwn sy'n ceisio sicrhau eglurder yn y derminoleg a ddefnyddir wrth fynegi pŵer Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau i'r comisiwn i gynnal adolygiad cychwynnol. Mae Adrannau 16 a 17 y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno cyfarwyddiadau i'r comisiwn ffiniau i gynnal adolygiad o'r prif ardaloedd arfaethedig a gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru am y trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardaloedd hynny. Mae anghysondeb wedi ei nodi o ran y defnydd o iaith wrth gyfeirio at gyflwyniad yr adroddiadau gan y comisiwn sy'n cynnwys yr argymhellion i Weinidogion Cymru o ran trefniadau etholiadol. Mae gwelliant 25, felly, yn ceisio mynd i'r afael â'r anghysondeb hwn a chael gwared ar unrhyw amheuaeth posibl ynghylch y bwriad.

Section 17(1) currently provides that a direction made under section 16, requiring the commission to conduct an initial review of a proposed principal area, is to specify the date by which the commission must 'make' a report containing the recommendations. Section 21 of the Bill provides that the commission must 'prepare' a report containing the recommendations which they consider appropriate, 'submit' the report to the Welsh Ministers and 'publish' it. There is no reference in section 21 to the 'making' of a report. The reports referred to under section 17(1) are intended to be those submitted to the Welsh Ministers in accordance with section 21(4)(a). Given the difference in wording between the two sections, there are concerns that section 17(1) could be misinterpreted. This amendment therefore seeks to clarify the position by removing the wording in section 17 which refers to making a report and inserting reference to section 21(4)(a). This amendment is technical and merely brings consistency of wording and, thereby, ensures clarity in the provisions of the Bill.

Mae adran 17 (1) ar hyn o bryd yn darparu bod cyfarwyddyd a wnaed o dan adran 16, yn ei gwneud yn ofynnol i'r comisiwn gynnal adolygiad cychwynnol o brif ardal arfaethedig, ar gyfer pennu'r dyddiad pan y mae'n rhaid i'r comisiwn 'wneud' adroddiad sy'n cynnwys yr argymhellion. Mae Adran 21 y Bil yn datgan y bydd yn rhaid i'r comisiwn 'baratoi' adroddiad yn cynnwys yr argymhellion sy'n briodol yn ei farn ef, 'cyflwyno' yr adroddiad i Weinidogion Cymru a'i 'gyhoeddi'. Nid oes unrhyw gyfeiriad yn adran 21 ynghylch 'gwneud' adroddiad. Bwriedir i'r adroddiadau y cyfeirir atynt o dan adran 17 (1) fod y rhai sydd i'w cyflwyno i Weinidogion Cymru yn unol ag adran 21 (4) (a). O gofio'r gwahaniaeth yn y geiriad rhwng y ddwy adran, ceir pryderon y gallai adran 17 (1) gael ei chamddehongli. Mae'r gwelliant hwn, felly, yn ceisio egluro'r sefyllfa drwy gael gwared ar y geiriad yn adran 17 sy'n cyfeirio at wneud adroddiad a mewnosod cyfeiriad i adran 21 (4) (a). Gwelliant technegol yw hwn a chreu cysondeb o ran geiriad yw ei unig fwriad, a, thrwy hynny, sicrhau eglurder yn narpariaethau'r Bil.

The non-Government amendments in this group are inappropriate and could jeopardise the ability of the commission to deliver its recommendations within the timeline given. I therefore urge Members to support our amendment 25 and oppose the other amendments.

Mae'r gwelliannau nad ydynt yn rhai'r Llywodraeth yn y grŵp hwn yn amhriodol a gallent beryglu gallu'r comisiwn i gyflawni ei argymhellion o fewn yr amserlen a roddwyd. Felly, rwyf yn annog yr Aelodau i gefnogi ein gwelliant 25 a gwrthwynebu'r gwelliannau eraill.

16:14

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black to reply.

Peter Black i ymateb.

16:15

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I've listened carefully to what the Minister had to say in terms of my particular amendments, and I think it can be summed up effectively by saying that we need to rush this Bill through as quickly as possible within the timetables we have available to us and I think that, basically, is it.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf wedi gwrando'n ofalus ar yr hyn yr oedd gan y Gweinidog i'w ddweud o ran fy ngwelliannau penodol i, ac rwyf yn meddwl y gellid ei grynhoi mewn gwirionedd drwy ddweud bod angen inni ruthro'r Bil hwn drwodd cyn gynted ag y bo modd o fewn yr amserlenni sydd gennym ar gael i ni ac rwyf yn credu, yn y bôn, mai dyna'r oll yw hyn.

It just seems to me that the priority here should be getting it right and that means we should have proper and adequate scrutiny of all the processes. If we don't have that proper scrutiny in terms of getting it right, then we're going to get this wrong; we're going to find ourselves back here again in 10, 20 or 30 years' time, and it seems to me that if we're going to have another reorganisation, it should be one that actually lasts. That is why I'm concerned that it shouldn't be about trying to meet timetables; it should be about trying to make sure that we get this right and that this whole process is properly scrutinised. I'm afraid that, by ignoring the recommendations of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, as the Minister is determined to do, we are leaving this process open to having to revisit it again in due course. I'm afraid that isn't something that I can support. Therefore, I hope the Assembly will support these amendments.

Mae'n ymddangos i mi mai'r flaenoriaeth yn y fan hyn ddylai fod gwneud pethau'n iawn, ac mae hynny'n golygu y dylem gael craffu priodol a digonol ar yr holl brosesau. Os nad oes gennym y craffu priodol hwnnw o ran gwneud pethau'n iawn, yna rydym yn mynd i wneud hyn yn anghywir; rydym yn mynd i ganfod ein hunain yn ôl yn y fan yma ymhen 10, 20 neu 30 mlynedd, ac mae'n ymddangos i mi, os ydym yn mynd i gael ad-drefnu arall, y dylai fod yn un sy'n para mewn gwirionedd. Dyna pam rwyf yn pryderu na ddylai fod yn ymwneud â cheisio bodloni amserlenni; dylai fod yn ymwneud â gwneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud hyn yn iawn, a bod craffu priodol ar yr holl broses hon. Mae arnaf ofn, trwy anwybyddu argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, fel y mae'r Gweinidog yn benderfynol o'i wneud, rydym yn gadael y broses hon yn agored i orfod ailymweld a hi eto maes o law. Rwy'n ofni nad yw hynny'n rhywbeth y gallaf ei gefnogi. Felly, gobeithiaf y bydd y Cynulliad yn cefnogi'r gwelliannau hyn.

16:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 2 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 2 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 2: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 2 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Llywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2

Result of the vote on amendment 2

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Minister, amendment 25.

Weinidog, gwelliant 25.

*Cynigiwyd gwelliant 25 (Leighton Andrews).*

*Amendment 25 (Leighton Andrews) moved.*

16:16 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

16:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 25 be agreed. Does any Member object? Then amendment 25 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 25 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly mae gwelliant 25 wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 25 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 25 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 3.

Peter Black, gwelliant 3.

*Cynigiwyd gwelliant 3 (Peter Black) [R].*

*Amendment 3 (Peter Black) [R] moved.*

16:16 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

16:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 3 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 3 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn cael pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 3: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 3 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Llywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3

Result of the vote on amendment 3

16:16

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 4.

Peter Black, gwelliant 4.

*Cynigiwyd gwelliant 4 (Peter Black) [R].*

*Amendment 4 (Peter Black) [R] moved.*

16:16

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

16:17

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 4 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Has every Member voted who wants to? You're lucky you have a very kind DPO. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27. I again cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 4 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn cael pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. A yw pob Aelod sy'n dymuno pleidleisio wedi gwneud hynny? Rydych yn ffodus o gael Dirprwy Lywydd caredig iawn. Caewch y bleidlais. Pleidleisio 27 o blaid.  Pleidleisio 27 yn erbyn. Rwyf unwaith eto yn bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 4: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 4 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Llywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4

Result of the vote on amendment 4

## Gr?p 9: Awdurdodau Lleol sy'n Uno'n Wirfoddol: Etholiadau (Gwelliannau 5, 13, 28, 30 a 31)

## Group 9: Voluntary Mergers of Local Authorities: Elections (Amendments 5, 13, 28, 30 and 31)

16:17

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Group 9 relates to the election of councillors to new principal areas. The lead amendment in this group is amendment 5. I call on Peter Black to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae grŵp 9 yn ymwneud ag ethol cynghorwyr i'r prif ardaloedd newydd. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 5. Galwaf ar Peter Black i gynnig y prif welliant a siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 5 (Peter Black) [R].*

*Amendment 5 (Peter Black) [R] moved.*

16:17

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This amendment relates to the system of election for local authorities, which the Welsh Liberal Democrats believe should be done on a proportional basis, in particular the single transferrable vote.

Mae'r gwelliant hwn yn ymwneud â'r system etholiad ar gyfer awdurdodau lleol, y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu y dylid ei wneud ar sail gyfrannol, yn enwedig y bleidlais drosglwyddadwy sengl.

I know that the Minister understands very well the system of the single transferrable vote, because, of course, he fought a general election in Gillingham in 1987 in support of that particular system of election. [Laughter.] And so, clearly, he will fully understand what I'm getting at when I say that this system produces a proportionate and fairer outcome for local authorities.

Gwn fod y Gweinidog yn deall yn dda iawn system y bleidlais sengl drosglwyddadwy, oherwydd, wrth gwrs, ymladdodd etholiad cyffredinol Gillingham ym 1987 i gefnogi'r system benodol honno ar gyfer etholiad. [Chwerthin.] Ac felly, yn amlwg, bydd yn deall yn llwyr yr hyn yr wyf yn ei feddwl pan fy mod yn dweud bod y system hon yn cyflawni canlyniad cymesur a thecach i awdurdodau lleol.

16:18 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Remind him again, Peter.

Atgoffwch ef eto, Peter.

16:18 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Sorry?

Mae'n ddrwg gennyf?

16:18 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Remind him again. [Laughter.]

Atgoffwch ef eto. [Chwerthin.]

16:18 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If you're going to create larger authorities, authorities with fewer councillors, authorities that, hopefully, will have more responsibilities, then we believe that when you come to elect those authorities, the outcome of those elections should reflect the way that people voted. I think if you do that, you get a more transparent, more accountable local authority and, as a result of that, services are more efficient and more effectively delivered, because councillors are more accountable for the decisions that they take, and of course more representative of the communities that they represent.

Os ydych chi'n mynd i greu awdurdodau mwy, awdurdodau gyda llai o gynghorwyr, awdurdodau y bydd ganddynt, gobeithio, fwy o gyfrifoldebau, yna rydym yn credu pan fyddwch yn mynd ati i ethol yr awdurdodau hynny, dylai canlyniad yr etholiadau hynny adlewyrchu'r ffordd y mae pobl wedi pleidleisio. Rwyf yn meddwl os byddwch yn gwneud hynny, byddwch yn cael awdurdod lleol sy'n fwy tryloyw, ac yn fwy atebol, ac o ganlyniad i hynny, bydd gwasanaethau yn fwy effeithlon ac yn cael eu darparu'n fwy effeithiol, gan fod cynghorwyr yn fwy atebol am y penderfyniadau y maent yn eu gwneud, ac wrth gwrs yn fwy cynrychioladol o'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli.

For that reason, we believe that the single transferrable vote is absolutely essential if we're going to be creating those fewer authorities covering larger areas and with fewer councillors. I would hope, therefore, that the Government could take on board the need for this and will consider these amendments in the spirit that they're made, which is that we believe that local government should be more accountable and should be more transparent and that this is the best way to deliver that.

Am y rheswm hwnnw, rydym ni'n credu bod y bleidlais drosglwyddadwy sengl yn gwbl hanfodol os ydym yn mynd i fod yn creu'r sefyllfa honno lle mae llai o awdurdodau yn cwmpasu ardaloedd mwy a chyda llai o gynghorwyr. Byddwn yn gobeithio, felly, y gallai'r Llywodraeth dderbyn yr angen am hyn ac y bydd yn ystyried y gwelliannau hyn yn unol â'r rhesymau y tu ôl iddynt, sef ein bod ni'n credu y dylai llywodraeth leol fod yn fwy atebol ac y dylai fod yn fwy tryloyw ac mai dyma'r ffordd orau o gyflawni hynny.

16:19 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Bydd Plaid Cymru'n cefnogi'r gwelliannau hyn. Mae hefyd yn bolisi i Blaid Cymru, wrth gwrs, i chwilio i gael pleidleisio cyfrannol mewn etholiadau ar bob lefel, a dweud y gwir, ond wrth gwrs, rydym ond yn trafod awdurdodau lleol yn y fan hon.

Plaid Cymru will be supporting these amendments. It's also Plaid Cymru policy, of course, to look for proportional representations in elections at all levels, but we are only discussing local authorities here.

R?m ni eisoes wedi gweld hwn yn cael ei gyflwyno heb unrhyw drafferth ac mewn ffordd sydd wedi adfywio ac agor democratiaeth yng Ngogledd Iwerddon ac yn yr Alban. Mae Gweriniaeth Iwerddon hefyd yn arfer STV. Rwy'n meddwl ei bod yn ffordd llawer mwy effeithiol o agor lan y broses etholiadol, dod i ben ag etholiadau diwrthwynebiad a gwneud yn si?r hefyd fod yna ddilyniant mewn cynghorwyr. Mae'r Llywodraeth, yn y Papur Gwyn, wedi sôn am gyfyngu ar yr amser y gall rhywun wasanaethu fel cynghorydd. Mae'r Llywodraeth byth a beunydd yn sôn am yr angen i ddod â phobl ifanc i mewn ac i ddod a menywod i mewn ac i agor i fyny'r broses ar gyfer pobl newydd i sefyll etholiad. Wel, un o'r pethau, yn enwedig yng nghefn gwlad, sy'n stopio pobl rhag mynd yn erbyn unigolyn yw'r ffaith bod y lefel bersonol yn dod i mewn—y teimlad ei bod yn rhywbeth personol yn erbyn y person i sefyll mewn cymuned lle mae lot o bobl yn adnabod ei gilydd. I fod yn onest, mae hynny wedi bod yn rhwystr i herio'r drefn ac mae ond, wedyn, yn crisialu hen arferion a hen bethau i mewn i'r drefn honno.

We have already seen this being introduced without any difficulty and in a way that has regenerated and opened up democracy in Northern Ireland and Scotland. The Republic of Ireland is also using STV. I think that it's a far more effective way of opening up the electoral process, ending unopposed elections and ensuring continuity in councils. The Government, in its White Paper, has talked about limiting the term that one can serve as a councillor. The Government is constantly talking of the need to bring young people into the system, to bring women into councils and to open the process so that new people can stand for election. Well, one of the things, particularly in rural areas, that stops people from standing against an individual is the personal element—the feeling that it is a personal grudge to stand against an individual who is in post and representing a community where many people know each other. To be honest, that has been a barrier in challenging the system, and this aspect, therefore, merely sets in stone old practices that have existed for a long period of time.

Felly, mae'n gwbl briodol, os ?m ni'n mynd i ad-drefnu llywodraeth leol ac os ?m ni'n mynd i baratoi ar gyfer awdurdodau newydd, ein bod ni'n edrych eto ar STV a'r ffordd o gyflwyno hyn. Rydym ni'n barod i gefnogi rhai o'r egwyddorion sydd gan y Llywodraeth yn y Papur Gwyn, yn enwedig yn y ffordd r?m ni'n gwneud yn si?r bod pob pleidlais yn cyfrif ac yn arwain at gynrychiolaeth. Mae'n wir i ddweud—ac mae Peter Black wedi cyfeirio at y ffaith mewn ffordd ddeifiol iawn—fod STV yn cael ei wleidydda, fel petai, neu wleidyddoli, os mai dyna yw'r gair, ac mae pawb yn cael eu gyrru i safbwynt: rydych chi'n aelod o'r Democratiaid Rhyddfrydol, rydych chi'n ei gefnogi fe; rydych chi'n aelod o'r Blaid Lafur, mae'n rhaid i chi wrthwynebu; aelod o Blaid Cymu, cefnogi ac ati. Y ffaith amdani—ac i fod yn onest—yw bod yna aelodau o Blaid Cymru yn erbyn STV. Iawn, polisi'r blaid yw e, ond mae yna aelodau sy'n gwerthfawrogi cael eu hethol mewn ward lle maen nhw'n cynrychioli—. Mae yna aelodau o bob plaid yn gwerthfawrogi hynny. Ond mae'n rhaid i ni fel Cynulliad ddod i ddealltwriaeth o beth sydd orau ar gyfer y genedl gyfan, beth sydd orau i sicrhau bod pob pleidlais yn cyfrif a beth sydd orau i sicrhau bod ffordd effeithiol o herio penderfyniadau gan awdurdodau lleol.

Therefore, it is totally appropriate, if we are to reorganise local government and to prepare for new authorities, that we should look anew at STV and the way in which that could be introduced. We are willing to support some of the principles that the Government set out in its White Paper, particularly in the way we ensure that all votes count and lead to representation. It is true to say—and Peter Black has referred to the fact in a very satirical way—that STV is politicised, if 'gwleidyddoli' is the correct word there, and people are driven to a particular view: if you're a member of the Liberal Democrats, you support it; if you're a member of the Labour Party, you have to oppose; if you're a member of Plaid Cymru, you support. The fact is that there are members of Plaid Cymru who are against STV. Yes, it's the party's policy, but there are members who appreciate being elected in a ward and representing that ward. There are members of other parties who hold the same view. However, we as an Assembly have to come to an understanding of what is best for the whole nation, what is best in ensuring that each vote counts, and what is best in ensuring that we have an effective way of challenging decisions by local authorities.

R?m ni, fel Plaid Cymru, a hefyd rhai o'r pleidiau eraill sydd yn llwyddo yn enwedig mewn ardaloedd cefn gwlad, wedi llwyddo cael cynghorwyr wedi eu hethol yn ddiwrthwynebiad. Rydym ni wedi llwyddo, os mai dyna'r gair, i gael cynghorwyr sydd wedi aros yn aelodau ward am ddegawd, dwy ddegawd a thair degawd. Nid yw hynny'n iach fel system. Efallai fod y person yna yn dda iawn ar gyfer yr ardal, ond nid yw'n iach i weld hynny fel patrwm dros y wlad i gyd.

We as Plaid Cymru, and some other parties that are successful in rural areas, have succeeded in getting councillors elected unopposed. We have succeeded, if that's the word, in getting councillors who have represented wards for a decade, two decades or three decades. Such a system is not healthy. That individual may represent the area very well, but we shouldn't replicate such a pattern throughout the country.

Felly, er bod yna her i bob plaid yn cyflwyno STV, rydym ni o'r farn bod angen i'r bleidlais sy'n cael ei bwrw yn lleol gael ei hadlewyrchu wedyn yn y cyngor a chael ei hadlewyrchu ym mholisïau'r cyngor. Wedi'r cyfan, dyna'r system rydym ni'n ei defnyddio yn y fan hon—system wahanol, rwy'n gwybod, ond system fwy cyfrannol o lawer na'r system bresennol rydym ni'n ei harddel ar lefel llywodraeth leol. Felly, rydym ni o'r farn bod mabwysiadu system fwy teg a mwy cynrychiadol ac yn un sy'n arwain at fwy o gystadlu nid yn unig rhwng y pleidiau ond y tu mewn i bleidiau—cystadlu i fod yn gynghorydd—yn system sydd, yn y pen draw, yn mynd i agor lan democratiaeth leol yn llawer mwy effeithiol na'r cyfyngiadau mwy artiffisial y mae Llafur yn edrych arnynt ac y mae'r Llywodraeth yn edrych arnynt ar hyn o bryd. Os ?m ni am weld gwleidyddiaeth fwy agored yng Nghymru, a mwy tyner, os caf i ddefnyddio geiriau Jeremy Corbyn, rydym ni eisiau gweld system sy'n adlewyrchu hynny.

Therefore, although there are challenges for all parties in introducing STV, we are of the view that votes cast locally should be reflected in the council and reflected in council policy. After all, that is the system that we use here—it's a different system, but it is more proportional by far than the system that we currently have in local government. So, we are of the view that adopting a fairer and more proportional system, and one that leads to greater competition not only between parties but within parties—competition to become a councillor—is a system that ultimately will open up local democracy far more effectively than the more artificial limitations that the Labour Party and the Government are looking at at present. If we want to see more open politics in Wales, and kinder politics, if I can use Jeremy Corbyn's words, then we want a system that reflects just that.

16:24 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Presiding Officer, can I start by warning Peter Black that my archive system is probably even more extensive than his and I can remember a few things that I may have to bring up in due course? Indeed, one of the first elections I won in the student movement was actually under a system of STV and it was orchestrated by my very good friend the Member for Pontypridd, at the time. But can I say to Peter Black that I'm sure that there would be great sympathy for him in this Chamber were he to lose an election under a system of proportional representation next year? I'm sure we would all regret that.

Ddirprwy Lywydd, a gaf i ddechrau drwy rybuddio Peter Black fod fy system archif yn ôl pob tebyg hyd yn oed yn fwy eang na'i un ef a gallaf gofio rhai pethau efallai y bydd yn rhaid i mi eu crybwyll maes o law? Yn wir, roedd un o'r etholiadau cyntaf i mi ei ennill yn y mudiad myfyrwyr o dan system STV mewn gwirionedd ac fe'i cynlluniwyd gan fy nghyfaill da iawn yr Aelod dros Bontypridd, ar y pryd. Ond gallaf ddweud wrth Peter Black fy mod yn siŵr y byddai cydymdeimlad mawr iddo yn y Siambr hon pe byddai'n colli etholiad dan system o gynrychiolaeth gyfrannol y flwyddyn nesaf? Rwy'n siŵr y byddem ni i gyd yn gresynu hynny.

However, let me say that the Welsh Government does not support the single transferable vote in local government and therefore does not support amendments 5, 13, 28, 30 and 31, which seek to introduce that system of voting to the election of members to authorities established by way of merger regulations. This Labour Government was elected on a platform of opposition to changing the electoral system for local government. So, our position on this is very clear. Our view remains that voters showed in the referendum in 2011 that they wished to stick with the current voting system. So, we will not be supporting the amendments today. Furthermore, amendments 28, 30 and 31, as drafted, would apply to all local government elections, not just the elections of members to those authorities established by way of merger regulations. We therefore urge Members not to support the amendments in this group.

Fodd bynnag, gadewch imi ddweud nad yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r bleidlais sengl drosglwyddadwy mewn llywodraeth leol ac felly nid yw'n cefnogi gwelliannau 5, 13, 28, 30 a 31, sy'n ceisio cyflwyno’r system honno o bleidleisio i ethol aelodau i awdurdodau a sefydlwyd drwy reoliadau uno. Etholwyd y Llywodraeth Lafur hon ar lwyfan o wrthwynebiad i newid y system etholiadol ar gyfer llywodraeth leol. Felly, mae ein safbwynt ar hyn yn glir iawn. Ein barn ni o hyd yw bod pleidleiswyr wedi dangos yn y refferendwm yn 2011 eu bod yn dymuno parhau â’r system bleidleisio bresennol. Felly, ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliannau heddiw. Yn ogystal, byddai gwelliannau 28, 30 a 31, fel y'i drafftiwyd, yn berthnasol i bob etholiad llywodraeth leol, ac nid dim ond i ethol aelodau i’r awdurdodau hynny a sefydlwyd drwy reoliadau uno. Felly, rydym yn annog yr Aelodau i beidio â chefnogi'r gwelliannau yn y grŵp hwn.

16:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Peter Black to reply.

Peter Black i ymateb.

16:25 **Peter Black** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Shocked as I am to hear the Minister perform a u-turn on his previous position from 1987, I think I would also reciprocate and say how sorry I would be if you lost an election under first past the post on 5 May. [Laughter.]

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Er fy mod i wedi fy syfrdanu o glywed y Gweinidog yn gwneud tro pedol ar ei safbwynt blaenorol o 1987, rwyf yn credu y byddwn innau hefyd yn ymateb a dweud pa mor ddrwg fyddai gennyf eich gweld yn colli etholiad o dan y system cyntaf i'r felin ar 5 Mai. [Chwerthin.]

I think, Deputy Presiding Officer, that the arguments for the single transferable vote were very clearly made, particularly by Simon Thomas, who referred, of course, to the situation in Scotland and Ireland—and Northern Ireland for that matter—where, in fact, the single transferable vote works very successfully and ensures that not only do we not have any uncontested seats but also that every single vote cast in those elections counts. I think it does maintain the link between the elector and the local councillor. Although the wards are slightly larger, it does work as well in rural areas and it does, of course, open up local democracy. It seems to me, Deputy Presiding Officer, that it’s a shame that we are trying to compare the very effective and very representative system of single transferable vote with the system that we use here in this Assembly, which is not a properly proportional system, and not one that I am actually in favour of, but certainly it has an element of proportionality. I think if we’re going to have a properly proportionate system, the single transferable vote is the only way in which we can do that. That’s why I think if we are going to have these new authorities, if they’re going to be larger authorities and they’re going to have fewer councillors, it’s absolutely imperative that every voter sees their vote count in terms of how those councillors are elected. That’s why I think that these amendments are absolutely crucial.

Rwyf yn credu, Ddirprwy Lywydd, bod y dadleuon o blaid y bleidlais sengl drosglwyddadwy wedi cael eu gwneud yn glir iawn, yn enwedig gan Simon Thomas, a gyfeiriodd, wrth gwrs, at y sefyllfa yn yr Alban ac Iwerddon—a Gogledd Iwerddon o ran hynny—ble, mewn gwirionedd, mae'r bleidlais sengl drosglwyddadwy yn gweithio'n llwyddiannus iawn ac yn sicrhau nid yn unig nad oes gennym unrhyw seddi diymgeisydd, ond hefyd bod pob un bleidlais sy’n cael ei bwrw yn yr etholiadau hynny yn cyfrif. Rwy'n credu bod hyn yn cynnal y cysylltiad rhwng yr etholwr a'r cynghorydd lleol. Er bod y wardiau ychydig yn fwy, mae'n gweithio cystal mewn ardaloedd gwledig ac mae, wrth gwrs, yn ehangu democratiaeth leol. Mae'n ymddangos i mi, Ddirprwy Lywydd, yn druenus ein bod ni'n ceisio cymharu'r system effeithiol a chynrychioladol iawn o'r system bleidlais sengl drosglwyddadwy gyda'r un yr ydym yn ei defnyddio yma yn y Cynulliad hwn, nad yw'n system gyfrannol go iawn, ac nid yw'n un yr wyf i o’i phlaid mewn gwirionedd, ond yn sicr mae ganddi elfen o gymesuredd. Rwyf yn credu os ydym yn mynd i gael system sy'n wirioneddol gymesur, y bleidlais sengl drosglwyddadwy yw'r unig ffordd y gallwn ni wneud hynny. Dyna pam yr wyf yn credu os ydym yn mynd i gael yr awdurdodau newydd hyn, os ydynt yn mynd i fod yn awdurdodau sy'n fwy ac y bydd ganddynt lai o gynghorwyr, mae'n gwbl hanfodol fod pob pleidleisiwr yn gweld fod ei bleidlais yn cyfrif o ran sut y mae'r cynghorwyr hynny yn cael eu hethol. Dyna pam rwyf yn credu bod y gwelliannau hyn yn hollbwysig.

I take the Minister's point in terms of how some of these amendments apply, but of course his officials were given the opportunity to review these amendments, and were asked to do so, to make sure that they did conform with the intent of the Bill. Unfortunately, not only did they refuse to do that, but the Minister specifically wrote to me, saying that he was not prepared to allow his officials to review the amendments because he was not supportive of these particular amendments. That seems to me to be a shame and not in the spirit of the scrutiny that we as Assembly Members seek to move these amendments. Certainly, I hope that we can support these amendments because I think that having a proportionate system will actually benefit the whole of local government and the whole of democracy in this country.

Rwyf yn derbyn pwynt y Gweinidog o ran sut y mae rhai o'r gwelliannau hyn yn berthnasol, ond wrth gwrs cafodd eu swyddogion y cyfle i adolygu'r gwelliannau hyn, a gofynnwyd iddynt wneud hynny, i wneud yn siŵr eu bod yn cydymffurfio â bwriad y Bil. Yn anffodus, nid yn unig y gwnaethon nhw wrthod gwneud hynny, ond ysgrifennodd y Gweinidog yn benodol ataf fi, gan ddweud nad oedd yn fodlon caniatáu i'w swyddogion adolygu'r newidiadau oherwydd nad oedd yn cefnogi'r gwelliannau penodol hyn. Mae hynny'n ymddangos yn bechod i mi ac nid yw yn ysbryd y gwaith craffu yr ydym ni fel Aelodau'r Cynulliad yn ei ddymuno i gynnig y gwelliannau hyn. Yn sicr, rwyf yn gobeithio y gallwn gefnogi'r gwelliannau hyn gan fy mod yn credu y bydd cael system gymesur mewn gwirionedd o fudd i lywodraeth leol yn ei chyfanrwydd a democratiaeth yn ei chyfanrwydd yn y wlad hon.

16:27

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 5 is not agreed, amendments 13, 28, 30 and 31 fall.

Os nad yw gwelliant 5 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliannau 13, 28, 30 a 31 yn methu hefyd.

The question is that amendment 5 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 14. There voted against 40. Therefore, amendment 5 falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 5 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn cael pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 14 o blaid. Pleidleisiodd 40 yn erbyn. Felly, mae gwelliant 5 yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 5: O blaid 14, Yn erbyn 40, Ymatal 0.*

*Amendment 5 not agreed: For 14, Against 40, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5

Result of the vote on amendment 5

*Methodd gwelliant 13.*

*Amendment 13 fell.*

*Tynnwyd gwelliant 6 yn ôl.*

*Amendment 6 withdrawn.*

*Methodd gwelliannau 28, 30 a 31.*

*Amendments 28, 30 and 31 fell.*

### Gr?p 10: Diwygiad i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (Gwelliant 20)

### Group 10: Amendment to the Local Government Finance Act 1992 (Amendment 20)

16:28

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Group 10 relates to amendments to the Local Government Finance Act 1992. The only amendment in this group is amendment 20. I call on Janet Finch-Saunders to move and speak to the amendment.

Mae grŵp 10 yn ymwneud â gwelliannau i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Yr unig welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 20. Galwaf ar Janet Finch-Saunders i gynnig a siarad am y gwelliant.

*Cynigiwyd gwelliant 20 (Janet Finch-Saunders).*

*Amendment 20 (Janet Finch-Saunders) moved.*

16:28

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 20 in my name. Our amendment requires that Ministers make regulations to ensure that council tax payers are not disadvantaged as a consequence of the local authority within which they live merging with a neighbouring authority. As the WLGA pointed out, the local government White Paper was silent on the issues of council tax harmonisation, but this is a significant issue.

Cynigiaf welliant 20 yn fy enw i. Mae ein gwelliant yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion wneud rheoliadau i sicrhau nad yw talwyr y dreth gyngor o dan anfantais o ganlyniad i'r awdurdod lleol y maent yn byw ynddo os yw'n uno gydag awdurdod cyfagos. Fel y nododd y CLlLC, roedd y Papur Gwyn llywodraeth leol yn dawel ar y materion o gysoni'r dreth gyngor, ond mae hwn yn fater pwysig.

We know that Ministers already have the power, under section 13 of the Local Government Finance Act 1992, to ensure that local authorities can charge different council tax levels in different parts of their authority. However, our amendment will strengthen this by ensuring that the council or residents are not left out of pocket as a consequence of changes in council tax levels. This issue is particularly pertinent given the estimated costs of mergers. As mentioned earlier in this debate, we would certainly not want to see these costs passed on to council tax payers through any increases.

Rydym yn gwybod bod gan Weinidogion y pŵer yn barod, o dan adran 13 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, i sicrhau y gall awdurdodau lleol godi gwahanol lefelau o dreth gyngor mewn gwahanol rannau o'u hawdurdod. Fodd bynnag, bydd ein gwelliant ni yn cryfhau hyn drwy sicrhau nad yw'r cyngor na thrigolion ar eu colled o ganlyniad i newidiadau yn lefelau'r dreth gyngor. Mae'r mater hwn yn hynod berthnasol o ystyried y gost amcangyfrifol o uno. Fel y crybwyllwyd yn gynharach yn y ddadl hon, mae'n sicr nad ydym am weld y costau hyn yn cael eu trosglwyddo i dalwyr y dreth gyngor drwy unrhyw godiadau.

The Minister recently, during his committee contribution, did sort of say on record that he felt that harmonisation of tax moving upwards was a way in which to fund some of the local government reforms. I am fundamentally—and I speak on behalf of my group—we are fundamentally opposed to any such thing. So, I hope that that will be supported.

Dywedodd y Gweinidog i ryw raddau, yn ddiweddar, yn ystod ei gyfraniad i'r pwyllgor, ar gof a chadw, ei fod yn teimlo bod cysoni treth sy'n codi yn ffordd o ariannu rhai o ddiwygiadau llywodraeth leol. Rwyf yn sylfaenol—ac rwyf yn siarad ar ran fy ngrŵp—rydym ni'n gwrthwynebu yn sylfaenol unrhyw beth o'r fath. Felly, rwyf yn gobeithio y bydd hynny'n cael ei gefnogi.

16:30

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have to admit that I've agonised a bit over this amendment, but I think that, on balance, I'm happy to support it because I think it does highlight a number of fundamental concerns about the merger process; that is, how we reconcile the various issues in terms of merging local authorities that, on one hand, may have transferred their council housing stock, and another authority may not —which would apply, of course, with Swansea and Neath Port Talbot—and where the council tax levels in particular have a very strong variance. For example, I think that voters in Swansea will see a significant increase in their council tax if it merges with Neath Port Talbot, and I think that occurs elsewhere in the map that the Minister has actually published.

Mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mod i wedi bod yn ansicr ynglŷn â'r gwelliant hwn, ond rwyf yn credu, ar y cyfan, fy mod yn hapus i'w gefnogi am fy mod yn credu ei fod yn amlygu nifer o bryderon sylfaenol ynghylch y broses uno; hynny yw, sut yr ydym yn cysoni'r gwahanol faterion o ran uno awdurdodau lleol sydd, ar un llaw, o bosib wedi trosglwyddo eu stoc tai cyngor, ac efallai nad yw'r awdurdod arall wedi gwneud hynny—a fyddai'n berthnasol, wrth gwrs, i Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot—a lle mae lefelau'r dreth gyngor yn benodol, yn amrywio'n fawr iawn. Er enghraifft, rwyf yn meddwl y bydd pleidleiswyr yn Abertawe yn gweld cynnydd sylweddol yn eu treth gyngor os bydd yn uno â Chastell-nedd Port Talbot, a chredaf fod hyn yn digwydd mewn mannau eraill yn y map y mae'r Gweinidog wedi ei gyhoeddi mewn gwirionedd.

I know the Minister has explained to us in the past that he does have powers to effectively apply different levels of council tax within a local authority area, dependent on where a merger has taken place. That is not really a very satisfactory solution, although obviously it is a solution, and one that no doubt he will want to visit again when this agenda is taken forward after the elections in May. I think the same, too, in this Bill: it's laying down the marker that we expect the Minister to alleviate any disadvantage in council tax and to provide additional funding where necessary. I think that brings home the reality to Ministers that any merger of local authorities should not be at the cost of ordinary council tax payers in terms of what they have to pay, but the Welsh Government should put its money where its mouth is and say, 'If we're going to create a system that leads to increases in cost for the ordinary council tax payer, then we're going to find the money to pay for it'. I think, for that reason, we're happy to support this amendment as a marker for the future.

Rwy'n gwybod bod y Gweinidog wedi egluro i ni yn y gorffennol bod ganddo bwerau i weithredu gwahanol lefelau o'r dreth gyngor mewn gwirionedd o fewn ardal awdurdod lleol, yn ddibynnol ar ble y mae uno wedi digwydd. Nid yw hynny mewn gwirionedd yn ateb boddhaol iawn, er ei fod yn amlwg yn ateb, ac yn un y mae'n siŵr y bydd ef yn awyddus i'w ystyried eto pan fydd yr agenda hon yn cael ei symud ymlaen ar ôl yr etholiadau ym mis Mai. Rwyf innau'n meddwl yr un fath, hefyd, yn y Bil hwn: mae'n gosod marc ein bod ni'n disgwyl i'r Gweinidog liniaru unrhyw anfantais yn y dreth gyngor ac i ddarparu cyllid ychwanegol lle y mae ei angen. Credaf fod hynny'n pwysleisio'r gwirionedd i Weinidogion na ddylai unrhyw uno awdurdodau lleol fod ar draul talwyr cyffredin y dreth gyngor o ran yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei dalu, ond dylai Llywodraeth Cymru roi ei harian ar ei gair a dweud, 'Os ydym yn mynd i greu system sy'n arwain at gynnydd mewn costau i dalwyr cyffredin y dreth gyngor, yna rydym yn mynd i ddod o hyd i'r arian i dalu am hynny'.  Rwyf yn credu, am y rheswm hwnnw, ein bod yn hapus i gefnogi'r gwelliant hwn fel marc ar gyfer y dyfodol.

16:32 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I don't think that this matter has to be addressed through this Bill. While this amendment lies only in relation to voluntary mergers, council tax arrangements for all new authorities will be a key consideration for the transition committees and shadow authorities as they plan ahead. I will work closely with them and with the authorities throughout the merger process.

Nid wyf yn credu bod yn rhaid i'r mater hwn gael sylw yn y Bil hwn. Er bod y gwelliant hwn yn gorwedd dim ond mewn cyswllt ag uno gwirfoddol, bydd trefniadau'r dreth gyngor ar gyfer pob awdurdod newydd yn ystyriaeth allweddol ar gyfer y pwyllgorau pontio a'r awdurdodau cysgod wrth iddynt gynllunio ar gyfer y dyfodol. Byddaf yn cydweithio'n agos gyda nhw a'r awdurdodau trwy gydol y broses uno.

So, let me confirm that I intend to issue guidance to transition committees to outline the preparatory work that I expect to be undertaken in connection with council tax. There is an opportunity between now and the formal merger date for local authorities to achieve at least some convergence in council tax levels, and there will be opportunities for Assembly Members to scrutinise any future policy in relation to council tax harmonisation.

Felly, gadewch i mi gadarnhau fy mod yn bwriadu cyhoeddi canllawiau i bwyllgorau pontio i amlinellu'r gwaith paratoi yr wyf yn disgwyl iddo gael ei wneud mewn o ran y dreth gyngor. Mae cyfle rhwng nawr a'r dyddiad uno ffurfiol i awdurdodau lleol gyflawni o leiaf rhywfaint o gydgyfeirio o ran lefelau'r dreth gyngor, a bydd cyfleoedd i Aelodau'r Cynulliad graffu ar unrhyw bolisi yn y dyfodol ynglŷn â chysoni'r dreth gyngor.

However, as I've said before, we cannot be thinking in terms of injecting large sums of extra funding over long periods. In fact, the only way that I can see that we would do that would have to be by top-slicing the revenue support grant, which I don't think helps anyone. I take our responsibility to protect council tax payers from excessive increases very seriously, and of course we've said in the past that we're prepared to use the capping powers already available if necessary. But I think that we can approach some of these issues in different ways, and I would urge Members not to support this amendment.

Fodd bynnag, fel yr wyf wedi'i ddweud o'r blaen, ni allwn feddwl am fuddsoddi llawer o arian ychwanegol dros gyfnodau hir. Mewn gwirionedd, yr unig ffordd y gallaf weld y byddem yn gwneud hynny yw pe byddem ni'n brigdorri'r grant cymorth refeniw, ac nid wyf yn credu bydd hynny'n fuddiol i neb. Rwyf yn ystyried bod ein cyfrifoldeb i amddiffyn talwyr y dreth gyngor rhag cynnydd gormodol yn rhywbeth difrifol iawn, ac wrth gwrs rydym ni wedi dweud yn y gorffennol ein bod yn barod i ddefnyddio'r pwerau capio sydd eisoes ar gael os bydd angen. Ond rwy'n credu y gallwn fynd at rai o'r materion hyn mewn gwahanol ffyrdd, a byddwn yn annog Aelodau i beidio â chefnogi'r gwelliant hwn.

16:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Janet Finch-Saunders to reply.

Janet Finch-Saunders i ymateb.

16:33 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Ddiprwy Lywydd. The Welsh Conservatives' policy on the freezing of council tax is very well known. This is not the debate to call once again for this, though I would really like to. I do hope, however, that Members across this Chamber will support our amendment today. We change to ensure that council tax payers are not disadvantaged as a consequence of any merger that may take place between their local authority and another. At Stage 2, Peter Black AM estimated that a merger between Swansea and Neath Port Talbot could result in a 10 per cent increase in council tax if rates were to be harmonised immediately. I think it is important that we have some mechanism in place here to prevent those kinds of rises. It is not clear whether such rises would be opposed by the Welsh Labour Government. Minister, you have previously stated that you would be prepared to use your capping powers to protect from excessive increases, but neither yourself nor your predecessor or their predecessor have ever clarified what would constitute an excessive increase, and the people of Swansea and elsewhere, especially in Aberconwy, may be left wondering what they might be let in for should a merger go ahead without the protection covered by this amendment. Therefore, I urge all Assembly Members today to think of their constituents. It is after all those who we are all representing here today.

Diolch, Ddiprwy Lywydd. Mae polisi'r Ceidwadwyr Cymreig o rewi'r dreth gyngor yn hysbys iawn. Nid dyma'r ddadl i'w galw unwaith eto ar gyfer hyn, er yr hoffwn yn fawr wneud hynny. Rwyf yn mawr obeithio, fodd bynnag, y bydd Aelodau ar draws y Siambr hon yn cefnogi ein gwelliant heddiw. Rydym yn newid i sicrhau nad yw talwyr y dreth gyngor o dan anfantais o ganlyniad i unrhyw uno a all ddigwydd rhwng eu hawdurdod lleol hwy ac un arall. Yng Nghyfnod 2, amcangyfrifodd Peter Black AC y gallai uno rhwng Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot arwain at gynnydd o 10 y cant yn y dreth gyngor pe byddai'r cyfraddau yn cael eu cysoni ar unwaith. Credaf ei bod yn bwysig bod gennym fecanwaith ar waith yma er mwyn atal y mathau hynny o godiadau. Nid yw'n glir a fyddai cynnydd o'r fath yn cael ei wrthwynebu gan Lywodraeth Lafur Cymru. Weinidog, rydych wedi datgan o'r blaen y byddech yn fodlon defnyddio eich pwerau capio i amddiffyn rhag codiadau eithafol, ond nid ydych chi eich hun na'ch rhagflaenydd na'i ragflaenydd ef erioed wedi egluro beth fyddai'n cyfateb i gynnydd gormodol, a gallai pobl Abertawe a mannau eraill, yn enwedig Aberconwy, gael eu gadael yn pendroni tybed beth fydd y canlyniadau os bydd uno yn digwydd heb y diogelwch sydd wedi ei gynnwys yn y gwelliant hwn. Felly, rwyf yn annog holl Aelodau'r Cynulliad heddiw i feddwl am eu hetholwyr. Yn y pen draw, dyna pwy yr ydym ni i gyd yn eu cynrychioli yma heddiw.

16:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 20 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 18. There voted against 36. Therefore, amendment 20 falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 20 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn cael pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 18 o blaid. Pleidleisiodd 36 yn erbyn. Felly, mae gwelliant 20 yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 20: O blaid 18, Yn erbyn 36, Ymatal 0.*

*Amendment 20 not agreed: For 18, Against 36, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 20

Result of the vote on amendment 20

**Gr?p 11: Cod Ymarfer ar Faterion yn Ymwneud â'r Gweithlu (Gwelliant 21)**

**Group 11: Code of Practice on Workforce Matters (Amendment 21)**

16:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

The next group of amendments relates to a code of practice on workforce matters. The only amendment in this group is amendment 21. I call on Janet Finch-Saunders to move and speak to the amendment.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â chod ymarfer ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu. Yr unig welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 21. Galwaf ar Janet Finch-Saunders i gynnig a siarad am y gwelliant.

*Cynigiwyd gwelliant 21 (Janet Finch-Saunders).*

*Amendment 21 (Janet Finch-Saunders) moved.*

16:35 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I move amendment 21 in my name. This amendment implements recommendation 7 of the committee report and will ensure that local authorities must comply with the code of practice on workforce matters issued by the Welsh Ministers. The code of practice offers protection for employees who provide local authority services that have been outsourced. However, there is currently no statutory requirement on local government to follow the code. During consultation, concerns were raised by the trade unions about the potential for staff who provide vital local authority services that have been outsourced to receive less favourable pay and conditions than those who are employed directly by authorities. Such inequality is not acceptable.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf welliant 21 yn fy enw i. Mae'r gwelliant hwn yn gweithredu argymhelliad 7 adroddiad y pwyllgor a bydd yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gorfod cydymffurfio â'r cod ymarfer ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru. Mae'r cod ymarfer yn cynnig diogelwch i weithwyr sy'n darparu gwasanaethau drwy gontract allanol i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, nid oes gofyniad statudol ar lywodraeth leol i ddilyn y cod. Yn ystod yr ymgynghoriad, mynegwyd pryderon gan yr undebau llafur ynghylch y potensial i staff sy'n darparu gwasanaethau awdurdodau lleol hanfodol ar gontract allanol dderbyn cyflog ac amodau llai ffafriol na'r rhai sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan awdurdodau. Nid yw anghydraddoldeb o'r fath yn dderbyniol.

As the outsourcing of services may become more likely as a result of the mergers, this is an area that the committee identified needs to be fully addressed, and that we, on these chairs—I was going to say benches then—fully support. I do find it astounding and, quite frankly, somewhat hypocritical that the Minister refused to support this amendment at Stage 3, and I sincerely hope that he has seen sense to agree to it today. Thank you.

Gan ei bod yn fwy tebygol y bydd awdurdodau lleol yn defnyddio cwmnïau allanol i ddarparu gwasanaethau o ganlyniad i uno, mae hwn yn faes y mae'r pwyllgor wedi nodi y bydd angen ymdrin ag ef yn llawn, a'n bod ni, ar y cadeiriau hyn—roeddwn i'n mynd i ddweud meinciau nawr—yn llwyr gefnogi hynny. Mae'n syndod imi, a dweud y gwir, a braidd yn rhagrithiol fod y Gweinidog wedi gwrthod cefnogi'r gwelliant hwn yng Nghyfnod 3, ac rwyf yn mawr obeithio ei fod yn ddigon call i gytuno ag ef heddiw. Diolch.

16:36 **Peter Black** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

This is a recommendation of the committee, which, I think, was very concerned that we did ensure that local government did follow the code of practice on workforce matters. I see no harm in it going on the face of the Bill; therefore, I'm happy to support it.

Argymhelliad gan y pwyllgor yw hwn, a oedd, rwyf yn credu, yn pryderu'n fawr ein bod ni'n sicrhau bod llywodraeth leol yn dilyn y cod ymarfer ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu. Ni welaf unrhyw ddrwg iddo fynd ar wyneb y Bil; Felly, rwy'n hapus i'w gefnogi.

16:37 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do find it ironic that the Welsh Conservatives are bringing forward this amendment when their own Secretary of State for Communities and Local Government in the previous UK coalition Government, Eric Pickles, actually withdrew the two-tier code for local government in March 2011.

Mae'n eironig imi bod y Ceidwadwyr Cymreig yn cyflwyno'r gwelliant hwn pan fo eu Hysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol eu hunain yn Llywodraeth glymblaid flaenorol y DU, Eric Pickles, mewn gwirionedd wedi dileu'r cod dwy haen ar gyfer llywodraeth leol ym Mawrth 2011.

We're very clear that we should seek to avoid a two-tier workforce. We believe a strongly engaged, motivated and harmonised workforce is more productive, capable of producing better work and less distracted by the range of issues associated with inequalities and disparities in terms and conditions. Indeed, a revised and strengthened code of practice on workforce matters was issued last year in Wales. Principal local authorities, which are one of the public bodies covered by the code, are under a statutory duty to have regard to it in accordance with section 19(4) of the Local Government Act 1999. The monitoring arrangements we put in place when we issued the refreshed code generally demonstrate that our local authorities are not only having regard to the code, but are using it in respect of contracts that are being let; where we find they are not, we take action.

Rydym yn glir iawn y dylem geisio osgoi gweithlu dwy haen. Rydym yn credu bod gweithlu sy'n ymgysylltiol gryf, brwdfrydig a chyson yn fwy cynhyrchiol, yn gallu cynhyrchu gwaith gwell ac yn llai tebygol o ganolbwyntio ar yr ystod o faterion sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldebau a gwahaniaethu mewn amodau a thelerau. Yn wir, cyhoeddwyd cod diwygiedig a chryfach ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu y llynedd yng Nghymru. Mae prif awdurdodau lleol, sy'n un o'r cyrff cyhoeddus a gwmpesir gan y cod, o dan ddyletswydd statudol i roi sylw iddo yn unol ag adran 19 (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999. Mae'r trefniadau monitro a roddwyd ar waith gennym ar adeg cyhoeddi'r cod newydd yn gyffredinol yn dangos bod ein hawdurdodau lleol nid yn unig yn gorfod rhoi sylw i'r cod, ond maent yn ei ddefnyddio ar gyfer contractau sy'n cael eu gosod; pan ein bod yn darganfod nad ydynt yn gwneud hynny, rydym yn cymryd camau.

The code currently applies on the same basis to all of the bodies to which it applies, including NHS bodies. Seeking to require mandatory compliance with guidance that aims to encourage the application of Transfer of Undertakings (Protection of Employment) Regulations 2006 to staff transfers where those standards are not legally required to apply additionally could lead to the suggestion that TUPE should apply in all circumstances. That is not the intention of the code, which was developed following a full consultation with our social partners. The code strongly encourages the application of TUPE standards to staff transfers where appropriate, but recognises that there are instances where this will not be the case. Potentially removing any discretion, in terms of the application of the code, by attempting to introduce a 'must comply with' duty also removes the possibility of an authority employing higher standards than those required by the code.

Mae'r cod yn berthnasol ar hyn o bryd ar yr un sail i bob un o'r cyrff y mae'n gymwys ar ei gyfer, gan gynnwys cyrff y GIG. Gallai ceisio ei gwneud yn ofynnol i gael cydymffurfiad gorfodol gyda chanllawiau sydd â'r nod o annog cymhwyso Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 i drosglwyddiadau staff lle nad oes raid i'r safonau hynny fod yn berthnasol yn ôl y gyfraith, hefyd arwain at yr awgrym y dylai'r Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau fod yn berthnasol ym mhob sefyllfa. Nid dyna yw bwriad y cod, a ddatblygwyd yn dilyn ymgynghoriad llawn gyda'n partneriaid cymdeithasol. Mae'r cod yn annog yn gryf iawn gweithredu safonau'r Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau i drosglwyddiadau staff pan fo hynny'n briodol, ond mae'n cydnabod y ceir achosion pan na fydd hyn yn wir. Mae cael gwared ar unrhyw ddisgresiwn posibl, o ran gweithredu'r cod, drwy geisio cyflwyno 'rheidrwydd i gydymffurfio' hefyd yn cael gwared ar y posibilrwydd o gael awdurdod sy'n gweithredu safonau uwch na'r rhai sy'n ofynnol gan y Cod.

Deputy Presiding Officer, you will know that we have also recently established the public services staff commission, which demonstrates that we are taking action that our social partners are keen to see to resolve workforce issues to support improved public services in Wales. I think we've taken the action, we've demonstrated we're committed to it and I would urge Members not to support this amendment.

Ddirprwy Lywydd, gwyddoch ein bod ni hefyd yn ddiweddar wedi sefydlu comisiwn staff gwasanaethau cyhoeddus, sy'n dangos ein bod yn cymryd y camau y mae ein partneriaid cymdeithasol yn awyddus i'w gweld i ddatrys materion yn ymwneud â'r gweithlu i gefnogi gwell gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rwyf yn credu ein bod ni wedi cymryd y camau, rydym wedi dangos ein hymrwymiad i hyn a byddwn yn annog Aelodau i beidio â chefnogi'r gwelliant hwn.

16:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Janet Finch-Saunders to reply.

Janet Finch-Saunders i ymateb.

16:39 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Do you know, it is really of some concern that, during consultation, it was highlighted by the trade unions that some local authorities at present, even today, are not applying the code as intended? So, this is something that we need to look at irrespective of mergers. However, in terms of this amendment, if applied appropriately, the code of practice on workforce matters would address the concerns raised in respect of potential inequitable pay and conditions that may arise as a result of mergers leading to the increased outsourcing of public services. It does beg the question—I know I'm thinking it, and goodness knows that anybody watching this today must think it: what is the point of committee and what is the point of taking evidence, when people come forward, actually, who are affected by any legislation that comes forward, and then we—or you, as Welsh Government Ministers—completely ignore the recommendations of the committee? Therefore, I do urge Members here to use their common sense and to support this amendment.

Diolch. Wyddoch chi, mae wir yn bryder, yn ystod yr ymgynghoriad, bod yr undebau llafur wedi amlygu nad yw rhai awdurdodau lleol ar hyn o bryd, hyd yn oed heddiw, yn gweithredu'r cod fel y bwriadwyd? Felly, mae hyn yn rhywbeth y mae angen inni edrych arno ar wahân i uno. Fodd bynnag, o ran y gwelliant hwn, os caiff ei weithredu'n briodol, byddai'r cod ymarfer ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd ynglŷn â thâl anghyfartal posibl ac amodau a allai godi o ganlyniad i uno a fydd yn arwain at gynydd o ran contractau allanol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Mae wir yn gofyn y cwestiwn—rwyf yn gwybod ei fod yn fy meddwl i, ac mae'n sicr o fod ym meddwl unrhyw un sy'n gwylio hyn heddiw: beth yw diben pwyllgor a beth yw diben cael tystiolaeth, pan fydd pobl yn dod ymlaen, mewn gwirionedd, sy'n cael eu heffeithio gan unrhyw ddeddfwriaeth a gyflwynir, ac yna rydym ni—neu chi, fel Gweinidogion Llywodraeth Cymru—yn llwyr anwybyddu argymhellion y pwyllgor? Felly, rwyf yn annog yr Aelodau sydd yma i ddefnyddio eu synnwyr cyffredin a chefnogi'r gwelliant hwn.

16:40 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 21 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 21 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn cael pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid. Pleidleisiodd 27yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 21: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 21 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Llywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 21

Result of the vote on amendment 21

## Gr?p 12: Cynghorau Ieuenctid (Gwelliant 29)

## Group 12: Youth Councils (Amendment 29)

16:40 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The twelfth group of amendments relates to youth councils. The only amendment in this group is amendment 29, and I call on Peter Black to move and speak to the amendment.

Mae'r deuddegfed grŵp o welliannau yn ymwneud â chynghorau ieuenctid. Yr unig welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 29, a galwaf ar Peter Black i gynnig ac i siarad am y gwelliant.

*Cynigiwyd gwelliant 29 (Peter Black) [R].*

*Amendment 29 (Peter Black) [R] moved.*

16:40 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. This amendment is effectively borrowed from the local government White Paper, which the Minister, of course, brought forward previously, and suggests that any voluntarily merged council should set up a youth council for those under the age of 26. Local authorities, of course, already run youth councils, and those councils provide a crucial young people's perspective on the work that the local authority carries out. Of course, we all know that Welsh Government has also made clear its commitment to children and young people by adopting the United Nations Convention on the Rights of the Child into law.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'r gwelliant hwn wedi ei fenthyca mewn gwirionedd o'r Papur Gwyn llywodraeth leol, a ddygwyd ymlaen yn flaenorol, wrth gwrs, gan y Gweinidog, ac mae'n awgrymu y dylai unrhyw gyngor sydd wedi uno'n wirfoddol sefydlu cyngor ieuenctid ar gyfer y rhai hynny sydd o dan 26 oed. Mae awdurdodau lleol, wrth gwrs, eisoes yn rhedeg cynghorau ieuenctid, ac mae'r cynghorau hynny yn dangos persbectif hanfodol pobl ifanc ynglŷn â'r gwaith y mae'r awdurdod lleol yn ei gyflawni. Wrth gwrs, rydym i gyd yn gwybod bod Llywodraeth Cymru hefyd wedi dangos ei hymrwymiad clir i blant a phobl ifanc drwy fabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i fod yn rhan o'r gyfraith.

I think it's important that local authorities do recognise this, and I noticed that, in the White Paper, the Minister proposes, or suggests, that there should be a requirement on the chief executive of every council to establish a youth council. So, I think it's only right, therefore, that we bring this provision forward here so that any merged authority that has been voluntarily merged should also have that requirement, and I hope, therefore, that the Assembly can support this.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod awdurdodau lleol yn cydnabod hyn, a sylwais yn y Papur Gwyn, bod y Gweinidog yn cynnig, neu'n awgrymu, y dylai fod yn ofynnol i brif weithredwr pob cyngor sefydlu cyngor ieuenctid. Felly, rwy'n credu nad yw ond yn deg, felly, ein bod yn dod â'r ddarpariaeth hon ymlaen yma fel bod y gofyniad hwnnw yn berthnasol i unrhyw awdurdod sydd wedi uno'n wirfoddol hefyd, ac rwyf yn gobeithio, felly, y gall y Cynulliad gefnogi hyn.

16:42 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I rise to support amendment 29. The creation of a youth council would add another element of democracy and scrutiny to any new principal local authority. I was actually part of the presentation here, when we had numerous young people from across Wales in relation to the vote at 16. It is evident that we do have youngsters out there who are more than capable of representing a youth council. I believe this would add another element of democracy, scrutiny to any new principal local authority, and I'd like to see this extended, actually, to us having a youth assembly. Certainly, we would hope that such a council would encourage participation and interest in local politics by younger people—a demographic in something of a minority in local government. Whilst details relating to the size, remit and cost of any youth council are lacking from this amendment, we will be supporting it and look forward to future discussions regarding these details, particularly in terms of representation, which we would hope would be on a par with that of the principal local authority in terms of elected representatives per capita. We support it.

Rwyf yn codi i gefnogi gwelliant 29. Byddai creu cyngor ieuenctid yn ychwanegu elfen arall o ddemocratiaeth a chraffu i unrhyw brif awdurdod lleol newydd. Roeddwn i mewn gwirionedd yn rhan o'r cyflwyniad yn y fan yma, pan gawsom nifer o bobl ifanc o bob rhan o Gymru yma mewn cysylltiad â'r bleidlais yn 16 oed. Mae'n amlwg bod gennym bobl ifanc allan yna sydd yn fwy na chymwys i gynrychioli cyngor ieuenctid. Rwyf yn credu y byddai hyn yn ychwanegu elfen arall o ddemocratiaeth, craffu i unrhyw brif awdurdod lleol newydd, a hoffwn weld hyn yn cael ei ehangu, mewn gwirionedd, fel bod gennym ni gynulliad ieuenctid. Yn sicr, byddem yn gobeithio y byddai cyngor o'r fath yn annog cyfranogiad a diddordeb mewn gwleidyddiaeth leol ymhlith pobl iau— demograffeg sydd braidd yn brin mewn llywodraeth leol. Er nad oes manylion yn ymwneud â maint, cylch gwaith a chost unrhyw gyngor ieuenctid yn y gwelliant hwn, byddwn yn ei gefnogi ac yn edrych ymlaen at drafodaethau yn y dyfodol ynghylch y manylion hyn, yn enwedig o ran cynrychiolaeth, yr ydym yn gobeithio y byddai ar yr un lefel â'r prif awdurdod lleol o ran cynrychiolwyr etholedig fesul pen. Rydym yn ei gefnogi.

16:43 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Plaid Cymru will also support this amendment today. We have some concerns about the exact wording of the amendment. There's a reference to an age limit—and I know that was in the White Paper. Twenty-six, for example, seems to make sense now, but if you look at rural areas, it's the young farmers that are the biggest participatory movement. Twenty-six is the age limit that the young famers have at the moment, but they're actively debating extending that to 30. Well, if they were to do that, to have young farmers excluded from a youth council because they changed their membership would be unfortunate, to say the least. I think some of the things that should go into regulations or guidance have, perhaps, crept into an amendment here. Nevertheless, the principle is that there should be youth councils, and I think that principle is one we want to support, and that's why we'll support the amendment today.

Bydd Plaid Cymru hefyd yn cefnogi'r gwelliant hwn heddiw. Mae gennym ni rai pryderon am union eiriad y gwelliant. Mae'n cyfeirio at derfyn oedran—a gwn fod hynny yn y Papur Gwyn. Mae'n ymddangos bod chwech ar hugain, er enghraifft, yn gwneud synnwyr nawr, ond os edrychwch chi ar yr ardaloedd gwledig, y ffermwyr ifanc yw'r mudiad cyfranogol mwyaf. Chwech ar hugain yw'r terfyn oedran i ffermwyr ifanc ar hyn o bryd, ond maent yn trafod yn ymarferol i ymestyn hynny i 30. Wel, pe byddent yn gwneud hynny, byddai gwahardd ffermwyr ifanc o gyngor ieuenctid am eu bod nhw wedi newid eu haelodaeth, yn anffodus, a dweud y lleiaf. Rwy'n credu bod rhai o'r pethau a ddylai fynd i mewn i reoliadau neu ganllawiau wedi, efallai, sleifio i mewn i'r gwelliant hwn. Serch hynny, yr egwyddor yw y dylid cael cynghorau ieuenctid, ac rwyf yn credu bod yr egwyddor honno yn un yr ydym yn dymuno ei chefnogi, a dyna pam y byddwn yn cefnogi'r gwelliant heddiw.

We have taken a significant step backwards in Wales in youth representation over the last year. This is the point that really comes out of this debate. We've lost Funky Dragon. We might have an argument about the effectiveness of such roles, but we have not replaced it yet with an equally effective movement. Today, as a member of the Commonwealth Parliamentary Association, I was part of an interview for a representative to represent the CPA in Australia for the international Commonwealth Youth Parliament. Both of the candidates for that expressed their disappointment, really, that they didn't have an immediate way of referring their experiences from that international experience back to youth councils at a national level in Wales, and very easily at a local level either.

Rydym wedi cymryd cam sylweddol tuag at yn ôl yng Nghymru o ran cynrychiolaeth ieuenctid dros y flwyddyn ddiwethaf. Dyma'r pwynt sydd wir yn dod allan o'r ddadl hon. Rydym ni wedi colli'r Ddraig Ffynci. Efallai y byddwn ni'n cael dadl am effeithiolrwydd swyddogaethau o'r fath, ond nid ydym wedi cael mudiad sydd yr un mor effeithiol yn ei le. Heddiw, fel aelod o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, roeddwn yn rhan o gyfweliad ar gyfer cael cynrychiolydd i gynrychioli Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn Awstralia ar gyfer Senedd Ieuenctid ryngwladol y Gymanwlad. Mynegodd y ddau ymgeisydd ar gyfer hynny eu siom, mewn gwirionedd, nad oedd ganddynt ffordd uniongyrchol o gyfeirio eu profiadau o'r profiad rhyngwladol hwnnw i gynghorau ieuenctid sydd ar lefel genedlaethol yng Nghymru, ac nid yn hawdd iawn ar lefel leol ychwaith.

We do need people to become engaged, and people don't necessarily want to become engaged by standing for election, they don't necessarily want to become engaged by sitting in a public gallery and watching a local authority—that wouldn't be recommended—or sometimes this place. But they do want to e-mail, they do want to be in contact, they want to be kept informed, they want to be part of the decision-making process, they want to influence, they want a participatory budget—they want ideas around how they can do that. A structure that allows that to happen as part of the ongoing process of the local authority is effective, and can be very effective indeed. Why not have a youth council therefore? It's recommended; why not put it in the legislation so we don't lose sight of this important aspect of young people's participation when we're concentrating on maps and reorganisation?

Mae arnom angen i bobl ymgysylltu, ac nid yw pobl o reidrwydd yn awyddus i ymgysylltu drwy sefyll etholiad, nid ydynt o reidrwydd yn awyddus i ymgysylltu drwy eistedd mewn oriel gyhoeddus a gwylio awdurdod lleol—ni fyddai hynny'n cael ei argymell—neu weithiau y lle hwn. Ond maen nhw'n dymuno anfon e-bost, maen nhw'n awyddus i fod mewn cysylltiad, maen nhw'n awyddus i gael y wybodaeth ddiweddaraf, maen nhw'n dymuno bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, maen nhw'n awyddus i ddylanwadu, maen nhw eisiau cyllideb gyfranogol—maen nhw eisiau syniadau ynghylch sut y gallant wneud hynny. Mae strwythur sy'n caniatáu i hynny ddigwydd yn rhan o broses barhaus yr awdurdod lleol yn effeithiol, ac yn wir gall fod yn effeithiol iawn. Beth am gael cyngor ieuenctid, felly? Mae wedi ei argymell; beth am wneud hynny'n rhan o'r ddeddfwriaeth i sicrhau nad ydym yn colli golwg ar yr agwedd bwysig hon o gyfranogiad pobl ifanc pan ein bod yn canolbwyntio ar fapiau ac ad-drefnu?

16:45 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I very much sympathise with the points that the Members have brought forward. As Peter recognised in what he had to say, in our White Paper, 'Reforming Local Government: Power to Local People', we included proposals for youth councils and, indeed, other means of promoting youth involvement in democratic processes. And, certainly, we don't disagree with the principle of youth councils. I think the problem we have is that we think that this is the wrong Bill to bring this amendment forward. We think it would be more appropriate to consider the issue of youth councils in the context of the second Bill—the local government mergers and reform Bill—which will include provisions designed for the new councils generally, and I'll be publishing, obviously, that draft Bill and the consultation paper this autumn.

Rwyf yn cydymdeimlo'n fawr iawn â'r pwyntiau y mae'r Aelodau wedi'u codi. Fel y cydnabu Peter yn yr hyn yr oedd ganddo i'w ddweud, yn ein Papur Gwyn, 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol', rydym yn cynnwys cynigion ar gyfer cynghorau ieuenctid ac, yn wir, dulliau eraill o hyrwyddo cyfranogiad ieuenctid mewn prosesau democrataidd. Ac, yn sicr, nid ydym yn anghytuno â'r egwyddor o gynghorau ieuenctid. Rwy'n meddwl mai'r broblem sydd gennym yw ein bod yn credu mai hwn yw'r Bil anghywir i ddod â'r gwelliant hwn ymlaen. Rydym yn credu y byddai'n fwy priodol i ystyried y mater o gynghorau ieuenctid yng nghyd-destun yr ail Fil—y Bil uno a diwygio llywodraeth leol—a fydd yn cynnwys darpariaethau a gynlluniwyd ar gyfer y cynghorau newydd yn gyffredinol, a byddaf yn cyhoeddi, yn amlwg, y Bil drafft hwnnw a'r papur ymgynghori yn ystod yr hydref hwn.

I think Simon Thomas has rightly raised some concerns over the specifics of the amendment that has been brought forward. I think we also would say that we think it's a little vague; there isn't sufficient detail in legislative terms as to what is meant by a youth council. Most youth councils are set up independently and are linked to the British Youth Council, and there are many such bodies in Wales. I think if the amendment is intended to bring about a young person's alternative youth council, then we need far more detail.

Rwyf yn credu bod Simon Thomas yn iawn wrth godi rhai pryderon am fanylion penodol y gwelliant sydd wedi ei gyflwyno. Rwy'n credu y byddem ninnau hefyd yn dweud ein bod yn meddwl ei fod ychydig yn amwys; nid oes digon o fanylder mewn termau deddfwriaethol ynghylch yr hyn a olygir gan gyngor ieuenctid. Mae'r rhan fwyaf o gynghorau ieuenctid yn cael eu sefydlu yn annibynnol ac maent yn gysylltiedig â Chyngor Ieuenctid Prydain, ac mae llawer o gyrff o'r fath yng Nghymru. Rwy'n credu os y bwriedir i'r gwelliant sicrhau cyngor ieuenctid amgen i bobl ifanc, yna mae angen llawer mwy o fanylder arnom.

So, can I give Members my commitment that we will address the principle of engagement with young people when we consult on the draft second local government Bill this autumn, and I think that is the right context for this discussion?

Felly, gallaf roi fy ymrwymiad i'r Aelodau y byddwn yn mynd i'r afael â'r egwyddor o ymgysylltu â phobl ifanc pan fyddwn yn ymgynghori ar yr ail Fil drafft llywodraeth leol yr hydref hwn, ac rwyf yn meddwl mai dyna'r cyd-destun cywir ar gyfer y drafodaeth hon?

16:47 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And Peter Black to reply.

A Peter Black i ymateb.

16:47 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I start by welcoming that commitment from the Minister who, of course, did raise it in his White Paper as well? I had discussions with the Children's Commissioner for Wales about this too; I think she's also very keen that this issue be taken forward.

A gaf i ddechrau drwy groesawu'r ymrwymiad yna gan y Gweinidog a wnaeth, wrth gwrs, godi'r mater yn ei Bapur Gwyn hefyd? Cefais drafodaethau gyda Chomisiynydd Plant Cymru am hyn hefyd; Rwy'n credu ei bod hithau hefyd yn awyddus iawn i symud y mater hwn ymlaen.

Simon Thomas is absolutely right, of course, that we are facing issues in terms of how young people are represented and in terms of what has happened with the demise of Funky Dragon and other organisations. I think it's absolutely right that we do seek to put in place some formal process whereby young people are able to interact with elected institutions, whether it be the Welsh Government, the Assembly itself or local councils. Therefore, I hope that we can take this forward and we will press this amendment now, but certainly I do look forward to it coming forward in the future Bill once the Assembly elections are out of the way.

Mae Simon Thomas yn gwbl gywir, wrth gwrs, ein bod yn wynebu problemau o ran sut y mae pobl ifanc yn cael eu cynrychioli ac o ran yr hyn sydd wedi digwydd gyda diwedd y Ddraig Ffynci a sefydliadau eraill. Rwy'n credu ei fod yn hollol gywir ein bod ni'n ceisio sefydlu rhyw broses ffurfiol lle bydd pobl ifanc yn gallu rhyngweithio â sefydliadau etholedig, boed hynny yn Llywodraeth Cymru, y Cynulliad ei hun neu gynghorau lleol. Felly, rwyf yn gobeithio y gallwn symud hyn ymlaen a byddwn yn pwyso'r gwelliant hwn yn awr, ond rwyf yn sicr yn edrych ymlaen i'w weld yn dod ymlaen yn y Bil nesaf pan fydd etholiadau'r Cynulliad wedi eu cynnal.

16:48

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The question is that amendment 29 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27. I cast my vote against the amendment, which consequently falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 29 yn cael ei dderbyn.  A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn cael pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 29: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 29 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order No. 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 29

Result of the vote on amendment 29

16:48

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Peter Black, amendment 7.

Peter Black, gwelliant 7.

*Cynigiwyd gwelliant 7 (Peter Black) [R].*

*Amendment 7 (Peter Black) [R] moved.*

16:48

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Move.

Cynnig.

16:48

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The question is that amendment 7 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27. I again cast my vote against the amendment.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 7 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn cael pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwyf unwaith eto yn bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant.

*Gwrthodwyd gwelliant 7: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 7 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order No. 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 7

Result of the vote on amendment 7

16:48

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Peter Black, amendment 8.

Peter Black, gwelliant 8.

*Cynigiwyd gwelliant 8 (Peter Black) [R].*

*Amendment 8 (Peter Black) [R] moved.*

16:48

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Move.

Cynnig.

16:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 8 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27. I cast my vote against the amendment, which consequently falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 8 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn cael pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid 27. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 8: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 8 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order No. 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 8

Result of the vote on amendment 8

## Gr?p 13: Cyfyngiadau ar Drafodion gan Awdurdodau sy'n Uno: Gweithdrefnau'r Cynulliad (Gwelliant 9)

## Group 13: Restraints on Transactions by Merging Authorities: Assembly Procedure (Amendment 9)

16:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The final group of amendments relates to restraints on transactions by merging authorities and Assembly procedure. The only amendment in this group is amendment 9, and I call on Peter Black to move and speak to the amendment.

Mae'r grŵp olaf o welliannau yn ymwneud â chyfyngiadau ar drafodion gan awdurdodau sy'n uno a gweithdrefn y Cynulliad. Yr unig welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 9, a galwaf ar Peter Black i gynnig ac i siarad am y gwelliant.

*Cynigiwyd gwelliant 9 (Peter Black) [R].*

*Amendment 9 (Peter Black) [R] moved.*

16:49 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I certainly move amendment 9. This is, again, following the suggestion of the Constitutional and Legislative Affairs Committee in terms of ensuring that we have a proper scrutiny of any changes made through this Bill, and making sure that the procedures that attach to the directions, regulations and guidance are appropriate and properly scrutinised by this Assembly. I said earlier today that I think that we are rushing this process, and that we're in danger, in doing so, of not properly looking at the regulations and guidance that go with this Bill. I think it's important, therefore, that amendments like this are supported.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf yn sicr yn cynnig gwelliant 9. Mae hyn, unwaith eto, yn dilyn awgrym y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol o ran sicrhau bod gennym graffu priodol ar unrhyw newidiadau a wneir drwy'r Bil hwn, a gwneud yn siŵr bod y gweithdrefnau sy'n cael eu hatodi i'r cyfarwyddiadau, rheoliadau a chanllawiau yn briodol ac y cânt eu craffu gan y Cynulliad hwn. Dywedais yn gynharach heddiw fy mod yn credu ein bod yn rhuthro'r broses hon, ac ein bod ni mewn perygl, wrth wneud hynny, o beidio ag edrych yn iawn ar y rheoliadau a'r canllawiau sy'n cyd-fynd â'r Bil hwn. Rwy'n credu ei bod yn bwysig, felly, bod newidiadau fel hyn yn cael eu cefnogi.

16:49 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Presiding Officer, amendment 9 seeks to apply the affirmative procedure for regulations made under section 35(4) of the Bill. The purpose of such regulations would be to substitute new amounts for the thresholds set out in section 34, which are the trigger values at which Welsh Ministers can introduce restraints for specified transactions.

Ddirprwy Lywydd, mae gwelliant 9 yn ceisio cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran 35 (4) y Bil. Pwrpas rheoliadau o'r fath fyddai rhoi symiau newydd ar gyfer y trothwyon a nodir yn adran 34, sef y gwerthoedd sbardun y gall Gweinidogion Cymru gyflwyno cyfyngiadau arnynt ar gyfer trafodiadau penodol.

There is an important distinction, which needs to be understood. The thresholds on the face of the Bill are the trigger values for the Welsh Ministers to issue directions in respect of specific restricted activities. Section 30 enables those directions to specify different requirements in respect of different transaction values at or above the trigger values specified on the face of the Bill to reflect local circumstances.

Mae gwahaniaeth pwysig, y mae angen ei ddeall. Y trothwyon sydd ar wyneb y Bil yw'r gwerthoedd sbardun i Weinidogion Cymru gyhoeddi cyfarwyddiadau ar gyfer gweithgareddau cyfyngedig penodol. Mae adran 30 yn galluogi'r cyfarwyddiadau hynny i bennu gofynion gwahanol ar gyfer gwerthoedd trafodiadau gwahanol sydd yr un faint neu'n uwch na'r gwerthoedd sbardun a nodir ar wyneb y Bil i adlewyrchu amgylchiadau lleol.

Section 35(4), therefore, merely enables the Welsh Ministers to make regulations to vary the trigger values. We will be monitoring the effects of any directions issued during the transition period, and, if local authorities respect the spirit of the transactions regime, it may be appropriate to relax the regime by setting higher transaction values within the directions for some or all types of restricted activity. However, if, in exceptional circumstances, authorities fail to act responsibly, we might need to move quickly to lower the trigger values in the Bill, so that directions that impose a more prescriptive approach for certain authorities can be issued.

Mae adran 35 (4), felly, yn galluogi Gweinidogion Cymru dim ond i wneud rheoliadau i amrywio'r gwerthoedd sbardun. Byddwn yn monitro effeithiau unrhyw gyfarwyddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod pontio, ac, os bydd awdurdodau lleol yn parchu bwriad y drefniadaeth trafodiadau, gallai fod yn briodol i lacio'r drefn drwy osod gwerthoedd trafodiadau uwch yn y cyfarwyddiadau ar gyfer rhai neu bob math o weithgareddau cyfyngedig. Fodd bynnag, os, mewn amgylchiadau eithriadol, bydd awdurdodau yn methu ag ymddwyn yn gyfrifol, efallai y bydd angen i ni symud yn gyflym i ostwng y gwerthoedd sbardun yn y Bil, fel y gall cyfarwyddiadau sy'n gosod ymagwedd fwy rhagnodol ar gyfer awdurdodau penodol gael eu cyhoeddi.

We think the affirmative procedure is excessive for the management of such a regime and will delay Ministers' ability to respond quickly to local circumstances. The negative procedure currently applies to regulations under section 35(4) and in my view this is the appropriate procedure for these regulations. In addition, amendment 9 does not delete the existing reference to section 35(4) in section 44(3), so, if this amendment is approved, regulations to amend section 35(4) would be subject to both the affirmative and the negative procedures, which is clearly unworkable.

Rydym yn credu bod y weithdrefn gadarnhaol yn ormodol ar gyfer rheoli cyfundrefn o'r fath a bydd yn oedi gallu Gweinidogion i ymateb yn gyflym i amgylchiadau lleol. Mae'r weithdrefn negyddol ar hyn o bryd yn berthnasol i reoliadau o dan adran 35 (4) ac yn fy marn i dyma'r weithdrefn briodol ar gyfer y rheoliadau hyn. Yn ogystal, nid yw gwelliant 9 yn dileu'r cyfeiriad presennol i adran 35 (4) yn adran 44 (3), felly, os bydd y gwelliant hwn yn cael ei gymeradwyo, bydd rheoliadau i ddiwygio adran 35 (4) yn destun y gweithdrefnau cadarnhaol a'r rhai negyddol, sydd yn amlwg yn anymarferol.

16:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

And Peter Black to reply.

A Peter Black i ymateb.

16:51 **Peter Black** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

16:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 9 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27. I cast my vote against the amendment, which consequently falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 9 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn cael pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 9: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 9 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Llywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 9

Result of the vote on amendment 9

16:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 10.

Peter Black, gwelliant 10.

*Cynigiwyd gwelliant 10 (Peter Black).*

*Amendment 10 (Peter Black) moved.*

16:52

## Peter Black
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

16:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 10 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 10 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn cael pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 10: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 10 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Llywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 10

Result of the vote on amendment 10

16:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 11.

Peter Black, gwelliant 11.

*Cynigiwyd gwelliant 11 (Peter Black).*

*Amendment 11 (Peter Black) moved.*

16:52

## Peter Black
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

16:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 11 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 11 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn cael pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 11: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 11 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Llywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 11

Result of the vote on amendment 11

16:53

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 12.

Peter Black, gwelliant 12.

*Cynigiwyd gwelliant 12 (Peter Black).*

*Amendment 12 (Peter Black) moved.*

16:53

## Peter Black
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

16:53

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 12 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 16. There voted against 38. Therefore amendment 12 falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 12 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 16 o blaid. Pleidleisiodd 38 yn erbyn. Felly mae gwelliant 12 yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 12: O blaid 16, Yn erbyn 38, Ymatal 0.*

*Amendment 9 not agreed: For 16, Against 38, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 12

Result of the vote on amendment 12

16:53

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have reached the end of our Stage 3 consideration of the Local Government (Wales) Bill. I declare that all sections of and Schedules to the Bill are deemed agreed.

Rydym ni wedi dod i ddiwedd ein hystyriaeth Cyfnod 3 o Fil Llywodraeth Leol (Cymru). Rwyf yn datgan y barnwyd bod pob adran o'r Bil a'r Atodlenni ar ei gyfer wedi'u derbyn.

*Barnwyd y cytunwyd ar bob adran o'r Bil.*

*All sections of the Bill deemed agreed.*

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

That concludes Stage 3 proceedings and concludes today's proceedings in the Assembly. Thank you.

Dyna ddiwedd trafodion Cyfnod 3 ac mae'n dod â thrafodion heddiw i ben yn y Cynulliad. Diolch.

*Daeth y cyfarfod i ben am 16:53.*

*The meeting ended at 16:53.*